



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Arweiniad Ymarferol



Datblygiadau Un Blaned

Nodyn Cyngor Technegol 6

Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy

Hydref 2012

Rhaglen Datblygu Polisi Cynllunio Cymru

Paratowyd i Lywodraeth Cymru gan Land Use Consultants ac Ymddiriedolaeth Positive Development:

Land Use Consultants

14 Great George Street

Bristol

BS1 5RH

bristol@landuse.co.uk

Ffôn: 0117 929 1997

Positive Development Trust

www.positivedevelopmenttrust.org

Cangen Polisi Cynllunio

Yr Is adran Gynllunio

Llywodraeth Cymru

Caerdydd

CF10 3NQ

planning.division@wales.gsi.gov.uk

<http://wales.gov.uk/topics/planning/?skip=1&lang=cy>

ISBN 978 0 7504 8243 1
© Hawlfraint y Goron Hydref 2012
WG17037



Cyfarwyddyd Ymarfer ar gyfer Datblygiadau Un Blaned

Llun y clawr
'Roundhouse', Brithdir Mawr,
Cyngor Sir Penfro, - Tony Wrench



CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD

Pwrrpas y cyfarwyddyd hwn	1
Datblygiadau Un Blaned – y cyd-destun polisi	1
Nodweddion hanfodol Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored	2
Datblygiadau Un Blaned ac anghenion sylfaenol	3
Datblygiadau Un Blaned a'r system gynllunio	3
Mathau o Ddatblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored	4
Dewis safle	5

2. CYFLWYNO'R CYNLLUN RHEOLI A'R DADANSODDIAD ÔL TROED ECOLEGOL

Datblygiadau Un Blaned: pwrpas a chynnwys y Cynllun Rheoli	7
Prif elfennau'r Cynllun Rheoli	9
Meini prawf cymhwyso Datblygiadau Un Blaned	9
Datblygiadau Un Blaned – Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol	10
Ôl traed eraill – Busnesau Datblygiad Un Blaned a'r gymuned ehangach	10
Sut i ddefnyddio'r cyfarwyddyd hwn	11
Ymgeiswyr sy'n paratoi cynllun rheoli Datblygiad Un Blaned	11
Asesu ceisiadau am Ddatblygiadau Un Blaned	12
Rheoli a monitro ceisiadau llwyddiannus	12
Y cynllun rheoli cyntaf a rhai dilynol	13
Y cynllun rheoli cyntaf	13
Cynlluniau rheoli dilynol (i'w cynhyrchu unwaith bob pum mlynedd)	13

3. ELFENNAU UNIGOL Y CYNLLUN RHEOLI

Crynodeb	14
Llinell sylfaen	14
Dyluniad / Strategaeth	16
PRIF ELFENNAU'R CYNLLUN RHEOLI	17
CYNLLUN BUSNES A GWELLA	17
Gweithgarwch ar y tir	18
Amcanion	18
Cydrannau	19
Meini prawf hanfodol	21
Meini prawf cyfrannol	22
Monitro: Meini prawf hanfodol	22
Monitro: Meini prawf cyfrannol	23

Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol: Data angenrheidiol	23
Ôl Traed Eraill: Data angenrheidiol	23
Rheoli Tir	24
Amcanion	24
Cydrannau	24
Meini prawf hanfodol	26
Meini prawf cyfrannol	27
Monitro: Meini prawf hanfodol	27
Monitro: Meini prawf cyfrannol	29
Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol: Data angenrheidiol	29
Ynni a Dŵr	31
Amcanion	31
Cydrannau	31
Meini prawf hanfodol	34
Meini prawf cyfrannol	34
Monitro: Meini prawf hanfodol	35
Monitro: Meini prawf cyfrannol	35
Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol: Data angenrheidiol	35
Ôl Traed Eraill: Data angenrheidiol	36
Gwastraff	37
Amcanion	37
Cydrannau	37
Meini prawf hanfodol	38
Meini prawf cyfrannol	39
Monitro: Meini prawf hanfodol	39
Monitro: Meini prawf cyfrannol	39
Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol: Data angenrheidiol	39
ADEILADAU DI-GARBON	40
Amcanion	40
Cydrannau	44
Meini prawf hanfodol	44
Meini prawf cyfrannol	44
Monitro: Meini prawf hanfodol	46
Monitro: Meini prawf cyfrannol	46
Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol: Data angenrheidiol	47

ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL	48
Amcanion	48
Cydrannau	48
Meini prawf hanfodol	49
Meini prawf cyfrannol	49
Monitro: Meini prawf hanfodol	49
Monitro: Meini prawf cyfrannol	49
Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol: Data angenrheidiol	50
 ASESIAD TRAFNIDIAETH A CHYNLLUN TEITHIO	 52
Amcanion	52
Cydrannau	52
Meini prawf hanfodol	54
Meini prawf cyfrannol	55
Monitro: Meini prawf hanfodol	55
Monitro: Meini prawf cyfrannol	55
Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol: Data angenrheidiol	56
 4. DADANSODDIAD ÔL TROED ECOLEGOL	 57
Cyflwyniad	57
Offeryn Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol Datblygiad Un Blaned	57
Defnyddio'r offeryn dadansoddi	58
Dehongli'r Canlyniadau	60
Ôl traed eraill	62
 5. CYFNODAU, MONITRO A STRATEGAETH YMADAEL	 63
Datblygu cynigion fesul cyfnod	63
Monitro	63
Adroddiad monitro blynyddol	64
Ymateb i broblemau sy'n codi – cardiau coch a melyn	67
Strategaeth ymadael	67
Adolygu'r cynllun rheoli bob pum mlynedd	68
 6. Y BROSES GYNLLUNIO	 70



I. CYFLWYNIAD

Pwrpas y cyfarwyddyd hwn

1.1 Mae'r cyfarwyddyd hwn yn disgrifio'r gofynion cynllunio ar gyfer Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn egluro y dylai datblygiadau yng nghefn gwlad gael eu lleoli o fewn ac yn gyfagos i aneddiadau ac y dylid arfer rheolaeth lem ar adeiladu newydd yng nghefn gwlad agored oddi wrth aneddiadau presennol (4.6.8).

1.2 Felly mae'r cyfarwyddyd hwn yn delio â Datblygiadau Un Blaned mewn lleoliadau gwledig y tu allan i aneddiadau presennol. Mae cefn gwlad agored yn cynnwys ardaloedd lle mae pentrefi bach gwasgaredig a thir ar gyrion aneddiadau na fyddent yn cael eu hystyried ar gyfer datblygu fel arall.

1.3 Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 6 (TAN 6) Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yw'r ffynonellau polisi ar gyfer Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ategu TAN 6 ac yn delio â'r holl ofynion ar gyfer cais cynllunio am Ddatblygiad Un Blaned. Mae'n canolbwyntio ar y Cynllun Rheoli y mae'n rhaid ei gyflwyno gyda phob cais am Ddatblygiad Un Blaned ac ar y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol sy'n mynd law yn llaw â'r Cynllun Rheoli.

1.4 Mae'r cyfarwyddyd yn cynnig cymorth ymarferol i ymgeiswyr sy'n llunio cynigion am Ddatblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored ac i awdurdodau cynllunio sy'n eu hasesu. Mae gofynion caeth ar gyfer Datblygiadau Un Blaned, a hynny'n gwbl briodol. Mae angen i ymgeiswyr werthfawrogi hyn a chyflawni'r gofynion hynny, tra bo angen i awdurdodau cynllunio sicrhau eu bod wedi'u cyflawni. Maes polisi cymharol newydd yw hwn i bawb, felly mae esboniadau ac enghreifftiau wedi'u darparu.

Datblygiadau Un Blaned – y cyd-destun polisi

1.5 Un o amcanion Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' yw y bydd Cymru, o fewn oes un genhedlaeth, yn defnyddio dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r ddaear, ac y bydd ein hól troed ecolegol yn cael ei leihau yn ôl maint yr adnoddau sydd ar gael ar gyfartaledd yn fyd-eang – 1.88 hectar byd-eang y pen (o'r adnoddau a oedd ar gael yn fyd-eang yn 2007). Mae'r targed hwn yn ymestynol iawn ond yn angenrheidiol.

1.6 Mae'r amcan hwn wedi'i drafod ymhellach yn Polisi Cynllunio Cymru¹ lle mae Datblygiad Un Blaned wedi'i ddiffinio fel a ganlyn: "Datblygiad sy'n gwella ansawdd yr amgylchedd neu nad yw'n ei waethgu mewn unrhyw ffordd arwyddocaol yw Datblygiad Un Blaned. I gychwyn, dylai ôl troed ecolegol Datblygiadau Un Blaned fod yn ddim mwy na 2.4 hectar byd-eang y person o ran eu defnydd o adnoddau, a dylent ddangos potensial amlwg i symud tuag at ôl troed o 1.88 hectar byd-eang" [9.3.11].

¹ Polisi Cynllunio Cymru 4^{ydd} Argraffiad Chwefror 2011 paragraff 9.3.11

1.7 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn mynd ymlaen i nodi y dylai “Datblygiadau Un Blaned ar y tir yng nghefn gwlad agored allu darparu o leiaf yr hyn sydd ei angen ar y preswylwyr o ran incwm, bwyd, ynni a thrin gwastraff am gyfnod o ddim mwy na 5 mlynedd o ddyddiad cychwyn y gwaith ar y safle. Dylid dangos hyn trwy gynllun rheoli a luniwyd gan berson(au) cymwys. Dylai'r cynllun rheoli nodi amcanion y cynnig, yr amserlen ar gyfer datblygu'r safle a'r amserlen ar gyfer ei adolygu. Os rhoddir caniatâd cynllunio, dylid defnyddio'r cynllun rheoli fel sylfaen ar gyfer cytundeb cyfreithiol ynghylch deiliadaeth y safle” [9.3.12].

1.8 Mae'r gofynion uchod wedi'u datblygu wedyn yn TAN 6, a rhoddir sylw i'r rhain yng ngweddill y cyfarwyddyd hwn.

Nodweddion hanfodol Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored

1.9 Gan ddilyn Polisi Cynllunio Cymru, mae TAN 6 yn pennu set o nodweddion hanfodol y mae'n rhaid eu cael ym mhob Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored. Nodweddion Datblygiadau Un Blaned yw eu bod:

- Yn fach eu heffaith ar yr amgylchedd – gan wella'r amgylchedd lle bo modd drwy weithgareddau ar y safle.
- Yn ddatblygiadau ar y tir – rhaid i'r datblygiad ddarparu ar gyfer anghenion sylfaenol y preswylwyr o ran bwyd, incwm, ynni a thrin gwastraff o fewn pum mlynedd.
- Yn isel eu hól troed ecolegol – i gychwyn, rhaid i ôl troed ecolegol y datblygiad fod yn 2.4 hectar byd-eang y pen neu'n llai a dangos potensial amlwg i symud tuag at y targed o 1.88 hectar byd-eang y pen gydag amser – dyma feincnodau'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol ar gyfer pob Datblygiad Un Blaned (paragraff 2.11).
- Yn cynnwys adeiladau carbon isel iawn – mae'r rhain yn ofynion caeth am adeiladau sy'n isel o ran carbon wrth eu hadeiladu a'u defnyddio.
- Yn cael eu diffinio a'u rheoli gan gynllun rheoli rhwymol a gaiff ei adolygu a'i ddiweddarau bob pum mlynedd.
- Yn cael eu rhwymo gan ddatganiad clir y bydd y datblygiad yn unig gartref i'r darpar feddianwyr.

1.10 Er mwyn sicrhau'r nodweddion hanfodol hyn, bydd preswylwyr Datblygiadau Un Blaned yn byw'n eithaf gwahanol (yn fwy cynaliadwy o lawer) na'r norm yn yr 21 ganrif. Felly nid yw'r diffiniad o Ddatblygiad Un Blaned yn cynnwys datblygu ffisegol yn unig. Mae'n disgrifio ffordd wahanol o fyw lle mae perthynas symbiotig rhwng pobl a thir, sy'n ei gwneud yn bosibl lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd. Felly mae'r cynllun rheoli ar gyfer Datblygiad Un Blaned yn disgrifio natur y datblygiad yn ogystal â'r ffordd o fyw a fydd yn gysylltiedig â'r datblygiad hwnnw.

Datblygiadau Un Blaned ac anghenion sylfaenol

1.11 Mae'n ofynnol bod Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored yn diwallu anghenion sylfaenol y preswylwyr o ran bwyd, incwm, ynni a thrin gwastraff o'r safle. Mae hyn yn golygu y bydd Datblygiadau Un Blaned yn hunangynhaliol gan mwyaf, mewn ffyrdd sy'n fach eu heffaith ar yr amgylchedd.

1.12 Mae ystyr anghenion sylfaenol yn amrywio ychydig ar gyfer bwyd, incwm, ynni a thrin gwastraff.

- 1) Yn achos **bwyd** mae'n golygu y bydd y rhan fwyaf o anghenion preswylwyr y safle am fwyd yn cael eu bodloni ar y safle (drwy dyfu bwyd a magu anifeiliaid) neu drwy ei brynu ag incwm a gafwyd o gynhyrchion eraill sydd wedi'u tyfu (fel coed) neu eu magu ar y safle. Mae paragraffau 3.24 – 3.26 yn trafod hyn ymhellach.
- 2) Yn achos **incwm** mae'n golygu bod angen i'r safle gynhyrchu digon o incwm i dalu am anghenion sylfaenol holl breswylwyr y safle nad yw'r safle'n gallu eu darparu'n uniongyrchol. Y rhain yw dillad, teithio, TG / cyfathrebu, y Dreth Gyngor a'r anghenion bwyd sydd heb eu cynnwys yn (1) uchod. Mae paragraffau 3.27 – 3.28 yn trafod hyn ymhellach.
- 3) Yn achos **ynni a thrin gwastraff** mae'n golygu y bydd y safle'n cynhyrchu'r holl ynni sydd ei angen ar breswylwyr y safle (gan gynnwys ynni ar gyfer unrhyw brosesu) ac y bydd yn gallu trin yr holl wastraff y mae'r safle'n ei gynhyrchu heblaw meintiau bach iawn o wastraff nad yw'n fioddiraddadwy neu wastraff peryglus (fel batris) lle mae cyfiawnhad dros ddefnyddio dulliau eraill am eu bod yn fwy cynaliadwy. Bydd y rhan fwyaf o'r anghenion am ddŵr yn cael eu diwallu ar y safle hefyd. Mae'n hanfodol lleihau'r defnydd o ynni a dŵr, a lleihau gwastraff na ellir ei drin ar y safle er mwyn lleihau anghenion a sicrhau Ôl Troed Ecolegol isel. Mae mwy o wybodaeth am ynni a dŵr ym mharagraffau 3.54 – 3.61 ac am wastraff ym mharagraffau 3.69 – 3.74.

Datblygiadau Un Blaned a'r system gynllunio

1.13 Mae Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored yn faes newydd mewn polisi gwledig a chymharol brin yw'r profiad a gafwyd ohono hyd yma. Gellir ei gyfiawnhau fel eithriad i'r rheolaeth gaeth ar ddatblygu yng nghefn gwlad agored a dim ond os yw'n bodloni'r gofynion ymestynnol yn TAN 6 ac yn y cyfarwyddyd hwn y bydd yn cael ei ganiatáu. Oherwydd hyn, bydd cynigion am Ddatblygiadau Un Blaned yn cael eu harchwilio'n fanwl.

1.14 Mae angen tystiolaeth gadarn mewn cynllun rheoli i ategu pob cais am Ddatblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored. Bydd y cynllun rheoli wedi'i lunio gan berson(au) cymwys [TAN 6: 4.16.1]. Gan fod hwn yn faes polisi newydd mae'n bwysig:

- Bod darpar ymgeiswyr am Ddatblygiadau Un Blaned yn dod i gysylltiad â'r awdurdod cynllunio ar y dechrau i drafod cynigion sy'n cael eu datblygu. Drwy'r trafodaethau hyn dylid dangos yn glir beth fydd y sail mewn polisi ar gyfer penderfynu ar gynigion ar ddiwedd y broses a sut bydd y cynigion yn

darparu'r manylion angenrheidiol am yr holl faterion perthnasol. Mae wedi'i ystyried yn arfer da ers cryn amser fod awdurdodau cynllunio yn cynnig cyngor cyn ymgeisio i ddarpar ymgeiswyr er mwyn symleiddio'r broses o benderfynu ar geisiadau a gyflwynir ar ôl hynny. Mae'n debygol y bydd trafodaethau a chyngor cyn ymgeisio yn gymorth mawr i ymgeiswyr ac i awdurdodau cynllunio ac mae hyn i'w gymeradwyo'n fawr².

- Bod y cynllun rheoli yn meithrin cyd-ddealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng yr ymgeisydd a'r awdurdod cynllunio, gan ddarparu digon o wybodaeth i roi dealltwriaeth glir o'r datblygiad, fel y mae'r cyfarwyddyd hwn yn egluro. Y cynllun rheoli fydd y contract rhwng yr ymgeisydd am Ddatblygiad Un Blaned a'r awdurdod cynllunio.
- Bod y cynllun rheoli yn nodi bod y cais am ddefnydd tir cyfansawdd – gan greu dealltwriaeth glir o natur gyffredinol y datblygiad.
- Bod y nodweddion carbon isel iawn mewn unrhyw adeiladau a godir o'r newydd (o'u cymharu ag adeiladau confensiynol) yn cael eu dangos drwy ddadansoddiad carbon, yn hytrach na thrwy gyfeirio at y Cod Cartrefi Cynaliadwy. Dylid pwysleisio natur wahanol a chynaliadwy iawn y datblygiadau hyn a'u heffaith fach iawn ar yr amgylchedd, gan gynnwys y dull o'u hadeiladu.
- Bod rhaglen monitro wedi'i chynnwys, ynghyd â strategaeth ymadael glir, rhag ofn na fydd y datblygiad yn sicrhau nodweddion hanfodol y Datblygiad Un Blaned (paragraff 1.9).

1.15 Dylai ymgeiswyr gofio hefyd fod yr angen am gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer adeiladweithiau penodol yn hollol yr un fath ag ar gyfer pob lleoliad arall (gweler paragraffau 3.91 – 3.94).



Annedd Datblygiad Un Blaned sengl (Ourganics)

Mathau o Ddatblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored

1.16 Gall Datblygiadau Un Blaned fod ar nifer o ffurfiau. Gallant fod yn gartrefi

2 Gall rhai awdurdodau cynllunio lleol godi tâl am gyngor cyn ymgeisio

sengl, yn gymunedau cydweithredol neu'n aneddiadau bach ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, mae pum math sylfaenol o Ddatblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored.

Mathau sylfaenol o Ddatblygiad Un Blaned:

Annedd sengl	un aelwyd yn hunangynhaliol
Menter tir	daliad amaethyddol sy'n cynhyrchu pwyslais mawr ar hunangynhaliaeth ac yn delio â marchnadoedd
Grŵp bach o anheddau	grŵp bach o aelwydydd yn seiliedig ar hunangynhaliaeth nifer cyfyngedig o gyfleusterau / gweithgareddau a rennir
Cymuned fach a gynlluniwyd	grŵp bach o aelwydydd yn seiliedig ar hunangynhaliaeth wedi'i threfnu ar sail cyfleusterau / gweithgareddau a rennir arbedion maint a chydweithredu
Ecobentref (cymuned gynlluniedig fwy)	grŵp mwy o aelwydydd pwyslais mawr ar hunangynhaliaeth wedi'i chynllunio ar sail cyfleusterau / gweithgareddau a rennir arbedion maint a chydweithredu preswylwyr mwy amrywiol

1.17 Nid oes rhaid i Ddatblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored fod yn annibynnol – gall fod yn gysylltiedig â phentref. Pan geir datblygiad o'r math hwn, gallant hybu perfformiad ei gilydd o ran cynaliadwyedd.

1.18 Yn y mathau mwyaf o Ddatblygiad Un Blaned, gallai preswylwyr rannu amrywiaeth fwy o weithgareddau yn ôl dyluniad y safle a'r cynllun rheoli ar ei gyfer. Er hynny, mae'n hanfodol bod nifer y meddianwyr yn gymesur â'r hyn y gall y safle ei gynnal a'u bod, gyda'i gilydd, yn parhau i gwrdd â'r gofynion ar gyfer Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored, gan gynnwys y gofyniad am Ôl Troed Ecolegol isel iawn.

1.19 Mae hefyd yn bwysig nodi bod TAN6, ym mharagraff 4.15.2, yn mynnu, lle mae Datblygiadau Un Blaned yn cynnwys aelodau o fwy nag un teulu, y "dylai'r cynnig gael ei reoli gan ymddiriedolaeth, cwmni cydweithredol neu fecanwaith tebyg arall lle y mae gan y meddianwyr fuddiant ynddo".

1.20 Un amrywiad ar Ddatblygiadau Un Blaned yw **rhwydweithiau rhydd**. Ceir rhwydweithiau a threfniadau ar y cyd o bob math ac maent yn amrywiad ar y mathau o Ddatblygiad Un Blaned sydd wedi'u nodi uchod. Gall rhwydweithiau a threfniadau ar y cyd gynnwys pob dim o gylchoedd rhannu offer i rwydweithiau busnes neu fasnachu, fel rhwydwaith ar gyfer prosesu cynhyrchion llaeth. Gallai'r rhain fod yn werthfawr o ran cynhyrchu incwm a gwella marchnata. Ond ym mhob trefniant o'r fath, bydd yn angenrheidiol bod pob Datblygiad Un Blaned yn y rhwydwaith yn cyflawni holl nodweddion hanfodol y Datblygiad Un Blaned ar ei ben ei hun. Bydd angen cynllun rheoli ar gyfer pob un.

Dewis safle

1.21 Oherwydd natur arbennig Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored, ni fydd pob safle'n addas. Pethau penodol i'w hystyried wrth ddewis safle yw:

- A fydd y safle'n gallu diwallu anghenion sylfaenol ei breswylwyr (paragraff 1.11 – 1.12) o ran capasiti cynhyrchu a maint.
- A fydd y rhannau hynny o'r safle a ddefnyddir ar gyfer datblygu preswyl a garddwriaeth wedi'u sgrinio'n effeithiol oddi wrth eu hamgylchoedd neu a fydd yn bosibl eu sgrinio drwy blannu coed a choetiroedd neu drwy ddulliau eraill sy'n nodweddiadol o'r ardal (paragraff 3.47).
- A oes cyfleoedd i warchod a gwella bioamrywiaeth, treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd y safle, gan ychwanegu at ei gyfalaf amgylcheddol (paragraff 3.37).
- A yw'r safle'n ddigon agos i drafnidiaeth gyhoeddus (er enghraifft, gwasanaeth bws lleol) fel y bydd yn bosibl dibynnu llai ar geir preifat?

1.22 Mae'n bosibl na fydd safleoedd sy'n sensitif iawn o ran ecoleg a thirwedd yn addas oherwydd yr effeithiau negyddol annerbyniol a allai godi o weithgareddau mewn Datblygiadau Un Blaned, os na fydd y nodweddion sensitif hyn wedi'u gwarchod a'u hyrwyddo'n ofalus.

2. CYFLWYNO'R CYNLLUN RHEOLI A'R DADANSODDIAD ÔL TROED ECOLEGOL

2.1 Mae'r cyfarwyddyd hwn yn gwahaniaethu'n glir rhwng:

- Y cynllun rheoli sy'n diffinio natur y cynigion am Ddatblygiad Un Blaned ar gyfer safle; a'r
- Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol, sef y dull o asesu Ôl Troed Ecolegol y meddianwyr ar y safle ar y dechrau ac wrth fonitro'r cynllun rheoli'n gyson. Bydd canlyniadau'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol wedi'u cofnodi yn y cynllun rheoli.

Datblygiadau Un Blaned: pwrpas a chynnwys y Cynllun Rheoli


2.2 Y cynllun rheoli sy'n rhoi'r dystiolaeth bod y cynigion yn sicrhau natur eithriadol Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored. Mae'n gwneud hyn drwy:

- Egluro'r amcanion a diffinio'r strategaeth / cynigion dylunio ar gyfer y safle a sut bydd pobl yn byw yno.
- Asesu, ar y cyd â'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol, a yw'r nodweddion hanfodol (paragraff 1.9) a'r meini prawf cymhwyso ar gyfer Datblygiad Un Blaned wedi'u bodloni.
- Nodi cyfnodau'r datblygiad, pryd y dechreuir byw ar y safle, ac a fydd angen llety dros dro ar y dechrau.
- Bod yn sail ar gyfer monitro ac adolygu'r datblygiad yn barhaus i sicrhau ei fod yn parhau i fodloni'r holl feini prawf angenrheidiol ac yn cyflawni ei amcanion gwreiddiol.

2.3 Mae **Ffigur 1** yn dangos cynnwys y cynllun rheoli a **Ffigur 2** yn egluro elfennau unigol y cynllun rheoli'n fwy manwl, gan ddangos eu perthynas â'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol.

2.4 Mae disgrifiad llawn o gynnwys y cynllun rheoli ym **Mhenodau 3, 4 a 5**.

Ffigur 1: Disgrifiad o'r Cynllun Rheoli



Ffigur 2


Elfennau'r Cynllun Rheoli

Ôl Traed Ecolegol

Amcanion Cydrannau Meini Prawf

Dadansoddiad Ôl Traed Domestig + / -

Cynllun Busnes a Gwella



Prif elfennau'r Cynllun Rheoli

2.5 Mae pob un o brif elfennau'r cynllun rheoli wedi'i disgrifio ym Mhennod 3. Ar gyfer pob un o'r elfennau hyn (y celloedd ar y chwith yn **Ffigur 2**), mae angen darparu'r wybodaeth ganlynol yn y cynllun rheoli (Blwch 1).

Cynnwys ar gyfer prif elfennau'r cynllun rheoli

Blwch 1

1. **Amcanion** ar gyfer yr elfen honno.
2. Disgrifiad o'r gwahanol **gydrannau** (gweithgareddau) sy'n ofynnol i gyflawni'r amcanion hyn (y siapiau diemwnt yn Ffigur 2).
3. Sut bydd y **meini prawf cymhwyso** ar gyfer y cydrannau (gweithgareddau) hyn yn cael eu bodloni (paragraff 2.7).
4. Sut bydd yr elfen hon yn y cynllun rheoli'n cael ei **monitro**, gan nodi targedau (beth mae angen ei fonitro) a dangosyddion (sut y caiff y targed ei fonitro h.y. y data y mae angen eu casglu).
5. Y data i'w cynnwys yn y **Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol Domestig** ac i helpu i fonitro'n barhaus (y celloedd *Glas* yn Ffigur 2 a pharagraff 2.9). Dim ond ar gyfer yr elfennau hynny a fydd yn rhan o'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol y bydd angen data, sef: Gweithgarwch ar y Tir, Ynni a Dŵr, Adeiladau, a Thrafnidiaeth. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â phrynu nwyddau traul a phrynu gwasanaethau.
6. Data neu gamau gweithredu eraill sy'n dangos y posibilrwydd o gynnydd (neu ostyngiad) yn yr **Ôl Traed Ecolegol Eraill** o ganlyniad i'r datblygiad ar y safle a / neu yn y gymuned leol ehangach (y celloedd *Porffor* yn Ffigur 2 a pharagraff 2.14).

2.6 Mae pob un o'r uchod yn hanfodol i sicrhau cynllun rheoli llwyddiannus.

Meini prawf cymhwyso Datblygiadau Un Blaned

2.7 Mae Pennod 3 yn nodi'r **meini prawf cymhwyso** ar gyfer pob un o brif elfennau'r cynllun rheoli. Mae dau fath o feini prawf, sef:

- **meini prawf hanfodol** y mae'n rhaid eu bodloni ac sydd gyda'i gilydd yn sicrhau bod nodweddion hanfodol y Datblygiad Un Blaned wedi'u cyflawni (paragraff 1.9);
- meini prawf cyfrannol sy'n rhoi prawf ychwanegol o addasrwydd y Datblygiad Un Blaned.

2.8 Mae'r meini prawf hyn wedi'u gosod er mwyn egluro natur Datblygiadau Un Blaned i ymgeiswyr ac awdurdodau cynllunio ac i osgoi ansicrwydd ynghylch a yw nodweddion allweddol (paragraff 1.9) Datblygiad Un Blaned wedi'u cyflawni.

Datblygiadau Un Blaned: Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol

2.9 Mae'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol yn ddull gweddol ddatblygedig o ddangos a yw gweithgareddau dynol yn gynaliadwy o ran eu heffaith ar gynhwysedd cludo'r blaned. Mae'n ffordd syml o fesur yr effeithiau o weithgareddau un person yn ôl nifer yr 'hectarau byd-eang' y mae eu hangen i'w cynnal, ar sail asesiad o'r *defnydd o adnoddau gan yr aelwyd*.

2.10 Yn 2007 roedd 1.88 o hectarau byd-eang ar gael i bob person ar y ddaear. Yn y byd gorllewinol mae ôl traed personol yn uwch o lawer na'r ffigur hwn. Gan dderbyn bod targed o 1.88 o hectarau byd-eang y person yn eithriadol o anodd ei gyrraedd yn y byd datblygedig, yr ôl troed cychwynnol sydd wedi'i osod yn TAN 6 ar gyfer preswylwyr Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored yw 2.4 hectar byd-eang y person, gyda photensial amlwg i symud tuag at ôl troed o 1.88 hectar byd-eang.

2.11 Mae'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol yn rhoi dangosydd, nid mesur absoliwt. Gwelwyd drwy brofiad fod band sensitifrwydd o +/-15% fel arfer yn y cofnodion data a'r addasiadau sydd i'w hystyried wrth wneud Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol. Felly er ei fod yn faen prawf pwysig iawn wrth asesu Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored ac yn ffon fesur effeithiol ar gyfer byw yn gynaliadwy, nid yw'n fesur absoliwt. Felly nid yw ond yn un o nifer o feini prawf sydd i'w hystyried wrth asesu Datblygiadau Un Blaned (gweler hefyd baragraffau 4.17 – 4.21 a pharagraff 4.25).

2.12 Dylai'r Datganiad Ôl Troed Ecolegol roi canlyniadau sy'n dangos yr ôl troed ecolegol y pen ar gyfer pob aelwyd mewn Datblygiad Un Blaned a'r ôl troed ecolegol cyfartalog y pen ar gyfer y datblygiad cyfan (os oes mwy nag un aelwyd) (paragraff 4.12).

2.13 **Amseru:** Yn unol â gofynion cyffredinol TAN 6 (paragraff 1.9) y gofynion ar gyfer y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol yw (a) bod cynigion y cais yn dangos y bydd ôl troed ecolegol y preswylwyr yn nesáu at 2.4 hectar byd-eang y pen ar adeg meddiannu'r safle am y tro cyntaf a bod gallu amlwg i gyrraedd 2.4 hectar byd-eang y pen erbyn y bumed flwyddyn ar ôl dechrau ei feddiannu; (b) bod yr ôl troed ecolegol yn 2.4 hectar byd-eang y pen erbyn y bumed flwyddyn; ac (c) bod ôl troed ecolegol y datblygiad yn llai na 2.4 hectar byd-eang³ ar ôl hynny (paragraff 4.14).

Ôl traed eraill – Busnesau Datblygiad Un Blaned a'r gymuned ehangach

2.14 Dim ond y defnydd o nwyddau a gwasanaethau gan *breswylwyr* sy'n cael ei fesur yn y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol. **Nid** yw'n ystyried: (a) ôl troed ecolegol gweithgareddau busnes preswylwyr y Datblygiad Un Blaned (ar y safle a'r tu allan) a allai gynnwys cydran teithio; (b) ôl troed ecolegol gwirfoddolwyr ac ymwelwyr â'r safle; nac (c) yr effeithiau posibl o Ddatblygiadau Un Blaned ar ôl

³ Mae'r targed terfynol o 1.88 hectar byd-eang y pen yn anodd iawn ei gyrraedd ar hyn o bryd gan Ddatblygiadau Un Blaned (neu unrhyw fath arall o ddatblygiad) heb gael newidiadau mawr mewn cymdeithas yng Nghymru ac yn economi Cymru. Mae'r gallu i fynd yn is na 2.4 hectar byd-eang ymhen amser yn fwy ymarferol, am y tro, na chyrraedd 1.88 hectar byd-eang

traed y gymuned ehangach. Gallai (a) a (b) gael effaith negyddol ar yr ôl traed ecolegol i gyd (e.e. drwy gynyddu'r defnydd o danwydd ffosil gan fusnes preswlydd y Datblygiad Un Blaned) tra gallai (c) gael effaith gadarnhaol ar yr ôl traed ecolegol i gyd (e.e. drwy leihau milltiroedd bwyd y gymuned a lleihau defnydd y gymuned o ynni nad yw'n adnewyddadwy – dau ffactor sy'n effeithio ar ôl traed ecolegol).

Ôl traed eraill

Blwch 2

Gall Datblygiadau Un Blaned effeithio mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol ar ôl traed ecolegol pobl eraill.

Ymhlith yr effeithiau cadarnhaol posibl y mae cyflenwi bwydydd isel eu mewnbwn fel ffrwythau a llysiau, cigoedd, pysgod, wyau a chynnyrch llaeth i gymunedau lleol, a chyflenwi coed i fod yn danwydd ac yn ddeunydd adeiladu. Mae trydan adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu ar y safle a'i allforio i'r grid yn gallu dod â manteision ehangach.

Rhai o'r effeithiau negyddol posibl yw'r rheini o fusnesau y tu allan i'r safle ac oddi wrth ymwelwyr, gan gynnwys teithio a'r defnydd o ynni a deunyddiau. (Er hynny, gallai busnesau gael effeithiau cadarnhaol hefyd fel y rhai uchod.)

2.15 Ni ellir asesu'r effeithiau hyn ar ôl traed eraill yn yr un ffordd ag ôl traed preswylwyr gan nad oes dull profedig o wneud hyn. Er hynny, gan ei bod yn bosibl bod yr effeithiau hyn yn arwyddocaol, dylid eu hystyried wrth asesu'r cynigion, hyd yn oed os na ellir eu mesur yn union. Byddant yn ystyriaeth berthnasol i awdurdodau cynllunio wrth benderfynu ar y cais cynllunio (paragraff 4.25).

2.16 Hefyd dylid nodi unrhyw gynigion i ddal a storio mwy o garbon ar y safle, er bod hyn y tu allan i gwmpas y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol hefyd.

Sut i ddefnyddio'r cyfarwyddyd hwn

Ymgeiswyr sy'n paratoi cynllun rheoli Datblygiad Un Blaned

2.17 Drwy ddilyn yr adrannau sy'n rhoi cyfarwyddyd ym Mhenodau 3 - 5, bydd darpar ymgeiswyr am Ddatblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored (neu eu cynghorwyr) yn gallu:

- Paratoi cynllun rheoli sy'n diffinio ac yn llywio'r datblygiad.
- Dangos a yw eu cynigion yn sicrhau nodweddion hanfodol (paragraff 1.9) Datblygiad Un Blaned h.y. yn bodloni'r holl feini prawf cymhwyso sy'n ofynnol (paragraff 2.7).
- Darparu'r holl ddata sy'n angenrheidiol ar gyfer y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol a'r asesiad o 'ôl traed eraill'.
- Cofnodi canlyniadau'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol a'r effeithiau ar 'ôl traed eraill' (Pennod 4).

2.18 Anogir ymgeiswyr i ddilyn y canllawiau yn y cyfarwyddyd hwn wrth lunio eu cynlluniau rheoli, ac i roi pa bynnag wybodaeth ychwanegol sy'n angenrheidiol gyda'u ceisiadau i egluro eu cynigion yn llawn. Drwy wneud hyn, bydd y broses o asesu ceisiadau'n symlach, a bydd yn haws adnabod Datblygiadau Un Blaned dilyn.

Asesu ceisiadau am Ddatblygiad Un Blaned

2.19 Drwy drefnu cynnwys y cynllun rheoli yn y ffordd sydd wedi'i hargymell, bydd yr awdurdod cynllunio yn cael disgrifiad clir o'r cynigion, a chyfiawnhad drostynt, fel y gall benderfynu a ddylai'r cais cynllunio gael ei gymeradwyo. Yr elfennau critigol yn y penderfyniad hwn fydd:

- Cymeriad cyffredinol y datblygiad, gan ystyried natur bresennol y safle ac amcanion yr ymgeisydd ar gyfer y safle.
- A yw'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer Datblygiad Un Blaned wedi'u bodloni a pha brawf ychwanegol o nodweddion Datblygiad Un Blaned sydd wedi'i ddangos dan y meini prawf cyfrannol (paragraff 2.7). Gall datblygiad fodloni'r meini prawf hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd ac, os ydynt yn neilltuo o gryf o ran perfformiad, fforddiadwyedd, arloesedd, neu fanteision ehangach, fe ddylid ystyried hyn.
- A yw'r cynigion yn bodloni prawf y Dadansoddiad Ôl Troed Ecollegol ar gyfer Datblygiad Un Blaned. Bydd y data a nodir wrth lunio'r cynllun rheoli yn ffurfio'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecollegol, ac felly'n rhoi ffigur terfynol y Dadansoddiad Ôl Troed Ecollegol sy'n brawf canolog ar addasrwydd Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored.
- Effaith y cynigion ar 'ôl traed eraill' gan gynnwys ôl traed busnesau Datblygiad Un Blaned a'r gymuned ehangach.
- Rhaglen fanwl ar gyfer cyflawni'r cynllun rheoli yn ystod y pum mlynedd nesaf.
- Rhaglen eglur i fonitro'r graddau y mae'r amcanion ar gyfer y safle'n cael eu cyflawni.

2.20 Bydd cynllun rheoli da yn llawn gwybodaeth am bob un o'r pwyntiau hyn. Yn gyffredinol, dylai Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored gyflawni nodweddion hanfodol Datblygiad Un Blaned (paragraff 1.9) mewn ffyrdd sy'n fanteisiol i Gymru wledig. Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ar sail y meini prawf hanfodol sy'n pennu a yw'r datblygiad arfaethedig yn Ddatblygiad Un Blaned. Gall y meini prawf cyfrannol roi tystiolaeth ychwanegol o blaid y cynnig am Ddatblygiad Un Blaned.

Rheoli a monitro ceisiadau llwyddiannus

2.21 Os caiff cynnig ei gymeradwyo, mae'n bwysig ei fonitro a'i reoli'n briodol dros amser. Dylid cynnwys mesurau yn y cynllun rheoli ar gyfer monitro a darpariaethau ar gyfer yr hyn a fydd yn digwydd os aiff pethau o chwith – rheolaeth. Mae'r dull priodol o fonitro pob elfen yn y cynllun rheoli wedi'i nodi ym

Mhennod 3. Os nad yw'r cynllun rheoli yn rhoi sylw digonol i fesurau monitro a rheoli bydd yn ddiffygiol ac ni fydd y gofynion ar gyfer Datblygiad Un Blaned wedi'u bodloni. Mae dau fecanwaith ar gael i awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau monitro a rheoli priodol ar Ddatblygiadau Un Blaned sydd wedi'u cymeradwyo – amodau cynllunio neu gytundebau cyfreithiol. Caiff y rhain eu rhoi mewn grym pan roddir y caniatâd cynllunio. Dylid defnyddio amodau cynllunio neu gytundebau cyfreithiol (h.y. cytundebau adran 106) i glymu'r gofyniad am gyflawni'r cynllun rheoli wrth y caniatâd cynllunio. Dylai cytundebau adran 106 gael eu defnyddio i glymu anheddau wrth y tir, gan sicrhau na chaiff tir ei wahanu oddi wrth y datblygiad yn ddiweddarach. Mae hyn yn bwysig oherwydd os caiff yr annedd ei gwahanu oddi wrth y tir, fe gollir y cyfiawnhad dros y Datblygiad Un Blaned cyfan.

Y cynllun rheoli cyntaf a rhai dilynol

Y cynllun rheoli cyntaf

2.22 Pwrpas y cynllun rheoli cyntaf ar gyfer y safle (a gyflwynir gyda'r cais cynllunio) yw disgrifio cyflwr presennol y safle, y strategaeth / dyluniad arfaethedig ar gyfer y safle a'r ffordd o'i weithredu (sydd wedi'i hamlinellu ym mharagraff 2.2 a'i hegluro ym Mhenodau 3, 4 a 5 yn y cyfarwyddyd hwn).

Cynlluniau rheoli dilynol (i'w hadolygu unwaith bob pum mlynedd)

2.23 Bydd yr adolygiad o'r cynllun rheoli ar ôl pum mlynedd yn gyfle i ddiweddarau'r cynllun rheoli, gan ymateb i ganlyniadau monitro a newidiadau posibl mewn amgylchiadau.

2.24 Yr un fydd fframwaith y cynlluniau rheoli dilynol ond bydd pwyslais gwahanol ynddynt ar y canlynol:

- Yn gyntaf, cofnodi beth sydd wedi'i gyflawni yn y pum mlynedd blaenorol, diweddarau'r asesiad o'r safle (h.y. beth sydd ar y safle ar ôl pum mlynedd) a chofnodi i ba raddau y mae'r amcanion a thargedau a bennwyd yn y cynllun rheoli cyntaf ar gyfer elfennau unigol y cynllun wedi'u cyflawni h.y. dangos canlyniadau'r broses monitro yn glir.
- Yn ail, edrych ymlaen a disgrifio'r strategaeth ar gyfer y safle yn y pum mlynedd nesaf. Bydd yn nodi'r gweithgareddau ar gyfer pob elfen yn y cynllun, gan ddilyn yr un fformat ag sydd ym Mhennod 3 yn y cyfarwyddyd hwn. Gallai'r rhain fod yn weithgareddau sydd wedi'u hymestyn o'r cynllun diwethaf, yn gamau gweithredu i unioni diffygion sydd wedi'u nodi, ac yn fentrau newydd. Yma eto, bydd y pwyslais o hyd ar fodloni'r meini prawf cymhwyso a chynnal rhaglen monitro barhaus. Unwaith eto dylid cyflwyno rhaglen gyda'r cynllun sy'n dangos sut y caiff gweithgareddau eu cyflawni fesul cyfnod.

2.25 Mae mwy o fanylion am fonitro a chynlluniau gweithredu dilynol ym Mhennod 5.

3. ELFENNAU UNIGOL Y CYNLLUN RHEOLI

3.1 Mae'r Bennod hon yn trafod gwahanol elfennau'r cynllun rheoli yn eu trefn, gan ddechrau â'r Crynodeb, y Llinell Sylfaen, a'r Dyluniad / Strategaeth, a symud ymlaen wedyn at brif elfennau'r cynllun rheoli.

Crynodeb

3.2 Y rhan hon o'r cynllun rheoli a gaiff ei hysgrifennu ddiwethaf ond dylid ei rhoi ar y dechrau. **Bydd yn rhoi trosolwg ar fwriadau'r cynllun rheoli ar gyfer y safle, a chrynodeb o gynnwys y cynllun rheoli.**

Llinell sylfaen

3.3 Mae angen disgrifio'r holl gynigion yng nghyd-destun lleoliad a chyflwr presennol y safle (cyn rhoi'r cynigion ar waith). Dylid cynnwys y canlynol yn y disgrifiad llinell sylfaen o'r safle:

- Lleoliad
- Arwynebedd a siâp
- Ffiniau (beth sy'n diffinio gwahanol ffiniau'r safle)
- Cyd-destun / y mathau o ddefnydd o dir cyfagos
- Deiliadaeth (perchen-feddiannydd / trefniadau lesio)
- Gwasanaethau presennol ar y safle
- Trefniadau mynediad y safle (mewn cerbydau ac ar droed).

3.4 Dylai ddisgrifio'r agweddau canlynol:

- *Ffisegol*: Daeareg, topograffi a phriddoedd (gan gynnwys dosbarthiadau tir amaethyddol).
- *Bioamrywiaeth*: Disgrifiad cyffredinol o'r cynefinoedd, yn enwedig cynefinoedd sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a chofnodion o blanhigion ac anifeiliaid (rhywogaethau) pwysig a'u hamlder ar y safle ac yn y cylch cyfagos, yn enwedig y rhai sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (gofynnwch am gyngor gan y Ganolfan Cofnodion Biolegol Lleol a'r Ymddiriedolaeth Natur leol).
- *Treftadaeth Ddiwylliannol*: Unrhyw safleoedd o bwysigrwydd diwylliannol sy'n hysbys gan gynnwys safleoedd archeolegol claddedig, gwrthgloddiau ac adfeilion, a hanes byw, fel gwrychoedd neu berthi sy'n dangos ffiniau hanesyddol pwysig ar y safle ac yn y cylch cyfagos.
- Adeiladau ac adeiladweithiau sydd ar y safle, eu dyddiadau bras (os ydynt yn hysbys) a'u prif ddeunyddiau adeiladu.
- *Tirwedd*: Nodweddion tirwedd y safle a'r cylch cyfagos (fel perthi a gwrychoedd, prysgwydd, coetir a lleiniau cysgodi), a golygfeydd allweddol o'r safle o lecynnau manteisiol cyhoeddus (ffyrdd, lonydd a hawliau tramwy).

- Defnydd blaenorol o'r tir (os yw'n hysbys).
- Defnydd presennol o'r tir (o bob cae, os oes mwy nag un).
- Dynodiadau statudol ar y safle ac yn y cylch cyfagos:
 - Bioamrywiaeth – Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)⁴ ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)⁵ sydd ill dwy o bwysigrwydd rhyngwladol ac wedi'u dynodi gan CCGC; Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) sydd hefyd wedi'u dynodi gan CCGC oherwydd eu pwysigrwydd cenedlaethol ar gyfer gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau (bydd pob ACA ac AGA hefyd yn SoDdGA); a Safleoedd Bywyd Gwyllt anstatudol sydd wedi'u pennu gan yr Ymddiriedolaeth Natur / Awdurdod Lleol;
 - Treftadaeth Ddiwylliannol – Henebion Rhestredig, Adeiladau Rhestredig, Parciau a Gerddi Cofrestredig, Meysydd Brwydr Cofrestredig a fydd wedi'u pennu ym mhob achos gan Cadw ac Ardaloedd Cadwraeth a fydd wedi'u pennu gan yr Awdurdod Lleol.
- Nodweddion tirwedd y safle a'r cylch cyfagos (fel perthi a gwrychoedd, prysgwydd, coetir a lleiniau cysgodi).
- Y drafnidiaeth sy'n cael ei chreu gan y safle ar hyn o bryd a'i gysylltiadau trafnidiaeth.

3.5 Y ffordd orau o ddangos lleoliad a maint pob un o'r uchod yw eu hanodi ar un neu ragor o fapiau. Gorau oll os gellir cynnwys ffotograffau o'r nodweddion sydd wedi'u disgrifio.

3.6 Y ffynhonnell wybodaeth orau yn y lle cyntaf fydd LANDMAP sydd wedi'i baratoi bellach ar gyfer bron pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru:

- Mae gwybodaeth am fioamrywiaeth yn yr haen Cynefinoedd Tirwedd yn LANDMAP. Os ydych yn credu bod rhywbeth a allai fod o ddiddordeb, bydd yn werth cysylltu â'r Ymddiriedolaeth Natur leol <http://www.wildlifetrustswales.org/english/localtrust.htm> ac edrych ar y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.
- Bydd gwybodaeth am safleoedd o ddiddordeb diwylliannol yn yr haen Tirwedd Hanesyddol yn LANDMAP. Yn ogystal â hyn, os ydych yn credu bod rhywbeth a allai fod o ddiddordeb, bydd yn werth cysylltu ag archeolegydd yr awdurdod lleol ac edrych ar y Cofnod o Safleoedd a Henebion.

3.7 Mae hefyd yn bwysig deall tirwedd yr ardal a'r safle, gan nodi:

- A yw'r safle o fewn Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Eithriadol neu

⁴ Mae ACA wedi'u dynodi dan Erthygl 3 o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd Ewropeaidd er mwyn gwarchod mathau o gynefinoedd a rhywogaethau sydd wedi'u rhestru yn Atodiadau 1 a II i'r Gyfarwydddeb fel y mae wedi'i diwygio.

⁵ Mae AGA wedi'u dosbarthu'n unol ag Erthygl 4 o Gyfarwydddeb Adar y CE er mwyn gwarchod adar prin ac adar sy'n agored i niwed.

Arfordir Treftadaeth.

- Cymeriad y dirwedd leol o gwmpas y safle. Bydd disgrifiad o'r dirwedd ehangach yn yr haen Gweledol a Synhwyrdd yn LANDMAP.
- Sut y gwelir y safle o ardaloedd o'i gwmpas – a yw'n amlwg mewn golygfeydd o lecynnau manteisiol cyhoeddus e.e. ffyrdd a hawliau tramwy neu a yw wedi'i guddio gan goetir a / neu dirffurfiau?
- Tirwedd y safle ei hun – a yw'n nodweddiadol o'r dirwedd o'i gwmpas neu, os yw'n wahanol, ym mha ffordd?

3.8 Dylid cyfeirio at nodweddion sy'n bwysig o ran tirwedd, cynefinoedd a diwylliant sy'n agos i'r safle er mwyn egluro perthynas y safle â'r cyd-destun ehangach a sut y gall gyfrannu at gyflawni amcanion mwy cyffredinol, fel gwella coridorau bywyd gwyllt.

Dyluniad / Strategaeth

3.9 Gall y Dyluniad neu Strategaeth fod yn ddogfen weithio ddefnyddiol i ymgeisydd am Ddatblygiad Un Blaned lle y gall roi crynodeb o'r cynnig a sut bydd yn 'gweithio'. Ynddo gellir disgrifio fframwaith cyffredinol y cynllun rheoli a fydd yn cael ei gwblhau wedyn yn y gwahanol adrannau, fel y mae gweddill y Bennod hon a Phenodau 4 a 5 yn egluro.

3.10 Yn y rhan ragarweiniol hon o'r cynllun rheoli, dylid cyfleu darlun o'r cynigion cyffredinol ar gyfer y safle, eu nodweddion a'u priodoleddau hanfodol, yng nghyd-destun y disgrifiad o gymeriad / cyflwr llinell sylfaen y safle. Dyma'r cyfle i roi disgrifiad eglur a chryno o'r amcanion ar gyfer y safle a'i bosibiliadau. Fel arfer bydd angen cynnwys uwchgynllun (wedi'i ddylunio) i roi crynodeb o'r Dyluniad / Strategaeth.

3.11 Mae'r dull permaddiwylliant a dulliau eraill yn rhoi pwys ar yr angen am ddyluniad er mwyn (a) asesu'r safle (a hynny'n cynnwys pennu llinell sylfaen); (b) pennu'r egwyddorion ac ystyriaethau moesegol ar gyfer datblygu a defnyddio'r safle; (c) dangos sut y gellid llywio a monitro hyn fel bod modd gwella'r dyluniad neu strategaeth yn barhaus. Mae permaddiwylliant, yn benodol, wedi'i gysylltu ers amser hir â datblygu sy'n debygol o fodloni'r gofynion ar gyfer Datblygiad Un Blaned oherwydd ei natur gyfannol.

3.12 Yn y Dyluniad / Strategaeth dylid disgrifio:

- Dosbarthiad cyffredinol y gweithgareddau a mathau o ddefnydd tir ar y safle a'r cysylltiadau a'r berthynas rhyngddynt.
- Nifer yr aelwydydd ar y safle, gallu'r safle i'w cynnal, a'r angen iddynt weithio'r tir neu gyfrannu fel arall at redeg y safle.
- Y mecanweithiau ar gyfer rheoli'r safle'n gyffredinol – y gweithgareddau a chyfrifoldeb y preswylwyr amdanynt.

- Y mecanwaith sy'n rhoi buddiant i feddianwyr yn y tir os yw'r datblygiad yn cynnwys aelodau o fwy nag un teulu (paragraff 1.19).
- Rhaglen amlinellol ar gyfer datblygu'r safle. Gan fod hon yn agwedd bwysig, bydd wedi'i chynnwys hefyd mewn adran ar wahân ar ddiwedd y cynllun.

3.13 Bydd pob un o'r materion hyn yn cael ei drafod ymhellach yng ngweddill y cynllun rheoli.

PRIF ELFENNAU'R CYNLLUN RHEOLI

3.14 Mae'r cynllun rheoli yn symud ymlaen wedyn at y prif elfennau sydd wedi'u nodi yn TAN 6 a'u dangos yn **Ffigur 2**.

Cynllun Busnes a Gwella


3.15 Bydd hwn yn cynnwys nifer o elfennau:

- Gweithgarwch ar y Tir
- Rheoli Tir
- Ynni a Dŵr
- Trin Gwastraff

Mae pob un o'r rhain wedi'u trafod ar wahân isod.

3.16 Y Cynllun Busnes a Gwella yw craidd y Cynllun Rheoli cyfan. Mae'n disgrifio'r system integredig a fydd yn cynnwys pobl a thir er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Felly mae'n rhoi'r cyfiawnhad sylfaenol dros y datblygiad. Dylai ddisgrifio sut bydd pobl sy'n byw ar y safle yn gallu lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd drwy ddiwallu eu hanghenion pob dydd o adnoddau'r safle, gan wella cyfalaf amgylcheddol y safle yr un pryd drwy eu gweithgareddau. Perthynas symbiotig yw hon, a welir mewn dulliau rheoli fel permaddiwylliant a dulliau tebyg. Felly rhaid dangos bod perthynas swyddogaethol rhwng pobl a thir o fewn system ehangach ar gyfer rheoli'r safle cyfan.

Gweithgarwch ar y Tir



Gofynion TAN 6

- Bod gweithgareddau defnydd tir ar y safle yn gallu darparu'n uniongyrchol ar gyfer anghenion sylfaenol y meddianwyr o ran incwm a bwyd o fewn pum mlynedd. Dylai'r Cynllun Rheoli fesur sut y gellir diwallu'r anghenion sylfaenol hyn yn uniongyrchol o'r safle [4.15.2, 4.16.1, 4.17.1].
- Bod cyfiawnhad dros yr angen i fyw ar y safle a bod perthynas glir rhwng nifer y meddianwyr ac (a) gallu'r safle i'w cynnal; (b) y gallu i redeg y fenter yn esmwyth; (c) yr elw a geir [4.16.1, 4.17.1].
- Bod y safle'n unig gartref y meddianwyr [4.17.1].

Amcanion

3.17 Mae angen cydnabod mewn amcanion ar gyfer Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored fod rhaid i gynigion fod yn seiliedig ar dir, gan ddarparu ar gyfer holl anghenion sylfaenol y preswylwyr am fwyd, a darparu incwm sy'n ddigon i fodloni eu hanghenion domestig sylfaenol, o fewn pum mlynedd ar ôl dechrau byw ar y safle.

3.18 Rhaid i'r bwyd ac incwm ddeillio o adnoddau tir y safle. Dyma'r sail i'r angen i fyw ar y safle a'r rheswm bod y safle'n unig gartref y meddianwyr. Hyn hefyd yw'r rheswm dros y berthynas uniongyrchol rhwng nifer y meddianwyr ar y safle a gallu'r safle i gwrdd â'u hanghenion sylfaenol o ran bwyd ac incwm, a'r angen hefyd i ystyried nifer y bobl y mae eu hangen i redeg y safle'n effeithiol.

3.19 Mae'n ddealliedig, felly, y bydd y meddianwyr yn cael incwm gweddol dda o weithgareddau ar y tir ar y safle sy'n ddigon i gwrdd ag anghenion sylfaenol holl feddianwyr y safle o ran incwm a bwyd. Gall gweithgareddau ar y tir fod yn unrhyw fath o weithgarwch i dyfu a / neu fagu cynnyrch ar y safle (gan gynnwys prosesu'r cynnyrch hwnnw). Yn benodol, ni fydd incwm i gwrdd ag anghenion sylfaenol y meddianwyr o ran incwm yn cynnwys incwm arall a gafwyd o'r safle neu o fannau eraill sydd heb berthynas â gweithgareddau ar y tir, nac unrhyw incwm sydd heb ei ennill.

3.20 Os oes mwy nag un aelwyd ar y safle, bydd y cynnyrch sydd wedi'i dyfu a'i fagu ar y safle yn ddigon i gwrdd ag anghenion sylfaenol holl feddianwyr y safle o ran bwyd ac incwm.

3.21 Rhaid i'r cynnyrch a gaiff ei dyfu a'i fagu ar y safle (sy'n cwrdd ag anghenion y meddianwyr o ran bwyd ac incwm) fod yn ganlyniad i lafur meddianwyr y safle ac nid gweithwyr cyflogedig.

Permaddiwylliant

Blwch 3

Mae permaddiwylliant yn ddull o ddylunio systemau integredig ar gyfer amaethyddiaeth, ynni, gwastraff a chymdeithas drwy ddynwared ecosystemau naturiol fel bod perthnasoedd amrywiol rhwng rhywogaethau'n creu manteision lluosog a chynefinoedd cydnerth, sefydlog a chynhyrchiol sy'n cynnal preswylfeydd.

Mae'r gair 'permaddiwylliant' wedi'i fathu drwy gyfuno 'perma' (parhaol) a 'diwylliant'. Un o egwyddorion sylfaenol permaddiwylliant yw y dylid cwrdd ag anghenion pobl o fewn cynhwysedd cludo systemau naturiol, ac y dylid cyflawni hyn yn lleol, ar raddfa gymharol fach.

Wrth ddefnyddio'r dull permaddiwylliant, edrychir ar y safle'n gyntaf ac wedyn creir dyluniadau ar ei gyfer sy'n gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau adnewyddadwy a'i gynhyrchiant. Mae'n lleihau gwastraff ac yn mwyhau cylchoedd adnoddau ac amrywiaeth. Yn y bôn, mae'r safle'n cael ei weld yn system integredig yn hytrach na set o weithgareddau ar wahân.

Drwy weithredu fel hyn, bydd permaddiwylliant wedi'i seilio ar safle penodol ac yn canolbwyntio ar effeithiau bach ar yr amgylchedd. Dyma pam y mae'n cael ei gysylltu'n aml â Datblygu Bach ei Effaith a Datblygiadau Un Blaned, am ei fod yn ffordd dda o gyflawni eu hamcanion.

Cydrannau

3.22 Ym mhob cynllun rheoli ar gyfer Datblygiad Un Blaned dylid disgrifio a mesur sut bydd y safle'n diwallu'r anghenion sylfaenol o ran bwyd ac incwm mewn ffyrdd sy'n addas i'r safle dan sylw a'r cynigion ar gyfer Datblygiad Un Blaned. Mae'r gofynion hyn yn pwysleisio ethos sylfaenol Datblygiadau Un Blaned o ran cynhaliaeth a gweithgareddau ar y tir ond nid ydynt yn atal preswylwyr rhag ennill incwm arall. Bydd unrhyw effeithiau anghynaliadwy o'u ffordd o fyw gyfan sy'n ganlyniad i'r ffaith bod ganddynt incwm arall yn cael eu pennu drwy'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol.

Cynhaliaeth – bwyd

3.23 Un o'r ffyrdd mwyaf amlwg y gall gweithgareddau ar y tir gynnal preswylwyr y safle yw drwy ddarparu bwyd iddynt. Mae hyn yn lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd yn sylweddol gan nad oes rhaid cynhyrchu eu bwyd mewn lle arall, na'i bacio a'i gludo.

3.24 Nid yw'n bosibl cwrdd â holl anghenion y meddianwyr o ran bwyd drwy gynhyrchu ar y safle. Mae dau reswm am hyn: (a) mae'n anodd cynhyrchu a phrosesu'r holl fathau o fwyd sydd eu hangen mewn deiet iach ar un safle yng Nghymru, yn enwedig grawnfwydydd; (b) bydd cyfnodau yn ystod y flwyddyn pan fydd lefel y bwyd a gynhyrchir yn rhy isel i gwrdd â holl anghenion y meddianwyr. Yn ymarferol, dylai safle Datblygiad Un Blaned allu cynhyrchu digon i ddiwallu o **leiaf 65% o'r anghenion sylfaenol am fwyd.**

3.25 Y disgwyliad, felly, yn achos Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored, yw y bydd un ai:

- 65% o'r hyn sy'n angenrheidiol i gwrdd ag anghenion holl feddianwyr y safle o ran bwyd yn cael ei dyfu a/neu ei fagu ar y safle; neu
- Y bydd o leiaf 30% o'r hyn sy'n angenrheidiol i gwrdd ag anghenion yr holl feddianwyr o ran bwyd yn cael ei dyfu a/neu ei fagu ar y safle, ac y bydd y 35% o'r anghenion bwyd sy'n weddill yn cael eu diwallu drwy brynu neu gyfnewid gan ddefnyddio'r incwm neu gynnyrch dros ben o gynnyrch arall sydd wedi'i dyfu a/neu ei fagu ar y safle (er enghraifft, biomas neu goed neu gynnyrch dros ben).

3.26 Mae'r pwyslais mawr hwn ar dyfu / magu cynnyrch ar y safle yn dangos pam mor hanfodol yw cynhaliaeth a gweithgareddau ar y tir i natur Datblygiadau Un Blaned. Os prynir bwyd ag incwm a gafwyd o gynhyrchu ar y safle, bydd y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol yn gwrthbwysu'r effaith. Y rheswm am hyn yw bod yr holl fwyd a brynir yn cyfrannu at Ôl Troed Ecolegol meddianwyr y safle.

Menter – incwm

3.27 Hyd yn oed os yw safle'n gallu diwallu'r rhan fwyaf o anghenion sylfaenol y meddianwyr o ran bwyd, bydd rhai anghenion sylfaenol na all y safle eu diwallu a bydd angen incwm ariannol i'w prynu. Yr anghenion sylfaenol hyn yw:

- dillad
- teithio
- TG / cyfathrebu
- Y Dreth Gyngor
- y 35% (neu lai) o'r anghenion bwyd sy'n weddill na ellir eu diwallu o'r cynnyrch a gaiff ei dyfu/magu ar y safle neu drwy gyfnewid (paragraff 3.25)

3.28 Dylai Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored fod yn rhan o wead cymdeithasol ac economaidd cefn gwlad Cymru – heb fod yn rhy ynysig na mewnblyg. Mae angen i safleoedd ddarparu digon o incwm i'w meddianwyr i gwrdd â'u hanghenion sylfaenol o ran incwm drwy werthu cynnyrch o'r safle (a gallai hyn gynnwys prosesu ac ychwanegu gwerth). Gallai gynnwys ffrydiau incwm eraill hefyd sy'n deillio o natur gynhyrchiol ac atgynhyrchiol y safle, fel cyrsiau addysg a hyfforddiant, neu wasanaethau cynghori sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau ar y tir ar y safle. **Er hynny, dylai fod yn glir bod y gweithgareddau olaf hyn yn ategol i'r prif weithgarwch o dyfu a magu cynnyrch.** Mae hyn yn golygu ei bod bron yn sicr y bydd angen cynnyrch dros ben ar y safle i gyfrannu at y gwariant uchod ac i sicrhau bod ffrydiau incwm eraill a greir ar y safle'n rhai ategol.

3.29 Dylid cynnwys mantolen syml yn y cynllun rheoli ar adeg cyflwyno'r cais cynllunio i ddangos sut bydd y safle'n cynhyrchu digon o incwm i gwrdd ag anghenion sylfaenol yr holl feddianwyr o ran incwm. Bydd y fantolen wedi'i seilio

ar ragolygon o'r incwm disgwylidig o werthu cynnyrch y safle. Ar ôl sefydlu'r Datblygiad Un Blaned, dylid gwerthuso hyn drwy baratoi set o gyfrifon syml sy'n rhestru anghenion sylfaenol y meddianwyr o ran incwm ac yn eu gosod yn erbyn incwm a geir o weithgareddau ar y tir ar y safle.

Prosesu ac Ychwanegu Gwerth

Blwch 4

Rhai enghreifftiau o brosesu ar y safle yw coginio bwydydd, gwneud jamiau a phiclau, gwneud caws a chynnyrch llaeth arall, halltu cig, gwneud basgedi a chynhyrchu thecstilau. Mae prosesu ar y safle'n gallu cynnig manteision sylweddol. Gall feithrin sgiliau a rhoi mwy o elw o gynnyrch a werthir. Os gwerthir cynnyrch i'r gymuned leol, gall hynny helpu i leihau ei hól troed ecolegol drwy leihau milltiroedd bwyd a thrwy ddefnyddio dulliau cynhyrchu carbon isel â llaw (cynhyrchu gan grefftwyr) yn lle dulliau cynhyrchu wedi'u hawtomeiddio, gan wella perfformiad cyffredinol y datblygiad o ran yr amgylchedd.

Gall mentrau o'r fath greu manteision i bob ochr a symbiosis am fod y mentrau ar raddfa fach. Mae mwy o ddewis o ffrydiau referniw posibl ar gael drwy brosesu ar y safle ar ddaliad bach lle mae defnydd cymysg. Mae nifer o gynhyrchion ategol, neu gynhyrchion gwastraff, y gellir eu defnyddio fel deunyddiau crai mewn mentrau eraill ar y safle. Rhai enghreifftiau yw cynnyrch i wneud jamiau a phiclau neu ddiodydd alcoholaidd, cynhwysion i wneud sebon, a chynhyrchu coed tân a choedlannau masnachol bach.



Mae Five-Penny Farm yn ganolfan lle y gall tyfwyr brosesu eu cynnyrch a threfnu i'w gludo i'r farchnad

Meddianwyr

3.30 Y gallu sydd gan Ddatblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored i ddarparu ar gyfer anghenion sylfaenol eu meddianwyr o ran bwyd ac incwm yw'r prif gyfiawnhad dros ddatblygiadau o'r fath, yng nghyd-destun cynllunio. Dyma'r prif ffactor sy'n cyfrannu at lefel cynaliadwyedd uchel y datblygiadau hyn hefyd – mewn lleoliadau lle na fyddai'n bosibl byw'n gynaliadwy iawn fel arall. Felly mae'n hanfodol bwysig bod perthynas uniongyrchol rhwng nifer y meddianwyr a gallu'r safle i'w cynnal a nifer y bobl y mae eu hangen i redeg y safle'n effeithiol. Os yw'r ddau rif hyn yn anghymharus, a bod nifer y bobl y mae eu hangen i weithio'r tir a rhedeg y safle'n effeithiol yn fwy na'r nifer y gall y safle ei gynnal, ni all y cynigion gwrdd â'r gofynion ar gyfer Datblygiad Un Blaned.

Meini prawf hanfodol

3.31 Y meini prawf hanfodol yw:

- Bod anghenion sylfaenol yr holl aelwydydd o ran bwyd yn cael eu diwallu gan gynnyrch sydd wedi'i dyfu a / neu ei fagu ar y safle neu wedi'i brynu ag incwm o gynhyrchion eraill sydd wedi'u tafu a'u magu ar y safle.

- Bod anghenion domestig sylfaenol yr holl aelwydydd yn cael eu diwallu o incwm a gafwyd o gynnyrch sydd wedi'i dyfu a'i fagu ar y safle, gan gynnwys prosesu ac ychwanegu gwerth, a ffrydiau incwm eraill sy'n deillio o natur gynhyrchol ac atgynhyrchol y safle, fel cyrsiau addysg a hyfforddiant, neu wasanaethau ymgynghori sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau ar y tir ar y safle. Dylai fod yn glir bod y gweithgareddau olaf hyn yn ategol i'r prif weithgarwch o dyfu a magu cynnyrch.
- Bod perthynas uniongyrchol rhwng nifer y meddianwyr a gallu'r safle i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol o ran bwyd ac incwm a nifer y bobl y mae eu hangen i redeg y safle'n effeithiol.

Meini prawf cyfrannol

3.32 Y meini prawf cyfrannol yw:

- Bod y fenter tir yn darparu bwyd a chynhyrchion eraill i farchnadoedd lleol, gan leihau ôl traed ecolegol lleol.
- Bod cyfleusterau ar gyfer prosesu cynnyrch yn rhai sydd ar gael i gynhyrchwyr lleol eraill.
- Bod hyfforddiant / cyrsiau / gwasanaethau ymgynghori'n cael eu cynnig fel cydrannau yn y fenter tir i rannu'r arferion gorau o Ddatblygiadau Un Blaned.

Monitro: Meini prawf hanfodol

3.33 Y targedau a dangosyddion ar gyfer monitro'r meini prawf hanfodol yw:

- **Targed:** Bod anghenion sylfaenol (o leiaf 65%) yr holl feddianwyr o ran bwyd yn cael eu diwallu gan gynnyrch sydd wedi'i dyfu a'i fagu ar y safle neu wedi'i brynu ag incwm sy'n deillio o gynhyrchion eraill sydd wedi'u tyfu a'u magu ar y safle.

***Dangosyddion:** Adroddiad blynyddol am y cynnyrch bwyd a ddefnyddiwyd fesul aelwyd.
Adroddiad blynyddol am y gwariant ar fwyd arall.*

- **Targed:** Bod anghenion sylfaenol yr holl feddianwyr o ran incwm yn cael eu diwallu o incwm a gafwyd o weithgareddau ar y tir ar y safle.

***Dangosydd:** Adroddiad blynyddol am incwm a chostau aelwydydd.*

- **Targed:** Bod incwm a geir o fentrau eraill ar dir fel cyrsiau hyfforddiant ac addysg, neu wasanaethau ymgynghori, yn parhau'n ategol i'r prif weithgarwch o dyfu a magu cynnyrch.

***Dangosydd:** Adroddiad blynyddol am gyfanswm gwerth y cynnyrch sydd wedi'i dyfu a'i fagu ar y safle o'i gymharu ag incwm a gafwyd o fentrau eraill ar dir.*

- **Targed:** Bod perthynas uniongyrchol rhwng nifer y meddianwyr a gallu'r safle i ddarparu ar gyfer eu hanghenion sylfaenol o ran bwyd ac incwm a nifer y bobl y mae eu hangen i redeg y safle'n effeithiol.

Dangosydd: Adroddiad blynyddol am nifer y meddianwyr fesul aelwyd ac yn ôl eu rolau ar y safle.

Monitro: Meini prawf cyfrannol

3.34 Y targedau a dangosyddion ar gyfer monitro'r meini prawf cyfrannol yw:

- **Targed:** Bod y fenter tir yn darparu bwyd a chynhyrchion i farchnadoedd lleol, gan leihau eu hól traed ecolegol lleol.

Dangosydd: Adroddiad blynyddol am faint y gwerthiant a meysydd marchnad gan bob menter ar y safle.

- **Targed:** Bod cyfleusterau ar gyfer prosesu cynnyrch yn rhai sydd ar gael i gynhyrchwyr lleol eraill.

Dangosydd: Adroddiad blynyddol am y defnydd o gyfleusterau prosesu gan gynhyrchwyr eraill.

- **Targed:** Bod darparwyr hyfforddiant / cyrsiau / gwasanaethau ymgynghori, sy'n gydrannau yn y fenter tir, yn rhannu'r arferion gorau mewn gweithgareddau cynaliadwy ar y tir â'r gymuned ehangach.

Dangosydd: Adroddiad blynyddol am weithgareddau hyfforddi ac ymgynghori.

Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol: Data angenrheidiol

3.35 Y data i'w casglu ar gyfer y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol yw:

- Defnydd o fwyd:
 - o'r safle (wedi'i ddangos drwy ostyngiad mewn pryniadau a chofnodion cynaeafu);
 - a brynwyd.

Ôl Traed Eraill: Data angenrheidiol

3.36 Rhai o'r data i'w casglu i bennu Ôl Traed eraill yw:

- Danfoniadau – nifer a hyd y teithiau (milltiroedd y galwyn).
- Ynni a ddefnyddiwyd i brosesu.




Ourganics (Pat Bowcock), Dorset.: Mae cae a ddefnyddid i gadw merlod bellach yn ffynhonnell bwyd sy'n bwydo Pat a phobl leol hefyd drwy werthu'r cynnyrch.



Ourganics, Dorset: Cynhyrchu bwyd

Rheoli Tir



Gofynion TAN 6

- Paratoi asesiad llinell sylfaen o fioamrywiaeth a chymeriad y dirwedd gyda chynigion rheoli clir er mwyn gwella nodweddion pwysig [4.20.1]

Amcanion

3.37 Un o amcanion Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored fydd gwarchod, rheoli a, lle bynnag y bo modd, gwella ansawdd amgylcheddol. Y man cychwyn fydd yr hyn sydd ar y safle'n barod (paragraffau 3.3 – 3.8). Dylai Datblygiadau Un Blaned warchod a gwella bioamrywiaeth, treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd y safle, gan wneud lles i'r dirwedd ehangach os oes modd. Bydd yn neilltuo o bwysig gwarchod safleoedd a nodweddion sydd wedi'u dynodi ac, yn achos bioamrywiaeth, y cynefinoedd a'r nodweddion sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (holwch yr Ymddiriedolaeth Natur leol).

3.38 Bydd amcanion ar gyfer bioamrywiaeth, treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd yn hanfodol ar gyfer rheoli'r safle cyfan ac yn rhan o system gynaliadwy o reoli tir sy'n darparu bwyd a chynhyrchion eraill gan wneud lles i agweddau eraill ar yr amgylchedd hefyd. Bydd hyn yn cynnwys gwella deunydd organig y pridd a chynyddu niferoedd y pryfed sy'n peillio ac anifeiliaid ysglyfaethus naturiol sy'n ymosod ar blâu ac afiechydon. Drwy wneud hyn dylai hefyd hyrwyddo gallu'r amgylchedd naturiol i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Cydrannau

3.39 Mewn cynlluniau rheoli ar gyfer Datblygiadau Un Blaned dylid disgrifio sut bydd yr amcanion uchod yn cael eu cyflawni drwy reoli'r tir, gan ddangos sut y caiff hyn ei integreiddio â'r systemau cynhyrchu cyffredinol ar y safle.

Rheoli

3.40 Y cam cyntaf fydd gwarchod yr holl nodweddion presennol sy'n bwysig o ran bioamrywiaeth, diwylliant a'r dirwedd sydd ar y safle, fel perthi a gwrychoedd, coetir, nodweddion sy'n bwysig o ran treftadaeth ddiwylliannol a chynefinoedd lled-naturiol. Dylai'r rhain fod wedi'u cofnodi wrth wneud yr asesiad llinell sylfaen (paragraffau 3.3 – 3.8). Wrth gymryd camau i warchod y nodweddion hyn dylid parhau neu ailgyflwyno dulliau rheoli traddodiadol sy'n briodol i gadw'r nodweddion hyn mewn cyflwr da (fel eu bod yn gallu gwrthsefyll newid yn well). Dylid manteisio ar gyfleoedd hefyd i ehangu eu harwynebedd os yw hyn yn cyd-

fynd â'r cynllun ar gyfer y safle cyfan. Wrth wneud hyn dylid eu cysylltu drwy goridorau bywyd gwyllt â nodweddion gwerthfawr y tu allan i'r safle ac, er enghraifft, drwy ehangu glaswelltir parhaol dros safleoedd archeolegol claddedig o bwys.

3.41 Os yw'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd ar y safle'n neilltuol o amrywiol ac wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, dylid canolbwyntio wrth ddatblygu a rheoli'r safle ar warchod a gwella'r planhigion ac anifeiliaid presennol. Mewn ardaloedd lle mae'r cynefinoedd presennol yn wael, bydd yn fwy buddiol canolbwyntio ar greu cynefinoedd newydd. Gallai'r rhain fod yn gynefinoedd a nodweddion traddodiadol sydd wedi'u colli drwy amaethu mwy dwys yn yr ardal ehangach. Rhai o'r camau y gellid eu cymryd yw adfer perllannoedd traddodiadol neu ailblannu coetir sydd wedi'i golli, gwrychoedd a pherthi, waliau cerrig a gwlyptiroedd. Yn yr un modd, gallai hyn gynnwys cynefinoedd a nodweddion eraill sy'n gallu cyflawni swyddogaethau pwysig eraill ar y safle, er enghraifft, creu pyllau i storio dŵr llwyd; tyfu coedlannau i ddarparu coed tân; neu ddefnyddio coetiroedd a lleiniau cysgodi traddodiadol i warchod tir garddwriaethol a storio carbon yn well.

3.42 Wrth ystyried ychwanegu nodweddion newydd, bydd yn bwysig rhoi sylw i olygfeydd i mewn ac allan o'r safle, gan helpu i uno'r safle â'r tir o'i gwmpas a defnyddio priodoleddau cynhenid naturiol y tir o'i gwmpas. Bydd hyn o gymorth i gadarnhau cymeriad y dirwedd leol yn hytrach na'i wanhau.

3.43 Bydd yn bwysig dewis safleoedd priodol i adeiladau (gan gynnwys twnelau polythen a thraciau a threfniadau eraill ar gyfer mynediad) er mwyn eu cydweddu â'r dirwedd. Dylid dewis lleoliadau ar gyfer adeiladau a mynediad lle na fyddant yn rhy amlwg mewn golygfeydd o'r tu allan i'r safle. Lleoliadau addas fydd y rheini sydd wedi'u sgrinio'n rhannol gan orweddiad y tir a / neu gysgod coed a gwrychoedd neu berthi presennol neu blanhigion newydd. Bydd gwerth hefyd mewn plannu coed a gwrychoedd neu berthi ychwanegol a fydd yn gymorth pellach i wella golygfeydd i mewn i'r safle, yn enwedig golygfeydd sy'n cynnwys adeiladweithiau a thir garddwriaethol. Yn aml bydd y rhain yn gweithio ar y cyd â lleiniau cysgodi i wella'r ficrohinsawdd o gwmpas anheddau a chysgodi tir lle mae cnydau'n tyfu.

3.44 I grynhoi:

3.45 **Bioamrywiaeth:** O ran bioamrywiaeth y prif ystyriaethau fydd: (a) gwarchod yr holl gynefinoedd lled-naturiol presennol (fel gwlyptiroedd, coetiroedd hynafol a glaswelltir a rhostir lled-naturiol) a chynefinoedd eraill sy'n bresennol sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol neu rai sy'n cynnal rhywogaethau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol; (b) ehangu arwynebedd y cynefinoedd hynny os ydynt yn bresennol, os yw'n bosibl, neu ystyried eu hailgyflwyno os oeddent yn bresennol ar un adeg ond bellach wedi'u colli; (c) amlhau'r lles i fioamrywiaeth drwy ddylunio ar gyfer anghenion swyddogaethol eraill y safle mewn modd sy'n ystyriol o fywyd gwyllt, er enghraifft, pyllau i storio dŵr llwyd a phlannu coedlannau i ddarparu coed tân; (ch) os yw'n bosibl, cysylltu'r holl gynefinoedd hyn (a, b ac c) ar ffurf rhwydwaith ar draws y safle gan eu cysylltu, os oes modd, â chynefinoedd y tu allan i'r safle; a (d) rheoli'r

holl gynefinoedd hyn drwy ddulliau traddodiadol priodol, a fydd yn creu mwy o amrywiaeth o rywogaethau ynddynt ac yn cynyddu eu gallu i wrthsefyll newid.

3.46 Treftadaeth ddiwylliannol: O ran treftadaeth ddiwylliannol y prif ystyriaethau fydd gwarchod a chynnal nodweddion hanesyddol pwysig ar y safle gan gynnwys safleoedd archeolegol claddedig hysbys a gwrthgloddiau (fel llain-linsiedi, amddiffynfeydd o gloddiau pridd a thirwedd cefnen a rhych) a henebion adeiledig uwchben y ddaear a nodweddion gan gynnwys adeiladau traddodiadol. Y ffordd orau o warchod safleoedd archeolegol claddedig a gwrthgloddiau hanesyddol yw eu cadw dan laswelltir parhaol sy'n cael ei bori'n aml. Dylid cymryd camau rhag erydu pridd a sathru gan anifeiliaid yn ogystal â thwf prysgwydd a choed gan fod eu gwreiddiau'n gallu difrodi nodweddion archeolegol claddedig. Dylid sefydlogi nodweddion adeiledig o bwysigrwydd hanesyddol i atal difrod pellach a thynnu unrhyw lystyfiant helaeth sydd o'u cwrpas os oes modd.

3.47 Tirwedd: Dylai Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored gael effaith gadarnhaol ar y dirwedd o'i gwmpas. Bydd hyn yn rhan annatod o'r Datblygiad Un Blaned i raddau helaeth gan mai gweithgareddau defnydd tir a dulliau rheoli cynefinoedd traddodiadol a greodd y tirweddau hanesyddol yn y lle cyntaf. Felly gall Datblygiad Un Blaned atgyfnerthu neu ail-greu nodweddion tirwedd traddodiadol gwerthfawr fel gwrychoedd neu berthi, perllannoedd, coetiroedd, coedlannau a gweirgloddiau. Fel arfer bydd Datblygiadau Un Blaned ar raddfa fach, felly ni fyddant yn cael effaith fawr ar dirwedd. Er hynny, mae'n bwysig sicrhau: (a) bod nodweddion sy'n cael eu creu (fel gwrychoedd neu berthi, cloddiau a waliau) yn adlewyrchu nodweddion traddodiadol y dirwedd leol; (b) bod anheddau ac adeiladweithiau eraill gan gynnwys traciau mynediad wedi'u lleoli lle y gellir eu ffitio i'r dirwedd fel rhan o'r dyluniad cyffredinol ar gyfer y safle, fel na fyddant yn amlwg mewn golygfeydd o fannau manteisiol cyhoeddus; ac (c) bod nodweddion newydd a greir dan (a) uchod yn darparu sgrinio ychwanegol (gan ddefnyddio rhywogaethau brodorol) lle bydd hyn o gymorth i sicrhau bod y datblygiad cyfan y cydweddu â'r dirwedd o'i gwmpas.

Cynhyrchu

3.48 Mae cynhyrchu'n agwedd hanfodol ar Ddatblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored (paragraff 3.16). Cynhyrchiant y gweithgareddau ar y tir yw'r brif elfen sy'n caniatáu i feddianwyr leihau eu heffaith ar yr amgylchedd drwy gwrdd â'u hanghenion o adnoddau'r safle yn hytrach nag o leoedd eraill. Fodd bynnag, mae mathau o gynhyrchu sy'n sensitif i'r amgylchedd yn dod â manteision uniongyrchol hefyd o ran rheoli tir a'r amgylchedd.

3.49 Dylai synergeddau cadarnhaol rhwng cynhyrchu a rheoli tir fod yn rhan annatod o Ddatblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored, ac maent yn agwedd hanfodol ar ddulliau sefydledig o reoli tir sydd wedi'u seilio ar ecoleg fel permaddiwylliant (gweler **Blychau 3 a 6**).

3.50 Yn hytrach na bod tyndra rhwng cynhyrchu a dulliau cadarnhaol o reoli tir, dylai systemau cynhyrchu Datblygiadau Un Blaned gael eu hintegreiddio'n llwyr â dulliau rheoli sy'n cynnal ac yn gwella ansawdd yr amgylchedd.

Meini prawf hanfodol

3.51 Y meini prawf hanfodol yw:

- Bod yr holl gynefinoedd lled-naturiol presennol a'r cynefinoedd pwysig eraill ar y safle'n cael eu gwarchod a'u gwella drwy ddulliau rheoli traddodiadol priodol.
- Bod yr holl nodweddion treftadaeth ddiwylliannol (e.e. archeoleg) ar y safle'n cael eu gwarchod a'u gwella drwy ddulliau rheoli priodol.
- Bod tirwedd y safle'n cael ei gwella drwy ychwanegu nodweddion tirwedd sydd, neu a oedd, yn nodweddiadol o'r dirwedd leol a'u rheoli drwy ddulliau traddodiadol. Gellir defnyddio'r rhain i sgrinio elfennau adeiledig yn y cynigion a gwella golygfeydd sy'n eu cynnwys, ac i gysgodi a sgrinio tir garddwriaethol.
- Bod adeiladau ac adeiladweithiau eraill a thraciau mynediad wedi'u lleoli lle y gellir eu ffitio i'r dirwedd a lle na fyddant yn amlwg mewn golygfeydd o fannau manteisiol cyhoeddus.

Meini prawf cyfrannol

3.52 Y meini prawf cyfrannol yw:

- Bod cynefinoedd lled-naturiol presennol yn cael eu heangu neu gynefinoedd a oedd unwaith yn nodweddiadol yn cael eu hail-greu, gan greu coridorau bywyd gwyllt ar draws y safle os oes modd, sy'n cysylltu â chynefinoedd eraill y tu allan i'r safle.
- Bod poblogaethau o adar ffermdir a oedd unwaith yn nodweddiadol o'r ardal leol yn cael eu cynyddu drwy greu cynefinoedd priodol.
- Bod deunydd organig y pridd yn cael ei gynyddu.
- Bod poblogaethau o bryfed sy'n peillio yn cael eu cynyddu.

Monitro: Meini prawf hanfodol

3.53 Y targedau a dangosyddion ar gyfer monitro'r meini prawf hanfodol yw:

- **Targed:** Bod yr holl gynefinoedd lled-naturiol presennol mewn cyflwr ffafriol.
Dangosyddion: *Ystod y rhywogaethau sy'n nodweddiadol o'r cynefin hwnnw ar sail llinell sylfaen sefydledig.*
Dirywiad y rhywogaethau annodweddiadol / amaethyddol masnachol ym mhob cynefin (gofynnwch am gyngor gan yr Ymddiriedolaeth Natur).
- **Targed:** Bod yr holl nodweddion treftadaeth diwylliannol a nodwyd yn cael eu cadw mewn cyflwr da.
Dangosyddion: *Dim tir wedi'i drin na phridd wedi'i erydu dros safleoedd archeolegol claddedig a gwrthgloddiau hanesyddol.*
Prysgwydd a choed dros safleoedd archeolegol claddedig a gwrthgloddiau hanesyddol wedi'u tynnu.

Nodweddion hanesyddol / diwylliannol uwchben y ddaear wedi'u sefydlogi a choed / prysgwydd wedi'u tynnu.

- **Targed:** Bod nodweddion sy'n nodweddiadol o'r dirwedd hanesyddol yn fwy o ran nifer a / neu arwynebedd neu hyd a bod pob un ohonynt yn cael ei rheoli drwy ddulliau traddodiadol priodol.

Dangosyddion: Cynnydd yn nifer / arwynebedd / hyd nodwedd tirwedd x.

Cynnydd yn nifer / arwynebedd / hyd nodwedd tirwedd y.

Hybu amrywiaeth ac amlder rhywogaethau

Blwch 5

Yn gyffredinol, bydd y cynllun rheoli yn ceisio hybu amrywiaeth ac amlder rhywogaethau ar draws y safle. Er enghraifft:

- wrth reoli gwrychoedd neu berthi dylid caniatáu amser i blanhigion ddwyn ffrwyth
- ni ddylid dinistrio glaswelltir sy'n isel ei ffrwythlondeb / uchel o ran amrywiaeth
- ni ddylai nifer y pysgod mewn corff dŵr fod yn gymaint fel ei fod ar draul mathau eraill o fywyd gwyllt.



Mae gwrychoedd ar safle Holsworthy Organics yn Nyfnaint yn cael eu rheoli mewn cylch saith mlynedd er mwyn darparu ar gyfer cynhyrchu cnau ac aeron i'w bwyta gan anifeiliaid gwyllt



Ar dir garddwriaethol sensitif iawn ar Primrose Farm, y Gelli Gandryll, mae llecynnau wedi'u gadael ar gyfer blodau gwyllt a llwyni cnau ac aeron sy'n cynhyrchu bwyd i adar a phryfed

Biogynhwysedd

Blwch 6

Biogynhwysedd yw'r gallu sydd gan system naturiol i gynhyrchu adnoddau adnewyddadwy defnyddiol a chymhathu gwastraff. Felly, rhaid i Ddatblygiad Un Blaned fod â biogynhwysedd sy'n ddigon i gynnal ei feddianwyr a gweithgareddau eraill ar y safle. Mae'n bosibl, felly, y bydd biogynhwysedd y safle'n fwy na digon i ddiwallu anghenion ei feddianwyr a gweithgareddau ar y safle ac felly y bydd yn dod â lles i gylch ehangach.

Mae gwelliannau yn amrywiaeth a maint y bwyd, porthiant, ynni a deunyddiau naturiol a gynhyrchir yn cynyddu biogynhwysedd. Gellir hybu gwelliannau o'r fath drwy greu microhinsoddau a chynefinoedd cilfach i gynyddu amrywiaeth ac amlder rhywogaethau. Yn yr un modd, gellir cymhathu gwastraff drwy gynnwys dulliau naturiol o gylchu deunyddiau ac o hybu amrywiaeth a chadernid y cynefinoedd.

Monitro: Meini prawf cyfrannol

3.52 Y targedau a dangosyddion ar gyfer monitro'r meini prawf cyfrannol yw:

- **Targed:** Bod cynefin(oedd) lled-naturiol (a enwir) wedi'u heangu / creu.
Dangosyddion: Arwynebedd y cynefin newydd.
Ystod y rhywogaethau nodweddiadol yn y cynefin hwnnw.
- **Targed:** Bod poblogaeth yr adar ffermdir ar y safle yn cynyddu.
Dangosydd: Nifer yr adar ffermdir sy'n nythu ar y safle ar sail llinell sylfaen sefydledig.
- **Targed:** Bod poblogaeth y gwenyn mêl yn cynyddu.
Dangosydd: Nifer y cychod gwenyn gweithredol ar y safle.

Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol: Data angenrheidiol

Dim data angenrheidiol



Coed Pentiddy, Cernyw: Mae erwau o goedlannau o goed cyll a chastanwydd wedi'u plannu. Mae'r tŷ newydd yn Pentiddy wedi'i sgrinio'n dda gan y gwrychoedd a choetiroedd presennol a newydd, ac mae wedi'i wneud o bren a gafodd ei gyrchu'n lleol a'i lifio ar y safle, llechi Delabole ac ithfaen Bodmin.




Fivepenny Farm, Dorset: Plannu perllannoedd newydd, gan adfer tirwedd draddodiadol Dorset



Ourganics, Dorset: Troi padog i ferlod yn dirwedd fioamrywiol

Ynni a Dŵr



Gofynion TAN 6

- Mesur sut y gellir diwallu anghenion y preswylwyr am ynni yn uniongyrchol o adnoddau'r safle [4.17.1]
- Mae posibilrwydd o sicrhau manteision drwy leihau carbon i'r gymuned ehangach drwy allforio unrhyw drydan dros ben i'r grid [4.19.1]

Amcanion

3.53 Er mai ynni yw'r unig adnodd naturiol a drafodir yn TAN 6, mae dŵr hefyd yn adnodd naturiol y mae angen ei reoli'n ofalus. Mae ynni a dŵr yn adnoddau sy'n cael eu defnyddio gan ddatblygiad, ac felly'n creu effaith amgylcheddol. Rhai o nodweddion hanfodol Datblygiadau Un Blaned yw eu bod yn **lleihau'r** defnydd o'r adnoddau hyn ac yn eu **hailddefnyddio** lle bynnag y bo modd, a bod anghenion y preswylwyr o ran ynni yn cael eu diwallu o adnoddau'r safle. Dylai hyn fod yn wir am ddŵr hefyd, os na ellir dangos bod dewis arall sy'n fwy cynaliadwy o ran yr amgylchedd.

Cydrannau

3.54 Mae ynni a dŵr yn cael eu defnyddio drwy **weithgareddau domestig a gweithgareddau eraill** ar y safle. Yn aml, bydd y ddau fath o weithgarwch yn gorgyffwrdd: un enghraifft yw tyfu cynnyrch. Ond os oes gweithgareddau annomestig ar safleoedd, fel amaethyddiaeth / garddwriaeth fasnachol, prosesu cynnyrch, neu gyfleusterau addysg a hyfforddiant, mae angen rhoi cyfrif am y rhain ar wahân, oherwydd gallent achosi newid mawr yn y defnydd o ynni a dŵr ar y safle cyfan.

Defnyddio llai ac ailddefnyddio

3.55 Yn yr un modd â phob datblygiad, y brif flaenoriaeth yw **lleihau** anghenion am ynni a dŵr drwy leihau'r galw. Drwy wneud hyn bydd yn haws cwrdd â'r holl anghenion am ynni a dŵr o adnoddau'r safle.

3.56 Yn ogystal â lleihau'r defnydd o ynni a dŵr ar gyfer gweithgareddau unigol, gellir **ailddefnyddio'r** ddau ar y safle ar ffurf llifau, er enghraifft, drwy ddefnyddio gwres dros ben o anheddau i wresogi tai gwydr neu welyau tyfu llysiau hefyd.

Un o brif nodweddion Datblygiadau Un Blaned yw eu bod yn lleihau'r defnydd o adnoddau ac yn lleihau gwastraff. Ynni a dŵr yw'r ddau darged mwyaf amlwg.

Er mwyn defnyddio ynni'n fwy effeithlon, rhaid lleihau'r galw ar y system. Mae inswleiddio da mewn adeiladau, goleuadau LED, yn ogystal â dulliau o ddefnyddio ynni fel systemau ynni haul, adennill gwres a systemau gwres a phŵer cyfunedig yn gallu sicrhau'r arbedion hyn yn y cam dylunio. Drwy gynnwys nodweddion o'r fath mewn cynllun, gellir lleihau'r angen am ynni i redeg adeilad yn sylweddol ac felly lleihau'r angen am gapasiti cynhyrchu, gan arbed costau sylweddol am yr elfennau drud hyn.

Ffynonellau

3.57 Mae dau fath sylfaenol o adnoddau – rhai adnewyddadwy a rhai na ellir eu hadnewyddu. Dylai safleoedd Datblygiadau Un Blaned ddarparu ar gyfer anghenion eu preswylwyr drwy ddefnyddio **adnoddau adnewyddadwy**.

3.58 **Ynni:** Haul, gwynt, dŵr a biomas yw'r prif ffynonellau o ynni adnewyddadwy sy'n addas i Ddatblygiadau Un Blaned. Bydd y graddau y maent ar gael yn amrywio o safle i safle ac o dymor i dymor. Yn aml, ceir y ffordd leiaf ei heffaith a mwyaf costeffeithiol o gwrdd ag anghenion y safle am ynni drwy gyfuniad o wahanol dechnolegau.

3.59 Er y dylai safleoedd fod yn hunangynhaliol o ran ynni gan mwyaf, os yw cysylltiad â'r grid ar gael gellir allforio ynni dros ben i'r grid neu, fel arall, tynnu ynni wrth gefn o'r grid mewn argyfwng. Fodd bynnag, ni ddylid tynnu ynni o'r grid yn rheolaidd gan y bydd hyn yn ychwanegu at Ôl Troed Ecolegol y datblygiad.

3.60 Gallai fod yn dderbyniol defnyddio meintiau bach o danwyddau na ellir eu hadnewyddu at ddibenion penodol os oes angen sy'n cyfiawnhau hynny ac os yw'n briodol. Bydd y defnydd hwn hefyd yn cael ei gofnodi yn y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol. Rhai enghreifftiau posibl yw'r defnydd o nwy potel i goginio yn y misoedd cynhesaf pan na fydd stofiau sy'n llosgi coed wedi'u cynnu, neu'r defnydd o beiriannau i gyflawni tasgau penodol ar gyfer amaethyddiaeth, gaddwriaeth, rheoli coetiroedd neu brosesu. Nid yw cynhyrchu trydan o danwyddau na ellir eu hadnewyddu'n dderbyniol.

3.61 **Dŵr:** Bydd dŵr ar gael o amrywiaeth o ffynonellau ar y safle. Y brif ffynhonnell fydd dŵr glaw a gaiff ei gasglu oddi ar adeiladau, adeiladweithiau a wynebau caled eraill a'i storio ar y safle. Yr unig derfyn ar y defnydd ohono fydd maint y dŵr a gesglir. Tynnir y gweddill o gyrff dŵr – pyllau / llynnoedd gan gynnwys y rheini a greir wrth ddatblygu'r safle, cyrsiau dŵr (afonydd / nentydd), a ffynhonnau / tyllau turio (dŵr daear). Maint y dŵr a dynnir o'r rhain a fydd yn pennu a ydynt yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy neu beidio. Os tynnir gormod o ddŵr, gall hynny beri niwed i'r amgylchedd, gan y bydd cyrff dŵr a chyrsiau dŵr yn sychu, a gallai'r lefel trwythiad ostwng wrth dynnu dŵr daear gan sychu cynefinoedd pwysig sy'n dibynnu ar ddŵr.

Dylai Datblygiadau Un Blaned geisio gwneud y defnydd mwyaf posibl o ffynonellau ynni ar y safle gan gynnwys 'microgynhyrchu'.

Y ffynhonnell ynni fwyaf helaeth ar y safle fydd **biomas** – coed fel arfer. Bydd y rhan fwyaf o systemau gwresogi sy'n defnyddio coed mewn Datblygiadau Un Blaned wedi'u seilio ar stof sy'n llosgi darnau o goed y gellir ei defnyddio i wresogi ystafelloedd byw ac, mewn rhai achosion, bwyd a dŵr. Mae stofiau 'mass' a stofiau roced effeithlon iawn yn llosgi llai o goed a choed o ansawdd is. Mae systemau llosgi coed ar gael a reolir yn electronig ac sy'n eu bwydo eu hunain: mae'r rhain yn fwy addas ar gyfer mannau byw cymunol a chyffredin fel arfer, lle y gellir rhannu'r gost o'u gosod.

Gellir lleihau'r angen am bŵer i wresogi ac awyru adeiladau drwy ddefnyddio dyluniadau **ynni haul goddefol**. Drwy gynnwys gwydr yn y gweddolun deheuol, un ai mewn ffenestri, heulfannau neu system wal trombe bydd aer cynnes yn cael ei ddal y tu mewn i'r adeilad. Mae arwynebeddau eang o fâs thermol ar ffurf lloriau neu waliau hefyd yn gallu amsugno gwres a'i ryddhau ar adegau llai cynnes yn ystod y dydd neu'r nos. Gellir cael systemau awyru sy'n oddefol, wedi'u rheoli â llaw neu'n rhedeg ar lefel isel o ynni. Mae paneli solar thermol yn gwresogi dŵr yn effeithiol ar gyfer golchi ac, i lai o raddau, ar gyfer gwresogi ystafelloedd.

Gellir defnyddio ynni gwynt, haul a dŵr i **microgynhyrchu** trydan. Bydd yr adnoddau sydd ar gael ar safleoedd yn amrywio a bydd hyn yn dylanwadu ar y dewis o ddulliau i'w defnyddio, a allai gynnwys tyrbinau gwynt, dulliau ffotofoltäig (ynni haul) a thyrbinau trydan dŵr. Gall tyrbinau gwynt fod yn rhy amlwg mewn rhai sefyllfaoedd a gallai'r awdurdod cynllunio lleol eu gwrthwynebu os yw eu maint yn fwy na'r hyn sydd wedi'i gymeradwyo yn ei bolisiâu cynllunio lleol. Gallai cyfuniad o nifer o systemau ar raddfa micro fod yn fwy addas ar gyfer tai sengl, ond mae'n bosibl y bydd adnoddau ar gael ar safleoedd ar gyfer systemau ar raddfa fwy fel y tyrbinau trydan dŵr a'r cafn melin sy'n cael eu hadfer yn Lammas.



Tŷ yn Lammas sy'n cael ei bweru'n llwyr gan ynni adnewyddadwy. Mae systemau ffotofoltäig yn pweru goleuadau a chyfrifiaduron ac mae coed o'r safle'n cael ei gynaeafu, ei storio a'i ddefnyddio ar gyfer coginio ac i wresogi mannau byw a dŵr.

Casglu dŵr a'i ddefnyddio

Blwch 9

Mae dŵr yn adnodd hanfodol ar gyfer gweithgareddau ar y tir. Drwy ddulliau effeithiol o gasglu dŵr glaw a / neu ddŵr o byllau a phantiau, gellir storio meintiau mawr o ddŵr ac osgoi defnyddio nifer o ddulliau drud o ddarparu'r dŵr y mae ei angen. Mae systemau casglu dŵr glaw – cafnau, peipiau glaw a thanciau – yn gallu darparu cyflenwadau dŵr gwerthfawr. Mae'n bwysig ystyried y materion hyn yn y cam dylunio ar gyfer pob cynllun, gan y bydd yn haws ac yn rhatach cyflawni'r gwaith hwn drwy gynllunio ymlaen llaw yn dda i'w datblygu'r safle.



Holsworthy Organics, Dyfnaint: caiff dŵr glaw ei gasglu oddi ar doeau a'i storio mewn cynwysyddion o dan ac uwchben y ddaear.

Meini prawf hanfodol

3.62 Y meini prawf hanfodol yw:

Ynni

- Y bydd anghenion y safle o ran ynni'n cael eu **lleihau** drwy ddylunio addas a thrwy ddefnyddio technoleg, gan gynnwys technoleg ar gyfer ailddefnyddio.
- Rhaid cwrdd â'r anghenion am ynni ar gyfer pob gweithgarwch o adnoddau **ynni adnewyddadwy** ar y safle, heblaw am feintiau bach o danwydd na ellir ei adnewyddu sy'n fwy addas at ddibenion penodol ac y gellir eu cyfiawnhau (paragraff 3.60).

Dŵr

- Y bydd anghenion y safle o ran dŵr yn cael eu **lleihau** drwy ddylunio addas a thrwy ddefnyddio technoleg, gan gynnwys technoleg ar gyfer ailddefnyddio.
- Rhaid **casglu'r** meintiau mwyaf posibl o ddŵr glaw oddi ar adeiladau ac adeiladweithiau.
- Bod yr anghenion am ddŵr ar gyfer pob gweithgarwch yn cael eu diwallu drwy ddefnyddio dŵr sydd ar gael ar y safle, oni bai fod dewis arall sy'n fwy cynaliadwy o ran yr amgylchedd. Os tynnir dŵr o gyrff dŵr (gan gynnwys ffynonellau dŵr daear), rhaid gwneud hynny ar lefelau nad ydynt yn achosi niwed i'r amgylchedd. Byddai niwed yn digwydd o ganlyniad i ostwng lefelau dŵr wyneb a dŵr daear.

Meini prawf cyfrannol

3.63 Y meini prawf cyfrannol yw:

Ynni

- Na fydd yr ynni ymgorfforedig mewn cyfarpar ynni adnewyddadwy'n fwy na'r manteision y mae'n eu rhoi drwy gynhyrchu ynni.
- Bod llafur gan bobl ac anifeiliaid yn cymryd lle'r defnydd o ynni na ellir ei adnewyddu lle bynnag y bo'n bosibl ac yn ymarferol.

Dŵr

- Bod unrhyw bympiau dŵr yn rhedeg ar ynni adnewyddadwy.
- Bod unrhyw byllau / llynnoedd a greir yn amlhau cynefinoedd ac na fyddant yn dinistrio cynefinoedd presennol o bwys.

Monitro: Meini prawf hanfodol

3.64 Y targedau a dangosyddion ar gyfer monitro'r meini prawf hanfodol yw:

- **Targed:** Bod yr holl **anghenion am ynni** yn cael eu diwallu o ffynonellau ynni adnewyddadwy ar y safle.

Dangosyddion: Adroddiad blynyddol am y defnydd o ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd ar y safle (canran o'r anghenion am ynni).

Adroddiad blynyddol am y defnydd o danwyddau na ellir eu hadnewyddu o bob math, sy'n cofnodi pwrpas eu defnyddio a'r maint a ddefnyddiwyd.

Adroddiad blynyddol am faint y trydan a allforiwyd i'r grid ac a fewnforiwyd o'r grid.

(Sylwer: bydd yr holl ynni a brynwyd yn cael ei gofnodi yn y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol, felly bydd angen lleihau'r defnydd o ynni)

- **Targed:** Bod yr holl **anghenion am ddŵr** yn cael eu diwallu o ddŵr sydd ar gael ar y safle (oni bai fod dewis arall sy'n fwy cynaliadwy).

Dangosyddion: Adroddiad blynyddol am y defnydd o ffynonellau dŵr (y maint a ddefnyddiwyd o bob ffynhonnell), gan gynnwys dŵr a gasglwyd ar y safle ac a dynnwyd o gyrff dŵr (dŵr wyneb a dŵr daear).

Adroddiad blynyddol am lefelau dŵr daear a dŵr wyneb (cofnodion misol).

Monitro: Meini prawf cyfrannol

3.65 Nid oes targedau na dangosyddion ar gyfer monitro'r meini prawf cyfrannol. Bydd y mewnbwn gan lafur pobl ac anifeiliaid yn cael ei fesur yn anuniongyrchol drwy fonitro'r ynni a brynwyd – po fwyaf o ynni a brynwyd, lleiaf oedd yr ymdrech i ddefnyddio llafur pobl ac anifeiliaid yn ei le.

Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol: Data angenrheidiol

3.66 Y data i'w casglu ar gyfer y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol yw:

- Math a maint yr ynni a brynwyd sydd wedi'i ddefnyddio (kWh) at ddibenion domestig, a manylion y ffynhonnell.
- Maint y cyfalaf a fuddsoddwyd mewn technolegau cynhyrchu adnewyddadwy i ddiwallu anghenion domestig.

Ôl Traed Eraill: Data angenrheidiol

3.67 Ymhlith y data i'w casglu i bennu Ôl Traed Eraill y mae:

- Adroddiad blynyddol am ynni a brynwyd at ddibenion annomestig ar y safle (sef yr holl ynni a brynwyd llai'r ynni sydd wedi'i ddyrannu at ddefnydd domestig uchod).
- Maint y cyfalaf a fuddsoddwyd mewn technolegau cynhyrchu adnewyddadwy i ddiwallu anghenion annomestig (sef cyfanswm y cyfalaf a fuddsoddwyd mewn technolegau cynhyrchu adnewyddadwy llai'r swm a ddyrannwyd at ddefnydd domestig uchod).
- Adroddiad blynyddol am faint y trydan a allforiwyd i'r grid.

Gwastraff



Gofynion TAN 6

- Mesur sut y gellir diwallu anghenion y preswylwyr am gymhathu gwastraff yn uniongyrchol o'r safle [4.17.1]

Amcanion

3.68 Mae datblygiadau'n cynhyrchu gwastraff, a bydd hyn yn effeithio ar yr amgylchedd. Un o nodweddion hanfodol Datblygiad Un Blaned yw y bydd yr holl wastraff a gynhyrchir (heblaw meintiau bach iawn o wastraff sy'n beryglus neu heb fod yn fioddiraddadwy a fydd yn sicr o godi) yn cael ei gymhathu ar y safle, mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy o ran yr amgylchedd.

Cydrannau

3.69 Caiff gwastraff ei gynhyrchu drwy weithgareddau domestig a gweithgareddau eraill ar y safle. Rhai o'r mathau o wastraff sy'n debygol o godi yw:

- gwastraff bwyd domestig
- dŵr llwyd
- ysgarthion a throeth dynol
- papur a deunydd pacio
- gwastraff gwyrdd o ganlyniad i dyfu bwyd a choed
- tail da byw.

3.70 Byddai gweithgareddau penodol fel prosesu bwyd yn gallu cynhyrchu mwy o fathau penodol o wastraff y mae angen eu cymhathu. Bydd gwastraff o weithgareddau eraill yn cael ei gyfrif ar wahân i wastraff domestig oherwydd gall achosi newid sylweddol yn natur y gwastraff a gynhyrchir gan y safle cyfan.

3.71 Mae rhai mathau o wastraff y bydd yn anodd iawn neu'n amhosibl eu cymhathu ar y safle am nad ydynt yn fioddiraddadwy neu am eu bod yn wenwynig neu'n beryglus. Dim ond yn achlysurol y bydd Datblygiadau Un Blaned yn cynhyrchu gwastraff o'r fath, a bydd y meintiau'n fach. Rhai enghreifftiau o hyn yw dillad neu esgidiau sydd wedi treulio, caledwedd sydd wedi torri a batris ailwefradwy sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes. Dylid cael gwared â'r eitemau hyn drwy ddulliau cynaliadwy y tu allan i'r safle a'u hailgylchu lle bynnag y bo modd.

3.72 Bydd y gallu i gymhathu gwastraff yn rhwydd ar y safle yn dibynnu'n helaeth ar y graddau y gellir lleihau gwastraff, y mathau o wastraff a gynhyrchir, a'r graddau y gellir aildddefnyddio ac ailgylchu gwastraff o fewn y safle.

Lleihau gwastraff

3.73 Yn yr un modd â phob datblygiad, y brif flaenoriaeth fydd lleihau gwastraff (yn enwedig gwastraff nad yw'n fioddiraddadwy a gwastraff peryglus). Bydd yn llawer haws gwneud hyn os bydd y rhan fwyaf o'r anghenion am fwyd yn cael eu diwallu'n uniongyrchol o adnoddau'r safle.

Ailgylchu ac aildddefnyddio gwastraff

3.74 Mae gwastraff organig (sef y rhan fwyaf o'r gwastraff ar safle Datblygiad Un Blaned yn ôl pob tebyg) yn gallu rhoi manteision sylweddol drwy ei aildddefnyddio. Gellir ailgylchu gwastraff, a'r dewis mwyaf amlwg fydd ei ddefnyddio fel deunydd organig ar gyfer tanwydd neu wrtaith (mae ailgylchu gwastraff organig ar y safle'n gallu cynyddu ffrwythlondeb a chynhyrchiant y safle'n gyffredinol). Gellir aildddefnyddio mathau eraill o wastraff y tu allan i'r safle drwy fentrau ailgylchu cyhoeddus. Gellir defnyddio dŵr llwyd at ddibenion domestig eilaidd, i wacáu toiledau, er enghraifft, neu ar gyfer dyfrhau, *er na chymeradwyir dyfrhau cnydau bwytdadwy â dŵr llwyd am resymau sy'n ymwneud ag iechyd (gallai gynnwys pathogenau)*. Drwy ailgylchu ac aildddefnyddio gwastraff, gellir osgoi dulliau drud o drin gwastraff sy'n gostus i'w rhedeg ac a allai fod yn agored i effeithiau niweidiol.

Compostio / cylchu gwastraff

Blwch 10

Gellir cymhathu nifer o fathau o wastraff organig ar y safle drwy gompostio ac ailgylchu, ac yn aml drwy gyfuniad o'r ddau. Rhaid rheoli **ysgarthion dynol** yn ofalus am resymau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch. Mae toiledau sych yn defnyddio llai o ddŵr a thrwy eu defnyddio ni fydd yn rhaid talu costau am osod gwaith trin dŵr. Drwy ddefnyddio dulliau cywir o gompostio, gellir dadelfennu solidau i'w gwneud yn addas i'w rhoi yn y pridd o gwmpas cnydau na fyddant yn cael eu bwyta. Tanciau carthion a ffosydd trwytholchi yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o drin carthion a gellir plannu planhigion fel cyfardwf ar eu hyd a'u defnyddio wedyn yn wrtaith gwyrdd neu'n gompost. Am fod slwtsh yn cronni mewn tanciau carthion, rhaid eu gwagio o dro i dro a rhaid dilyn canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd wrth daenu'r slwtsh ar ben pridd ar y safle. Mae **troeth dynol** yn gatalydd effeithlon yn y broses compostio. Mae lefel uchel iawn o faethynnau ynddo hefyd ac mae angen ei wanhau drwy roi 12 mesur o ddŵr am bob mesur o droeth cyn ei daenu'n uniongyrchol ar ben pridd.

Gwastraff bwyd domestig – gellir ei gompostio a'i roi'n ôl yn y pridd ar gyfer cnydau bwyd a chnydau eraill. Gellir ei roi'n borthiant hefyd i anifeiliaid fel moch ac ieir. Gellir gompostio **gwastraff gwyrdd o dyfu bwyd a choed** i wrteithio cnydau eraill a'i roi'n borthiant i dda byw hefyd. Mae **tail da byw** yn ffynhonnell werthfawr o faethynnau y gellir eu rhoi'n ôl yn y pridd i roi maethynnau i gnydau o bob math, ar ôl ei gompostio'n effeithiol gan ychwanegu deunyddiau carbon-gyfoethog fel gwastraff gwyrdd o blanhigion a choed.

Meini prawf hanfodol

3.75 Y meini prawf hanfodol yw:

- Bod yr holl wastraff bioddiraddadwy a gynhyrchir ar y safle'n cael ei gymhathu ar y safle mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy o ran yr amgylchedd.

- Yr unig eithriad i hyn fydd meintiau bach o wastraff nad yw'n fiogdiraddadwy y ceir gwared ag ef yn achlysurol y tu allan i'r safle am na ellir ei gymhathu ar y safle, ac sy'n deillio o bethau a ddefnyddir ar y safle sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes neu y mae'n amhosibl eu trwsio.
- Bod rhaid cydymffurfio â chanllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd wrth drin a chymhathu pob math o wastraff ar y safle.

Meini prawf cyfrannol

3.76 Y meini prawf cyfrannol yw:

- Bod yr ail ddefnydd o wastraff organig ar y safle'n cynyddu ffrwythlondeb a chynhyrchiant cyffredinol y safle ar yr amod na fydd hyn ar draul cynefinoedd lled-naturiol pwysig sy'n dibynnu ar bridd isel ei ffrwythlondeb.

Monitro: Meini prawf hanfodol

3.77 Y targedau a dangosyddion ar gyfer monitro'r meini prawf hanfodol yw:

- **Targed:** Y bydd yr holl wastraff biogdiraddadwy a gynhyrchir ar y safle yn cael ei gymhathu ar y safle mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy o ran yr amgylchedd.
- **Targed:** Yr unig eithriad i hyn fydd meintiau bach o eitemau gwastraff nad ydynt yn fiogdiraddadwy y ceir gwared â nhw'n achlysurol y tu allan i'r safle am na ellir eu cymhathu ar y safle, ac sy'n deillio o bethau a ddefnyddir ar y safle sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes neu y mae'n amhosibl eu trwsio.

***Dangosyddion:** Adroddiad blynyddol am faint yr holl wastraff a gynhyrchwyd yn ôl y math o wastraff a'i ffynhonnell – domestig ac eraill (penodedig).*

Adroddiad blynyddol am faint y gwastraff sydd wedi'i gymhathu ar y safle a maint y gwastraff y cafwyd gwared arno y tu allan i'r safle.

- **Targed:** Bod rhaid cydymffurfio â chanllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd wrth drin a chymhathu pob math o wastraff ar y safle.

***Dangosydd:** Datganiad blynyddol am gydymffurfiaeth â chanllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd.*

Monitro: Meini prawf cyfrannol

3.78 Y targedau a dangosyddion ar gyfer monitro'r meini prawf cyfrannol yw:


- **Targed:** Bod yr ail ddefnydd o wastraff organig ar y safle'n cynyddu ffrwythlondeb a chynhyrchiant cyffredinol y safle ar yr amod na fydd hyn ar draul cynefinoedd lled-naturiol pwysig sy'n dibynnu ar bridd isel ei ffrwythlondeb.

***Dangosydd:** Wedi'i gynnwys yn yr adroddiad blynyddol am gymhathu gwastraff ar y safle (gweler uchod).*

Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol: Data angenrheidiol

Dim

Adeiladau di-garbon



Gofynion TAN 6

- Bod Datblygiadau Un Blaned yn batrymau enghreifftiol ar gyfer cyflawni nod Llywodraeth Cymru o ran datblygu di-garbon a'u bod yn sicrhau statws di-garbon yng nghyd-destun adeiladu a defnyddio'r datblygiad [4.19.1].
- Bod gwybodaeth ategol yn cael ei chyflwyno gyda cheisiadau cynllunio sy'n cadarnhau y bydd y datblygiad yn ddi-garbon o ran ei adeiladu a'i ddefnyddio [4.19.2].
- Bod cynlluniau'n cael eu monitro drwy broses yr adroddiad monitro blynyddol [4.19.2].

Amcanion

3.79 Mae'r adran hon yn ymwneud yn bennaf â chynigion ar gyfer adeiladau, eu hasesu, a sicrhau wedyn eu bod yn cael eu hadeiladu'n unol â'r hyn sydd wedi'i nodi. Mae gwybodaeth am y prif agweddau ar y defnydd o adeiladau yn yr elfennau ynni a dŵr a gwastraff yn y cynllun rheoli sydd wedi'u disgrifio uchod.

Datblygu di-garbon

3.80 Bydd pob Datblygiad Un Blaned yn cyfrannu at gyflawni'r nod sydd wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru o sicrhau datblygu sy'n 'ddi-garbon' o ran adeiladu a defnydd. Nid yw hyn yn golygu y bydd y datblygiad heb effeithiau net o ran carbon wrth ei ddatblygu a'i ddefnyddio, gan fod hyn yn anodd iawn ei gyflawni, os nad yn amhosibl. Yn hytrach, mae 'di-garbon' yn derm sy'n disgrifio gostyngiad penodedig mewn carbon a ddefnyddir i ddiffinio'r safon ar gyfer adeiladau 'di-garbon'.

3.81 Mae'r effeithiau o adeiladau o ran carbon yn codi o ddau faes sylfaenol:

- **adeiladu** – yr ynni sydd wedi'i ymgorffori mewn deunyddiau adeiladu a'r ynni a ddefnyddir wrth adeiladu
- **defnyddio** – 'allyriadau rheoledig' fel gwresogi, goleuo a choginio, ac 'allyriadau sydd heb eu rheoli' sy'n cynnwys pob defnydd arall o ynni, er enghraifft, i redeg offer.

3.82 Mae'r rhan fwyaf o ofynion y safon 'di-garbon' ar gyfer adeiladu wedi'u nodi yn y Cod Cartrefi Cynaliadwy ac maent wedi'u darparu ar gyfer y Rhan L ddiwygiedig o'r Rheoliadau Adeiladu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol bod Datblygiad Un Blaned yn cydymffurfio â'r safonau hyn, ond derbynnir y gallai eu cyflawni mewn ffyrdd gwahanol i'r rheini ar gyfer datblygiadau mwy 'confensiynol'. Y peth pwysig yw bod y perfformiad 'di-garbon' yn debyg yn gyffredinol wrth adeiladu a defnyddio'r datblygiad, nid sut y cyflawnir hynny. Yn achos Datblygiadau Un Blaned, mae'r gofynion 'di-garbon' yn ymwneud ag adeiladau domestig ac adeiladau atodol sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Adeiladu.

3.83 Yn ogystal â bod yn 'ddi-garbon' wrth ei adeiladu, mae hefyd yn bwysig bod y Datblygiad Un Blaned yn cael effaith gyffredinol fach ar yr amgylchedd wrth ei adeiladu. Oherwydd ei natur, bydd yr asesiad 'di-garbon' o ddeunyddiau adeiladu hefyd yn cynnwys effeithiau amgylcheddol eraill. Yn ogystal â hyn, dylai'r cynigion ar gyfer Datblygiad Un Blaned gynnwys esboniad byr o'r dulliau adeiladu a sut byddant yn lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd. Gallai hyn fod yn rhan o'r Dyluniad / Strategaeth (paragraffau 3.9 – 3.13).

Adeiladu Di-garbon – Y Cod Cartrefi Cynaliadwy

3.84 Rhaid i Ddatblygiadau Un Blaned gyfrannu at gyflawni nod y Cod Cartrefi Cynaliadwy o sicrhau bod cartrefi newydd mor gynaliadwy â phosibl wrth eu hadeiladu. Fodd bynnag, mae nifer o agweddau ar y Cod Cartrefi Cynaliadwy sydd heb fod yn addas i asesu cynaliadwyedd cyffredinol y cartrefi mewn Datblygiad Un Blaned, am fod y dulliau o'u hadeiladu'n rhai 'technoleg isel' yn aml ac am fod rhai elfennau o'u cynaliadwyedd yn deillio o'u lleoliad yng nghefn gwlad agored, dau amgylchiad sydd heb eu rhag-weld yn y Cod Cartrefi Cynaliadwy.

3.85 Mae'r cyfarwyddyd hwn yn asesu cynaliadwyedd Datblygiadau Un Blaned o bob safbwynt, ac felly yr unig safonau yn y Cod Cartrefi Cynaliadwy sy'n berthnasol wrth godi adeiladau Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored yw'r rhai yng Nghategori 3 – Deunyddiau. Y pump elfen mewn adeilad sydd wedi'u cynnwys yng Nghategori 3 yw:

- toeau
- waliau allanol
- waliau mewnol
- lloriau
- ffenestri

3.86 Ar gyfer cartref mewn Datblygiad Un Blaned, dylid sicrhau sgôr o A+ neu A⁶ ar gyfer o leiaf bedair o'r elfennau hyn, ar sail un o'r dulliau sgorio cydnabyddedig sydd wedi'u cyhoeddi⁷ neu drwy ddangos bod priodoleddau tebyg gan ddeunyddiau sydd heb sgôr gydnabyddedig. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio deunyddiau naturiol adnewyddadwy ar gyfer prif elfennau'r Datblygiad Un Blaned,

⁶ 'this is the equivalent of CSH Code 5/6 for the materials used in construction'

⁷ Er enghraifft, CSH Technical Guide neu BRE Green Guide to Specification

gan gynnwys inswleiddio.

3.87 Yn ogystal â hyn, rhaid cydymffurfio â'r gofyniad yn y Cod Cartrefi Cynaliadwy am gyrchu 80% o'r deunyddiau a aseswyd yn yr elfennau adeiladu hyn a'r elfennau gorffennu o ffynonellau cyfrifol, a rhaid cyrchu 100% o bren o ffynonellau cyfreithlon. Unwaith eto, os defnyddir deunyddiau ar gyfer Datblygiad Un Blaned sydd heb asesiad a gyhoeddwyd, rhaid dangos bod eu priodoleddau'n debyg.

3.88 Mae'n bosibl y bydd y deunyddiau a ddefnyddir mewn Datblygiad Un Blaned, a'r ffyrdd o'u defnyddio, yn weddol anarferol. Os felly, bydd ymgeiswyr am Ddatblygiadau Un Blaned yn gorfod dangos bod priodoleddau'r deunyddiau hyn yn debyg (neu'n well) na'r rheini sydd wedi'u cynnwys yng Nghategori 3. Rhai enghreifftiau o ddeunyddiau llai cyffredin sy'n fach eu heffaith yw pren a mwynau sydd wedi'u cyrchu a'u prosesu ar y safle, a deunyddiau eildro. Os defnyddir deunyddiau sy'n neilltuo o newydd neu anarferol, bydd angen dangos hefyd fod y defnydd arfaethedig ohonynt yn ymarferol ac yn gyflawnadwy.

Defnyddio Di-garbon

3.89 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi diffiniad o ddefnydd di-garbon ar gyfer adeiladau yng Nghymru.

3.90 Rhaid cyrraedd y safon hon ar gyfer pob adeilad mewn Datblygiad Un Blaned sy'n ddarostyngedig i reoliadau adeiladu, er y gellir gwneud hyn mewn ffordd wahanol i'r hyn a welir mewn adeiladau mwy confensiynol. Un enghraifft bwysig o hyn yw'r posibilrwydd na ddefnyddir llawer o ynni mewn adeiladau mewn Datblygiad Un Blaned, am eu bod yn fach neu'n syml a'u cyfleusterau'n gyfyngedig. Bydd ymgeiswyr am Ddatblygiad Un Blaned yn gorfod dangos bod eu hadeiladau'n cyrraedd neu'n rhagori ar y safon ddi-garbon bresennol, ym mha ffordd bynnag. Mae TAN22 – Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy yn argymhell dull o leihau allyriadau carbon o ddatblygiadau newydd yng Nghymru sydd wedi'i seilio ar hierarchaeth ynni, a gallai fod yn fuddiol cyfeirio at hyn yng nghyswllt adeiladau mewn Datblygiad Un Blaned.

Rheoliadau Adeiladu

3.91 Mae Rheoliadau Adeiladu yn faes rheolaeth ar wahân i gynllunio. Y Rheoliadau Adeiladu eu hunain sy'n pennu a oes angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar gyfer adeiladau ac mae hyn yn fater technegol / cyfreithiol sy'n ymwneud yn y bôn â natur a dosbarthiadau adeiladweithiau, gan gynnwys anheddau. Mae ystod gyfyngedig o fathau o adeiladau nad ydynt yn ddarostyngedig i Reoliadau Adeiladu, ac mae hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o adeiladau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu amaethyddol a garddwriaethol.

3.92 Rhaid i ymgeiswyr am Ddatblygiad Un Blaned bennu pa adeiladweithiau yn eu cynigion sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Adeiladu. Gall yr awdurdod cynllunio lleol eu helpu i wneud hyn. Dylid ceisio gwneud hyn cyn neu yn ystod y trafodaethau cyn ymgeisio (paragraff 1.14).

3.93 Gall ymgeiswyr am Ddatblygiad Un Blaned gynnig anheddau ac adeiladweithiau eraill mewn ffurfiau nad oes angen cymeradwyaeth Rheoliadau

Adeiladu ar eu cyfer, er enghraifft, rhai sy'n gyson â'r diffiniad o garafan neu adeiladwaith dros dro arall. Dylid cyfiawnhau'r mathau o adeiladwaith drwy ddangos eu bod yn addas i'w diben a bod eu heffaith ar yr amgylchedd yn llai. Bydd angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar gyfer rhai adeiladweithiau ond nid ar gyfer eraill.

3.94 Os yw adeilad mewn Datblygiad Un Blaned sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Adeiladu, rhaid bodloni gofynion y Rheoliadau. Yn yr un modd â phob adeilad sy'n destun Rheoliadau Adeiladu, mae gwahanol ffyrdd o fodloni'r gofynion. Mae cyngor mwy manwl yn y Dogfennau Cymeradwy ynghylch sut y gellid gwneud hyn, ond ni fydd pob cyngor yn berthnasol i Ddatblygiadau Un Blaned am eu bod yn aml yn defnyddio dulliau adeiladu 'technoleg isel' ac yn arloesi drwy ddefnyddio deunyddiau newydd neu anarferol. Mewn achosion o'r fath, y brif ystyriaeth fydd a yw gofynion y Rheoliadau wedi'u bodloni beth bynnag.

Y gallu i'w symud ymaith gan beri effeithiau bach ar yr amgylchedd

3.95 Rhaid cynnwys Strategaeth Ymadael mewn Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored (paragraff 5.11 – 5.16). Mae'r gofyniad hwn wedi'i seilio ar ddealltwriaeth y bydd y rhan fwyaf neu'r cwbl o'r adeiladau'n cael eu symud o'r safle os bydd y datblygiad yn methu neu'n dod i ben fel arall. Mae'n dechnegol bosibl symud bron pob adeilad (hyd yn oed rhai sydd â dyluniad safonol), ond yr hyn sy'n bwysig ar gyfer Datblygiadau Un Blaned yw bod modd eu symud gan beri effeithiau bach ar yr amgylchedd.

3.96 Gellir sicrhau hyn drwy ddefnyddio:

- adeiladau y gellir eu tynnu o'u lle neu eu cludo
- adeiladau y gellir eu datgymalu'n rhwydd a'u symud yn ddarnau oddi ar y safle
- deunyddiau adeiladu naturiol diraddadwy y gellir eu cyrchu'n lleol neu ar y safle, fel pridd cywasgedig neu bren i adeiladu waliau, y gellir eu dychwelyd i'r safle yn ystod y gwaith o dynnu'r adeilad.

3.97 Os yw adeiladwaith wedi'i enwi yn y Strategaeth Ymadael fel un sydd i'w symud, dylid nodi sut y gellir gwneud hynny gan beri effeithiau bach ar yr amgylchedd.

3.98 Yn gyffredinol, dylai ymgeiswyr ddylunio adeiladau mewn Datblygiad Un Blaned yn y ffordd sy'n fwyaf addas i'w cynigion, gan leihau allyriadau carbon ac effeithiau ar yr amgylchedd, a sicrhau eu bod mor gynaliadwy â phosibl drwy hynny. Bydd y ffordd o wneud hyn yn amrywio o safle i safle ac yn dibynnu ar natur yr adeilad(au) sydd wedi'u cynnig.

3.99 Yr hyn sy'n bwysig yw:

- bod perfformiad yr adeiladau o ran yr amgylchedd yn uchel
- bod Rheoliadau Adeiladu wedi'u bodloni lle maent yn gymwys
- fel rhan o'r Strategaeth Ymadael, fod modd symud yr holl adeiladau gan beri effeithiau bach ar yr amgylchedd.

Adeiladau presennol

3.100 Yn ogystal â hyn, gellir lleihau effaith amgylcheddol y datblygiad yn sylweddol drwy ailddefnyddio adeiladau presennol ar y safle, fel na fydd angen codi adeiladau newydd. Er hynny, mae'n bosibl y byddai mwy o effaith ar yr amgylchedd drwy wneud y gwaith adeiladu / addasu angenrheidiol i ailddefnyddio'r adeiladau nag y byddai wrth godi adeiladau newydd, neu y byddai'n amhosibl sicrhau effeithiau bach ar yr amgylchedd wrth ddefnyddio adeiladau o'r fath heb wario'n ormodol arnynt.

3.101 Os oes gwerth neilltuol mewn adeiladau presennol yng nghyd-destun y dirwedd neu dreftadaeth, gall fod yn dderbyniol eu hailddefnyddio mewn Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored hyd yn oed os na ellir sicrhau'r un perfformiad amgylcheddol ag adeiladau newydd o ran adeiladu a defnyddio. Mewn achosion eraill lle y gellir dewis rhwng nifer o adeiladau ar gyfer eu hailddefnyddio, dylid dewis yr adeiladau hynny a gaiff yr effeithiau lleiaf ar yr amgylchedd wrth eu haddasu a'u defnyddio, gan ystyried yr 'arbedion' amgylcheddol o ailddefnyddio ac anghenion cyffredinol y datblygiad. Os yw adeiladau presennol yn ddiolwg neu fod eu heffaith ar y dirwedd leol yn negyddol oherwydd eu lleoliad, gallai'r manteision o'u symud fod yn fwy na'r manteision o'u hailddefnyddio.

Cydrannau

Domestig

3.102 Mae hyn yn cynnwys yr holl anheddau a llety preswyl arall sy'n gysylltiedig â chynigion ar gyfer Datblygiad Un Blaned. Dylai'r rhain fodloni'r safon 'di-garbon' ar gyfer adeiladu a defnyddio.

3.103 Cofiwch y bydd yr effaith amgylcheddol o ddefnyddio adeiladau domestig yn cael ei hasesu yn y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolgol (Pennod 4) a hefyd o dan yr elfennau ynni a dŵr a gwastraff yn y cynllun rheoli.

Atodol

3.104 Mae hyn yn cynnwys yr holl adeiladau sydd heb ddefnydd preswyl ond sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Adeiladu. Dylai'r rhain fodloni'r safon 'di-garbon' ar gyfer adeiladu a defnyddio, ond bydd y ffordd o gyflawni hyn yn amrywio yn ôl y defnydd o'r adeilad. Unwaith eto, bydd yr effaith amgylcheddol o ddefnyddio'r adeiladau atodol yn cael ei hasesu o dan yr elfennau ynni a dŵr a gwastraff yn y cynllun rheoli, ond nid yn y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolgol (sy'n ymwneud ag anheddau). Er hynny, mae'n bosibl y bydd angen ystyried y defnydd o'r adeiladau atodol hyn o dan 'Ôl Traed Eraill' (4.24 – 4.25).

Meini prawf hanfodol

3.105 Y meini prawf hanfodol yw:

- Bod adeiladau domestig ac atodol yn bodloni'r safon 'di-garbon' ar gyfer adeiladu a defnyddio sydd wedi'i hegluro yn y cyfarwyddyd hwn ac sy'n dilyn y diffiniad diweddaraf o'r safon 'di-garbon' gan Lywodraeth Cymru.
- Bod cynigion yn enwi'r adeiladweithiau y mae angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar eu cyfer ac y sicrhau'r gymeradwyaeth hon cyn neu

yn ystod y gwaith adeiladu.

- Bod yr holl adeiladweithiau sydd wedi'u henwi'n rhai sydd i'w symud yn y Strategaeth Ymadael yn rhai y gellir eu symud gan beri effeithiau bach ar yr amgylchedd.

Meini prawf cyfrannol

3.106 Y meini prawf cyfrannol yw:

- Bod cymaint â phosibl o ddeunyddiau eildro yn cael eu defnyddio wrth godi adeiladau ar yr amod na fydd hyn yn effeithio ar eu gallu i fodloni'r meini prawf hanfodol.
- Bod adeiladau presennol yn cael eu hailddefnyddio os byddai hyn yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd yn gyffredinol nag adeiladau newydd, neu os oes gwerth neilltuol ynddynt yng nghyd-destun y dirwedd neu dreftadaeth, ar yr amod nad ydynt yn ddiolwg neu'n negyddol eu heffaith ar y dirwedd o'u cwrmpas.

Annedd Lai Ei Charbon: Enghraifft ar Blackthorn Farm, West Dorset

Annedd â ffrâm bren yw hon sydd â systemau nad ydynt ar y grid. Mae'n sefyll ar bileri ac mae ganddi sylfeini pren. Mae wedi'i hinswleiddio â gwlân ac mae'n wynebu'r cyfeiriad cywir er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o olau naturiol, ac wedi'i chysgodi yr un pryd rhag gwres yr haf gan feranda. Mae systemau ffotofoltäig yn diwallu'r holl anghenion am drydan. Defnyddir stôf llosgi coed i goginio, i wresogi'r tŷ, ac i ddarparu dŵr poeth yn y gaeaf. Yn yr haf ceir dŵr poeth o baneli solar thermol sydd wedi'u gosod ar y to. Mae toiled compostio y tu mewn i'r tŷ. Cesglir dŵr glaw oddi ar y toeau i ddyfrhau cnydau fel bod llai o lawer o ddefnydd o ddŵr o'r prif gyflenwad. Mae effaith weledol y tŷ yn llai oherwydd ei do tyweirch a'r coed naturiol lleol a ddefnyddiwyd i'w adeiladu.



Deunyddiau diraddadwy naturiol

Drwy ddefnyddio deunyddiau diraddadwy naturiol ar gyfer y prif elfennau mewn adeiladau mewn Datblygiad Un Blaned, gellir symud y datblygiad drwy waith dymchwel syml ac ailgymhathu'r deunyddiau hyn ar y safle. Rhai enghreifftiau o hyn yw defnyddio waliau o fêls gwellt neu bridd cywasgedig ynghyd â phreniau crwn â thoriad bach a gwlân defaid neu ffibr coed ar gyfer inswleiddio.

Adeiladweithiau nad oes angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar eu cyfer

Mae'n bosibl na fydd angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar gyfer adeiladweithiau penodol, er enghraifft, rhai sy'n gyson â'r diffiniad o garafan yn y ddeddfwriaeth berthnasol, pebyll neu adeiladweithiau canfas eraill, neu gyfleusterau symudol. Drwy eu defnyddio, gallai effaith y datblygiad arfaethedig ar y safle fod yn llai o lawer, gallent fod yn fwy economaidd o ran eu gosod neu'n fwy hyblyg ar gyfer datblygu pellach yn y dyfodol. Dylai adeiladweithiau o'r fath fod yn gyson ag ethos cyffredinol Datblygiadau Un Blaned ac ni ddylid eu defnyddio dim ond er mwyn osgoi'r angen am gymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu.

Y Cod Cartrefi Cynaliadwy – elfennau sy'n anaddas ar gyfer Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored

Y prif reswm dros beidio ag asesu Datblygiadau Un Blaned o dan y Cod Cartrefi Cynaliadwy yw bod rhai o elfennau'r Cod yn anghydnaws ag agweddau pwysig ar Ddatblygiadau Un Blaned, oherwydd materion technegol ac am nad yw anheddau mewn Datblygiad Un Blaned yn sefyll ar wahân gan eu bod wedi'u hintegreiddio â'r safle. Ymhlith y gwahaniaethau hyn y mae:

- agweddau ar systemau ynni nad ydynt ar y grid
- diffyg cysylltiadau TGCh
- diffyg ardystio ar gyfer deunyddiau adeiladu a gaiff eu cyrchu o'r safle neu eu hailgylchu
- allyriadau drwy ddefnyddio coed o'r safle'n brif danwydd
- defnyddio toiledau allanol
- diffyg statws Adeiladwyr Ystyriol
- diffyg statws Diogelu drwy Ddylunio
- pellter oddi wrth wasanaethau lleol a systemau trafnidiaeth am eu bod yng nghefn gwlad agored.

Y pwynt hanfodol yma yw bod y polisi Datblygiadau Un Blaned yn hyrwyddo atebion cynaliadwy ar gyfer datblygu gwledig nad yw'r Cod wedi'u rhag-weld gan ei fod yn canolbwyntio ar dai 'confensiynol, nid ar Ddatblygiadau Un Blaned.

Effaith Weledol

Yn gyffredinol, bydd Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored yn gwella'r dirwedd y mae'n rhan ohoni. Yn achos adeiladau, gall hyn fod yn gydnaws â'r angen i elwa o ddefnyddio deunyddiau naturiol adnewyddadwy sydd ag ynni ymgorfforedig isel, gan fod toeau glas, waliau pridd, pren sydd heb ei brosesu a chysgod pridd i gyd yn gallu cyfrannu at leihau effaith weledol datblygiadau adeiledig, a chadw neu wella nodweddion naturiol y safle.

Monitro: Meini prawf hanfodol

3.107 Y targedau a dangosyddion ar gyfer monitro'r meini prawf hanfodol yw:

- **Targed:** Bod adeiladau domestig ac atodol yn bodloni'r safon 'di-garbon' ar gyfer adeiladu a defnyddio.

Dangosyddion: Sicrhau asesiad ‘di-garbon’ o ran adeiladu ar gyfer yr holl adeiladau y mae angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar eu cyfer yn unol â’r disgrifiad yn y cyfarwyddyd hwn

Sicrhau asesiad ‘di-garbon’ o ran defnyddio ar gyfer yr holl adeiladau y mae angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar eu cyfer yn unol â’r disgrifiad yn y cyfarwyddyd hwn

- **Targed:** Bod adeiladweithiau y mae angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar eu cyfer yn cael y gymeradwyaeth honno.

Dangosyddion: Bod yr holl adeiladweithiau y mae angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar eu cyfer wedi’u nodi yn y cynigion.

Bod y gymeradwyaeth hon wedi’i sicrhau cyn neu yn ystod y gwaith adeiladu.

- **Targed:** Bod yr holl adeiladweithiau sydd wedi’u henwi fel rhai i’w symud yn y Strategaeth Ymadael yn rhai y gellir eu symud gan beri effeithiau bach ar yr amgylchedd.

Dangosyddion: Manyleb ynghylch sut y gellir symud pob adeiladwaith sydd wedi’i enwi yn y Strategaeth Ymadael fel un sydd i’w symud gan beri effeithiau bach ar yr amgylchedd.

Monitro: Meini prawf cyfrannol

3.108 Y targedau a dangosyddion ar gyfer monitro’r meini prawf cyfrannol yw:

- **Targed:** Bod cymaint â phosibl o ddeunyddiau eildro yn cael eu defnyddio wrth godi adeiladweithiau ar yr amod na fydd hyn yn effeithio ar eu gallu i fodloni’r meini prawf hanfodol.

Dangosydd: Crynodeb manwl o’r defnydd o ddeunyddiau eildro wrth godi adeiladweithiau.

- **Targed:** Bod adeiladau presennol yn cael eu hailddefnyddio os byddai hyn yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd yn gyffredinol nag adeiladau newydd, neu os oes gwerth neilltuol ynddynt yng nghyd-destun y dirwedd neu dreftadaeth, ar yr amod nad ydynt yn ddiolwg neu’n negyddol eu heffaith ar y dirwedd o’u cwrpas

Dangosydd: Datganiad esboniadol am aildddefnyddio unrhyw adeiladau presennol.

Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol: Data angenrheidiol


3.109 Y data i’w casglu ar gyfer y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol yw:

- Arwynebedd ôl troed yr adeiladau preswyl.
- Costau cyfalaf y deunyddiau a brynwyd i’w hadeiladu.

Ôl Traed Eraill: Data angenrheidiol

- Arwynebedd ôl troed yr adeiladau atodol
- Costau cyfalaf y deunyddiau a brynwyd i’w hadeiladu.

Asesiad Effaith Cymunedol



Gofynion TAN 6

- Nodi'r effeithiau posibl (cadarnhaol a negyddol) ar y gymuned sy'n cynnwys y datblygiad a phennu a gweithredu unrhyw fesurau lliniaru a allai fod yn angenrheidiol [4.16.1 a 4.21.1]

Amcanion

3.110 Ni fydd Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored yn cael effaith negyddol ar gymunedau cyfagos. Dylid hybu effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol. Dylid asesu holl effeithiau tebygol y cynigion am Ddatblygiad Un Blaned ar y gymuned leol.

Cydrannau

Cymdeithasol

3.111 Gall Datblygiad Un Blaned gyfrannu i gymunedau presennol drwy bresenoldeb plant mewn ysgolion lleol, cefnogaeth gan breswylwyr i grwpiau, clybiau a digwyddiadau lleol ac yn y blaen. Hefyd gallant gynnig cyfleoedd cymdeithasol i gymunedau lleol fel diwrnodau agored, llwybrau troed a mathau eraill o fynediad, a thrwy gynnal digwyddiadau lleol.

Economaidd

3.112 Mae preswylwyr Datblygiadau Un Blaned a'u hymwelwyr yn gallu cefnogi'r economi leol drwy siopa yn yr ardal leol a defnyddio busnesau lleol eraill. Hefyd gallant gyfrannu i'r economi leol drwy werthu bwyd a chynnyrch arall, ond gallent gael effaith negyddol os byddant yn cystadlu'n uniongyrchol â chynhyrchwyr lleol presennol. Gellir cael effeithiau cadarnhaol uniongyrchol ar Ôl Traed Ecolegol preswylwyr y cymunedau hyn drwy werthu bwyd a thanwydd i gymunedau lleol. Nid yw'n ymarferol mesur 'gwrthbwyso' o'r fath ond, er hynny, fe ddylid ei ystyried yn y datganiad am yr Ôl Troed Ecolegol cyfan (mae mwy o wybodaeth am hyn ym mharagraff 2.11 ac ym Phennod 4).

Effeithiau ar y gymuned

Blwch 12

Mae'r effeithiau cadarnhaol a negyddol o Ddatblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored ar y gymuned yn gallu amrywio'n fawr yn ôl y berthynas rhwng lleoliad y Datblygiad Un Blaned a'r gymuned. Os yw Datblygiad Un Blaned yn gymharol bell oddi wrth aneddiadau, bydd y ddau fath o effaith yn llai, yn ôl pob tebyg. Fodd bynnag, os yw Datblygiad Un Blaned yn agos neu'n gyfagos i anheddiad presennol, mae effeithiau'n sicr o godi ac mae'n hanfodol cynllunio er mwyn mwylhau effeithiau cadarnhaol a lleihau effeithiau negyddol wrth benderfynu ar ddyluniad a manylion y cynigion am Ddatblygiad Un Blaned. Os yw Datblygiad Un Blaned yn gyfagos i anheddiad presennol, ac os bydd yn dod yn rhan ohono i bob pwrpas, dylid cynnwys y gymuned bresennol yn y broses o lunio'r cynigion.

Meini prawf hanfodol

3.113 Y meini prawf hanfodol yw:

- Y bydd asesiad trwyadl o holl effeithiau'r cynigion ar gymunedau cyfagos. Ni ddylai Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored gael effaith negyddol ar gymunedau cyfagos.
- Bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru.

Meini prawf cyfrannol

3.114 Y meini prawf cyfrannol yw:

- Bod plant Datblygiadau Un Blaned yn mynychu ysgolion lleol a'u preswylwyr yn cefnogi grwpiau, clybiau a digwyddiadau lleol.
- Bod diwrnodau agored, llwybrau troed caniataol a mathau eraill o fynediad ar y safle a bod digwyddiadau lleol yn cael eu cynnal ar y safle.
- Bod preswylwyr yn siopa yn yr ardal leol ac yn defnyddio busnesau lleol eraill.
- Bod preswylwyr yn gwerthu bwyd a chynnyrch arall yn lleol.

Monitro: Meini prawf hanfodol

3.115 Y targedau a dangosyddion ar gyfer monitro'r meini prawf hanfodol yw:

- **Targed:** Bod effeithiau ar y gymuned wedi'u hasesu'n drwyadl a bod mesurau ar waith i liniaru unrhyw effeithiau negyddol.

Dangosyddion: *Monitro effeithiau ar y gymuned yn flynyddol.*

Rhoi mesurau lliniaru ar waith i ddelio ag unrhyw effeithiau negyddol.

Monitro: Meini prawf cyfrannol

3.116 Y targedau a dangosyddion ar gyfer monitro'r meini prawf cyfrannol yw:

- **Targed:** Bod yr holl effeithiau cadarnhaol ar y gymuned yn cael eu hybu a'u

cofnodi.

Dangosydd: Bod yr holl effeithiau cadarnhaol ar y gymuned wedi'u hybu a'u cofnodi.

Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol: Data angenrheidiol

Dim.

Ôl Traed Eraill: Data angenrheidiol

3.117 Y data i'w casglu i bennu Ôl Traed Eraill yw:

- maint / gwerth y bwyd lleol sydd wedi'i ddefnyddio'n lleol.
- maint / gwerth y cynnyrch arall a dyfwyd gan gynnwys tanwydd i'w ddefnyddio'n lleol.



Ar Fivepenny Farm, Dorset mae ysgubor brosesu sy'n eiddo i fenter gydweithredol y Peasant Evolution Producers' Co-Operative. Mae'n cynnwys cegin, ystafell dorri, llaethdy, gwasg afalau, seler ar gyfer cadw seidr, storfeydd, man pacio cynnyrch ac ystafell fawr ar gyfer disgwyddiadau. Mae'r ysgubor a'r fenter gydweithredol wedi rhoi hwb a phwrpas newydd i'r rhwydwaith o fusnesau cynhyrchu cynaliadwy bach yn yr ardal.



Lammas, sir Benfro: Mae'r adeilad cymunedol yn agos at ei gwblhau a bydd yn fan cyfarfod i'r gymuned ac ar gyfer digwyddiadau i'r ardal leol. Mae wedi'i wneud yn bennaf o goed a cherrig a gyrchwyd yn lleol, ac mae'n cynnwys systemau ynni adnewyddadwy ar gyfer trydan a gwresogi.

Asesiad trafnidiaeth a chynllun teithio



Gofynion TAN 6:

- Dylid darparu asesiad gyda'r ceisiadau cynllunio o'r traffig a gaiff ei greu drwy ddefnyddio'r safle gan breswylwyr ac ymwelwyr [4.22.1]
- Dylai'r cynllun teithio sy'n cyd-fynd â'r cais cynllunio nodi dewis clir o blaid moddau trafnidiaeth carbon isel neu ddi-garbon, gan gynnwys cerdded, beicio a chynlluniau rhannu ceir [4.22.1].

Amcanion

3.118 Mae pob datblygiad yn creu symudiadau trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â phobl sy'n byw ar y safle neu bobl a nwyddau sy'n dod i'r safle. Bydd Datblygiadau Un Blaned yn ceisio lleihau'r effeithiau o dtrafnidiaeth ar yr amgylchedd yn sylweddol drwy leihau'r angen i deithio a hefyd drwy ffafrio moddau trafnidiaeth carbon isel.

Cydrannau

3.119 Bydd tri math o weithgarwch ar y safle yn creu symudiadau trafnidiaeth: gweithgarwch preswylwyr, gweithgarwch mentrau ar y safle a gweithgarwch ymwelwyr.

Preswylwyr

3.120 Yr amcan yw y bydd Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored yn hunangynhaliol gan mwyaf, fel y bydd llai o angen o lawer i breswylwyr deithio y tu allan i'r safle, a dod â nwyddau o bob math i'r safle. Yn benodol, bydd nifer y teithiau cymudo'n isel neu'n ddim.

3.121 Hefyd gall preswylwyr Datblygiadau Un Blaned gymryd camau rhagweithiol i leihau effeithiau trafnidiaeth, drwy gyfyngu nifer y cerbydau, er enghraifft, neu rannu cerbydau, ffafrio moddau trafnidiaeth carbon isel a di-garbon, defnyddio gwasanaethau dosbarthu yn hytrach na theithio at gyflenwyr, a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus os yw'n bosibl.

3.122 Os na fydd preswylwyr yn lleihau eu defnydd o dtrafnidiaeth carbon uchel, bydd hyn yn effeithio ar eu Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol yn y pen draw, ac yn peri ei bod yn llawer mwy anodd sicrhau Ôl Troed Ecolegol bach.

Mentrau

3.123 Bydd mentrau ar y safle yn creu symudiadau trafndiaeth a fydd yn cynnwys, er enghraifft, teithiau lleol i ddosbarthu cynnyrch drwy gynllun blychau, derbyn nwyddau a chyflenwadau o'r tu allan i'r safle, a danfon nwyddau fel bwydydd wedi'u prosesu neu eitemau o grefftwaith i leoliadau mwy pellennig. Mae angen rhoi cyfrif am bob un o'r symudiadau trafndiaeth hyn, oherwydd gallai rhai ohonynt gynyddu effaith y safle o ran trafndiaeth yn sylweddol. Os yw mentrau wedi ymwreiddio yn yr economi leol, bydd eu heffeithiau o ran trafndiaeth yn llai fel arfer.

Ymwelwyr

3.124 Mae tair elfen bwysig yn y drafnidiaeth sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr: nifer y teithiau, y moddau trafndiaeth a ddefnyddiwyd, a'r pellter a deithiwyd i'r safle. Efallai y bydd ysgolion lleol yn ymweld â safleoedd yn rheolaidd. Gallai safleoedd drefnu cyrsiau sy'n denu pobl o lawer o fannau gwahanol. Gallai ymwelwyr alw heibio'n gyson, neu ar ddiwrnodau agored penodedig yn unig. Mae angen rhoi cyfrif am yr holl ymwelwyr, oherwydd gallai rhai ohonynt gynyddu effaith y safle o ran trafndiaeth yn sylweddol a bydd hyn yn cael ei ystyried wrth asesu'r Ôl Troed Ecolegol cyfan.

Asesiadau Trafndiaeth

3.125 Asesiadau Trafndiaeth sy'n rhoi'r wybodaeth i asesu a yw cais yn addas o ran y galw am deithio a'i effaith. Fel arfer byddant yn ofynnol ar gyfer cynlluniau cymharol fawr yn unig, fel datblygiadau o fwy na 100 o dai, siopau mawr newydd, ffatrioedd neu ysgolion. Anaml y ceir Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored o'r maint hwn ond, beth bynnag fo'u maint, bydd asesiad trafndiaeth yn ofynnol am fod disgwyl y bydd eu heffaith o ran trafndiaeth yn llai o lawer, ac mae angen asesu hyn.

3.126 Dylai'r Asesiad Trafndiaeth gynnwys pob symudiad trafndiaeth sy'n debygol o gael ei greu gan y tri math o weithgarwch ar y safle. Ar gyfer pob elfen, dylid nodi dibenion, pellteroedd, moddau ac unrhyw drefniadau rhannu trafndiaeth ar gyfer y teithiau a grëwyd.

3.127 Mae arweiniad pellach ar Asesiadau Trafndiaeth yn TAN 18. Mae'r arweiniad wedi'i addasu yma ar gyfer Datblygiadau Un Blaned a'u graddfa lai. Dylid cynnwys y canlynol mewn asesiadau trafndiaeth ar gyfer Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored:

- **Llinell sylfaen trafndiaeth** sy'n cynnwys llinell sylfaen y safle (a gasglwyd ar gyfer llinell sylfaen gyffredinol y datblygiad) ac yn disgrifio'r traffig y mae'r safle'n ei greu ar hyn o bryd cyn gweithredu ar gynigion y Datblygiad Un Blaned, a chysylltiadau trafndiaeth y safle, er enghraifft, ei gysylltiadau â llwybrau bysiau.
- **Disgrifiad** o'r elfennau yng nghynigion y Datblygiad Un Blaned sy'n creu trafndiaeth.
- **Gwerthusiad** o effeithiau'r cynigion ar drafnidiaeth, gan gynnwys nifer y teithiau, hygyrchedd drwy foddau trafndiaeth gwahanol (e.e. trafndiaeth gyhoeddus), maint y dalgylch tebygol, a rhagolwg o'r niferoedd a fydd yn

defnyddio pob modd trafnidiaeth. Gellir defnyddio gwybodaeth o'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol ar gyfer preswylwyr ar adeg meddiannu'r datblygiad am y tro cyntaf.

- **Strategaeth** ar gyfer lleihau a lliniaru effeithiau trafnidiaeth gan gynnwys rheolaethau arfaethedig drwy amodau neu rwymedigaethau, a manylion ar gyfer monitro, gan gynnwys monitro gweithgareddau preswylwyr drwy'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol.

3.128 Os yw datblygiad yn un a fydd yn 'edrych tuag allan' gan ddarparu gweithgareddau ar y safle sy'n creu neu'n denu nifer sylweddol o deithiau, dylid ei leoli'n ddigon agos i drefi neu bentrefi mwy fel y bydd yn hybu cysylltiadau trafnidiaeth carbon isel a di-garbon â'r rhain a / neu fynediad rhwydd i lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus, er mwyn lleihau effeithiau trafnidiaeth.

Cynlluniau Teithio

3.129 Dylid egluro sut bydd strategaeth yr asesiad trafnidiaeth ar gyfer y safle yn cael ei chyflawni mewn Cynllun Teithio byr – chwaer-ddogfen i'r Asesiad Trafnidiaeth. Mae Cynlluniau Teithio wedi'u defnyddio'n bennaf i leihau teithio mewn ceir sy'n gysylltiedig â datblygiadau mwy. Yn achos Datblygiadau Un Blaned dylent ddangos sut y gwneir y defnydd mwyaf posibl o foddau heblaw ceir a sut bydd effeithiau trafnidiaeth cyffredinol y safle yn cael eu lleihau.

3.130 Gellir cyfuno'r Asesiad Trafnidiaeth a'r Cynllun Teithio mewn un ddogfen.

Enghreifftiau o gynlluniau teithio

Blwch 13

Nid oedd anheddiad **Findhorn** yn yr Alban wedi'i sefydlu'n Ddatblygiad Un Blaned o friad ond mae'n dangos sut y gellir lleihau effeithiau trafnidiaeth unigolion drwy fyw mewn cymuned sy'n ymwybodol o ecoleg. Mewn asesiad o Ôl Troed Ecolegol cymuned Findhorn yn 2006, a oedd yn cynnwys 58 o blith tua 300 o breswylwyr, cafwyd bod y teithiau y pen mewn ceir yn ddim ond 6% o'r cyfartaledd yn yr Alban. O'r Ôl Troed Ecolegol cyfan o 2.71gha, roedd 0.37gha yn deillio o drafnidiaeth – 37% o'r cyfartaledd yn yr Alban (er bod preswylwyr Findhorn yn fwy tebygol o deithio mewn awyren ac yn llai tebygol o ddefnyddio moddau trafnidiaeth eraill sy'n rhedeg ar danwydd). Mae ôl traed y teithiau gan ymwelwyr i'r safle yn ychwanegu tua 0.75gha y pen.

Mae Cynllun Rheoli Traffig manwl yn gysylltiedig â'r cynllun rheoli ar gyfer datblygiad **Lammas** (cymuned Datblygiad Un Blaned a gynlluniwyd). Mae'n cynnig mesurau i leihau traffig sy'n cynnwys:

- Gofyniad i breswylwyr rannu cerbydau
- Bws mini'r Gymdeithas sy'n cysylltu'r datblygiad â threfi lleol
- Mae'r bws mini ar gael hefyd ar gyfer teithiau ychwanegol / cyfleoedd untro
- Cydgysylltu'r holl ddanfoniadau i mewn ac allan o'r safle
- Cynnig cymhellion ariannol i annog ymwelwyr i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus
- Monitro ac adolygu'r holl draffig yn flynyddol.

Yn ystod 2010, y flwyddyn gyntaf a gafodd ei monitro, codwyd £200 ar breswylwyr am redeg cerbydau o'r safle, a chafwyd 9,200 o deithiau i mewn ac allan o'r safle o'i gymharu â'r terfyn uchaf o 25,200 a osodwyd yn y Cynllun Rheoli Traffig ar gyfer y flwyddyn gyntaf a 17,800 ar ôl hynny. Mae teclyn cyfrif traffig wedi'i osod wrth fynedfa'r safle bellach.

Ôl troed cyfartalog preswylwyr y safle o ganlyniad i drafnidiaeth oedd 0.07gha.

Meini prawf hanfodol

3.131 Y meini prawf hanfodol yw:

- Bod Asesiad Trafnidiaeth a Chynllun Teithio wedi'u darparu gyda'r cynllun rheoli (gellir eu cyfuno mewn un ddogfen).
- Bod y datblygiad yn sicrhau gostyngiad sylweddol yn effeithiau trafndiaeth o'r holl weithgareddau ar y safle (preswylwyr, mentrau ac ymwelwyr) o'i gymharu â'r 'norm' ar gyfer gweithgareddau o'r fath.
- Bod yr holl deithiau i mewn ac allan o'r safle'n cael eu monitro'n fanwl o ran dibenion, pellteroedd, moddau trafndiaeth, ac unrhyw gynlluniau i rannu trafndiaeth.

Meini prawf cyfrannol

3.132 Y meini prawf cyfrannol yw:

- Y dylid sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o foddau trafndiaeth carbon isel a di-carbon.
- Bod nifer y cerbydau ar y safle'n cael ei reoli a bod cronfa gerbydau ar gyfer Datblygiadau Un Blaned os oes mwy nag un aelwyd.
- Y dylid gwneud y defnydd mwyaf posibl o gysylltiadau rhwng y safle a chyflenwyr a chwsmeriaid nwyddau a gwasanaethau sy'n galw am deithio yn yr ardal leol yn hytrach na rhai sy'n bellach i ffwrdd.
- Bod teithiau ymwelwyr yn cael eu rheoli'n rhagweithiol er mwyn lleihau effeithiau trafndiaeth.

Monitro

3.133 Dylid monitro'r holl deithiau i mewn ac allan o'r safle'n fanwl, gan gynnwys yr holl weithgareddau ar y safle. Dylid defnyddio canlyniadau monitro i wella mesurau ar gyfer lleihau effeithiau trafndiaeth. Bydd monitro'n hanfodol yn y tymor hwy er mwyn gweld a yw'r mesurau'n gweithio.

Monitro: Meini prawf hanfodol

3.134 Y targedau a dangosyddion ar gyfer monitro'r meini prawf hanfodol yw:

- **Targed:** Bod gostyngiad sylweddol yn effeithiau trafndiaeth yr holl weithgareddau ar y safle o'i gymharu â lefelau 'nodweddiadol' ar gyfer nifer y meddianwyr a'r gweithgareddau ar y safle.

***Dangosyddion:** Monitro blynyddol o'r holl deithiau i mewn ac allan o'r safle yn ôl eu diben, pellter, modd trafndiaeth, ac unrhyw gynllun i rannu trafndiaeth.*

Asesiad blynyddol o effeithiau trafndiaeth y safle ar sail Strategaeth yr Asesiad Trafnidiaeth a'r Cynllun Teithio.

Monitro: Meini prawf cyfrannol

Y targedau a dangosyddion ar gyfer monitro'r meini prawf cyfrannol yw:

- **Targed:** Bod y defnydd mwyaf posibl o foddau trafndiaeth carbon isel a di-garbon.
Dangosydd: Monitro blynyddol o'r defnydd o foddau trafndiaeth carbon isel a di-garbon (rhan o'r monitro blynyddol o'r holl deithiau).
- **Targed:** Bod gostyngiad yn nifer y cerbydau ar y safle drwy ddefnyddio cronfeydd cerbydau.
Dangosydd: Monitro blynyddol o nifer y cerbydau a'r defnydd o gronfeydd cerbydau.
- **Targed:** Bod y defnydd mwyaf posibl o gyflenwyr a chwsmeriaid lleol yn hytrach na rhai sy'n bellach i ffwrdd
Dangosydd: Monitro blynyddol o gyflenwyr a chwsmeriaid lleol.
- **Targed:** Bod teithiau ymwelwyr yn cael eu rheoli'n rhagweithiol.
Dangosydd: Monitro blynyddol o deithiau ymwelwyr.

Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol: Data angenrheidiol

3.135 Y data i'w casglu ar gyfer y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol yw:

- Nifer y milltiroedd a deithiwyd at ddibenion domestig yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu yn ôl moddau trafndiaeth e.e. car/fan ddomestig, bws, trên, fferi, awyren neu feic modur.
- Y mathau o danwydd a ddefnyddiwyd mewn cerbydau domestig.
- Nifer cyfartalog y teithwyr mewn cerbydau a ddefnyddiwyd ar gyfer trafndiaeth ddomestig.
- Maint y gwariant ar danwydd ar gyfer trafndiaeth ddomestig.

Ôl Traed Eraill: Data angenrheidiol

3.136 Ymhlith y data i'w casglu i bennu Ôl Traed Eraill y mae:

- Nifer y milltiroedd a deithiwyd at ddibenion eraill (annomestig) yn ystod y flwyddyn (fesul taith), wedi'i rannu yn ôl moddau trafndiaeth e.e. car/fan ddomestig, bws, trên, fferi, awyren neu feic modur.
- Y mathau o danwydd a ddefnyddiwyd mewn cerbydau ar gyfer y dibenion eraill hyn.
- Nifer cyfartalog y teithwyr mewn cerbydau a ddefnyddiwyd ar gyfer y dibenion eraill hyn.
- Maint y gwariant ar danwydd ar gyfer y dibenion eraill hyn.

4. DADANSODDIAD ÔL TROED ECOLEGOL

Cyflwyniad

4.1 Mae Dadansoddiad Ôl Troed Ecollegol yn 'giplun' sy'n dangos y galw gan bobl ar adnoddau biolegol cyfyngedig ein planed, wedi'i fynegi yn ôl yr arwynebedd tir y pen y mae ar unigolion neu boblogaethau ei angen i ddarparu adnoddau ar gyfer eu ffordd o fyw. Gellir ei ddefnyddio i ddangos ôl traed neu i rag-weld ôl traed yn y dyfodol ar sail rhagdybiaethau neu senarios, fel yr ôl troed sy'n debygol ar gyfer Datblygiad Un Blaned arfaethedig.

4.2 Mae methodoleg yr Ôl Troed Ecollegol wedi'i datblygu'n helaeth. Mabwysiadwyd Safonau Ôl Troed Ecollegol rhyngwladol yn 2006 i sicrhau bod astudiaethau o Ôl Traed Ecollegol yn gredadwy ac yn gyson. Er mwyn gwneud Dadansoddiad Ôl Troed Ecollegol cesglir data am amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys trafnidiaeth, defnydd o ynni, a gwariant ar ddeunyddiau a chynhyrchion a ddefnyddir gan wrthrych y dadansoddiad. Gellir trosi effeithiau'r gweithgareddau hyn yn hectarau byd-eang (gha), sef yr uned gyffredin, gan ddefnyddio dull parod neu ddull dadansoddi gwreiddiol.

4.3 Mae'r holl dulliau parod sydd ar gael wedi'u seilio ar ddadansoddiad lefel uchel o symudiad nwyddau a gwasanaethau rhwng gwahanol sectorau yn yr economi sy'n seiliedig ar wybodaeth ystadegol lefel uchel. Felly maent yn adlewyrchu'r defnydd cyfartalog o gynhyrchion a gwasanaethau sydd wedi'u darparu drwy cadwyni cyflenwi prif ffrwd i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth. Felly er mwyn defnyddio'r dulliau hyn i ddadansoddi Datblygiadau Un Blaned, sydd heb fod yn 'gyfartalog', gellir eu haddasu gan ddefnyddwyr sydd â phrofiad addas. Bydd yr addasiadau hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng y cynhyrchion a gwasanaethau a ddefnyddir gan ymgeiswyr a phreswylwyr Datblygiadau Un Blaned a'r rheini a ddefnyddir gan ddinasyddion nodweddiadol y DU. Enghreifftiau o'r gwahaniaethau hyn yw rhai rhwng:

- amaethyddiaeth ddiwydiannol gonfensiynol (organig ac anorganig) a systemau amaethyddol sydd â mewnbwn isel iawn
- ynni o'r prif gyflenwad trydan drwy'r grid ac ynni o adnoddau adnewyddadwy ar y safle
- milltiroedd a deithiwyd mewn cerbyd sy'n rhedeg ar danwydd gonfensiynol o'i gymharu â cherbyd sy'n rhedeg ar fiodanwydd a gafodd ei adennill a'i brosesu'n lleol
- prynu dillad newydd o'i gymharu â phrynu dillad eildro.

4.4 Mae nifer o wahanol systemau / offer meddalwedd parod ar gael i'w defnyddio am ddim i wneud Dadansoddiad Ôl Troed Ecollegol o unigolion, teuluoedd a chymunedau bach yn y DU. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddigon sensitif a manwl i wneud dadansoddiad a fydd yn rhoi canlyniadau ystyrlon ar gyfer Datblygiad Un Blaned. Felly mae offeryn pwrpasol wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â'r cyfarwyddyd hwn i'w ddefnyddio gan ymgeiswyr am Ddatblygiadau Un Blaned, er nad oes gofyniad i ddefnyddio'r offeryn hwn yn hytrach na rhai eraill. Mae disgrifiad o'r offeryn pwrpasol hwn isod.

Offeryn Dadansoddi Ôl Troed Ecolegol Datblygiadau Un Blaned

Trosolwg

4.5 Mae'r offeryn wedi'i seilio ar offeryn REAP 2 Sefydliad Amgylcheddol Stockholm. Defnyddiwyd REAP 2 i olrhain ôl troed cyfartalog Cymru yn 2004 ac ar hwnnw y seiliwyd y targed ar gyfer yr ôl troed yn TAN 6. Gellir ei lawrlwytho o dudalen TAN 6 ar wefan Llywodraeth Cymru.

4.6 Mae'r offeryn wedi'i seilio'n bennaf ar wybodaeth a gasglwyd am wariant am mai hon yw'r ffordd fwyaf ymarferol o gofnodi'r defnydd o adnoddau allanol i ymgeiswyr am Ddatblygiadau Un Blaned. Mae'r offeryn yn dibynnu ar gywirdeb y data a ddefnyddir a'r gallu i'w gwirio, ac ar ddealltwriaeth ymarferol o ddulliau Dadansoddi Ôl Troed Ecolegol er mwyn dehongli'r canlyniadau. Felly rhaid i'r ymgeisydd neu ei asiant fod yn gymwys i wneud hyn a dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio swyddogion sydd yr un mor gymwys i wirio'r canlyniadau os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

4.7 Mae'r Dadansoddiad Ôl Troed Domestig yn mesur gweithgareddau domestig ac ymgynhaliol y preswylwyr. Yn unol â'r arfer sefydledig ar gyfer dadansoddi ôl traed, mae effeithiau gweithgareddau busnes mewn Datblygiadau Un Blaned wedi'u 'perchenogi' gan ddefnyddwyr cynhyrchion a gwasanaethau'r busnes. Yn yr un modd, mae effeithiau defnydd personol gan wirfoddolwyr neu ymwelwyr â'r prosiect wedi'u 'perchenogi' gan eu hól traed nhw. Felly rhaid i ddarpar breswylwyr a phreswylwyr presennol y Datblygiad Un Blaned wahaniaethu rhwng eu defnydd domestig eu hunain a'r defnydd gan unrhyw fusnes y maent yn ei redeg er mwyn peidio â chwyddo eu hól troed yn anghwir. Derbynnir y gall hyn fod yn fwy anodd yng nghyd-destun y ffyrdd o fyw integredig iawn a geir fel arfer mewn Datblygiad Un Blaned ond mae'n bosibl os cedwir cofnodion clir.

4.8 Mae'r offeryn yn targedu nodweddion cyffredin mewn Datblygiadau Un Blaned, fel ffermio dwys integredig ar raddfa fach ar gyfer defnydd lleol neu ddefnydd yn y cartref ac agweddau eraill ar ffyrdd o fyw sy'n fwy hunangynhaliol. Mae'n amlwg bod cydberthynas rhwng y ffyrdd o fyw defnydd isel, ynni isel mewn Datblygiadau Un Blaned ac Ôl Traed Ecolegol isel, ac mae astudiaethau sydd wedi'u cyhoeddi'n dangos hyn. Mae'r offeryn wedi'i seilio ar beth yr ydym yn ei wybod yn barod am ôl traed ffyrdd o fyw bach eu heffaith a Datblygiadau Un Blaned presennol. Os nad oedd modd gwirio rhagdybiaethau, nid ydynt wedi'u cynnwys. Felly mae canlyniadau'r offeryn yn debygol o fod yn gymharol geidwadol.

4.9 Mae angen dull ymarferol o gasglu data a gwirio data'r Ôl Troed Ecolegol. Gan fod y data ar gyfer y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol yn ymwneud â gwariant yn bennaf, dylai preswylwyr eu cofnodi ar ffurf mantolen, gan restru incwm domestig yn erbyn gwariant ac arbedion, gan gyfrifyddu felly ar gyfer adnoddau allanol (ynni, nwyddau a gwasanaethau) y maent wedi'u prynu ar gyfer yr aelwyd. *Rhaid mantoli incwm yn erbyn gwariant ac arbedion er mwyn gwirio bod yr holl ynni, deunyddiau a gwasanaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau.*

Defnyddio'r Offeryn

4.9 Mae cyfarwyddiadau ar gael ar gyfer defnyddio'r offeryn i'w lawrlwytho gydag ef. Dyma grynodedb o'r cyfarwyddiadau hyn.

4.10 Fel y nodwyd uchod, mae'r offeryn yn asesu'r Ôl Troed Ecolegol domestig y pen mewn Datblygiad Un Blaned. Felly mae'n bwysig gwahanu gwariant, teithio a defnydd o ynni at ddibenion domestig oddi wrth unrhyw wariant, teithio a defnydd o ynni sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgareddau busnes. Ni ddylid cyfrif unrhyw beth sydd wedi'i ddefnyddio gan wirfoddolwyr neu westeion yn y ffigurau domestig ychwaith.

4.11 Os yw'r datblygiad yn cynnwys un aelwyd, dylid cofnodi ffigurau ar gyfer yr aelwyd gyfan. Mae'r cyfrifiannell yn rhannu'r cyfanswm yn ffigur y pen.

4.12 Ar y llaw arall, os yw'r datblygiad yn cynnwys grŵp o aelwydydd, dylid cwblhau taenlen ar wahân ar gyfer pob aelwyd er mwyn cael canlyniadau ar gyfer pob un. Ar sail y canlyniadau hyn gellir cyfrifo Ôl Troed Ecolegol cyfartalog y pen ar gyfer y datblygiad cyfan.

4.13 Ar adeg cyflwyno'r cais cynllunio, mae'r offeryn yn gofyn am y setiau data canlynol:

- **gwariant presennol yr aelwyd** – ar gyfer y 12 mis diwethaf – nid yw hyn yn orfodol ond rydym yn argymhell ei gofnodi am ei fod yn rhoi **llinell sylfaen** i wirio pa mor ymarferol yw'r amcangyfrif ar ôl pum mlynedd
- **amcangyfrif o wariant yr aelwyd wrth feddiannu'r datblygiad am y tro cyntaf**⁸ – wedi'i seilio ar y cynllun ar gyfer rhedeg y datblygiad a'r adeg y caiff ei feddiannu am y tro cyntaf – mae hyn yn orfodol
- **amcangyfrif o wariant yr aelwyd bum mlynedd ar ôl meddiannu'r datblygiad am y tro cyntaf** – wedi'i seilio ar fanylion y cynigion er mwyn amcangyfrif yr ôl troed ar ôl pum mlynedd – mae hyn yn orfodol (gweler paragraff 2.13)

4.14 Ar gyfer monitro parhaus, bydd yr offeryn yn cael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer yr adolygiad o'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol dair blynedd (36 mis) a phum mlynedd (60 mis) ar ôl meddiannu'r datblygiad am y tro cyntaf. Caiff ei ddefnyddio hefyd ar ôl yr un cyfnodau wedyn (h.y. ar ôl 8, 10, 13 a 15 mlynedd ac yn y blaen) (gweler paragraffau 5.3 – 5.4).

- **gwariant gwirioneddol yr aelwyd ar ôl tair blynedd** – mae'r cynnydd tuag at sicrhau'r ôl troed ar ôl pum mlynedd yn cael ei wirio ar ôl tair blynedd – mae hyn yn orfodol
- **gwariant gwirioneddol yr aelwyd ar ôl pum mlynedd** – gwirio'r ôl troed ar ôl pum mlynedd – mae hyn yn orfodol

4.15 Ar gyfer pob amcangyfrif mae angen y setiau data canlynol:

- **gwybodaeth gyffredinol**
 - nifer y bobl ar yr aelwyd
 - incwm yr aelwyd (ar gyfer yr ôl troed presennol ac ar ôl tair a phum mlynedd)
- **defnydd o ynni** – o wahanol fathau mewn kWh
- **tai a seilwaith** – morgeisi, rhenti, buddsoddiadau cyfalaf, atgyweiriadau,

8 pan fydd y safle'n dod yn unig gartref i'r aelwyd

glanhau a gwasanaethau prif gyflenwad

- **teithio a thrafnidiaeth** – moddau, costau, milltiroedd a deithiwyd
- **bwyd a brynwyd** – yn ôl mathau, gan gynnwys bwyta allan
- **bwyd a gynhyrchwyd ar y safle at ddefnydd domestig** – hadau, mewnbynnau, cyfarpar
- **nwyddau traul** – o bob math, e.e. dillad, dodrefn, nwyddau trydanol
- **gwasanaethau** – o bob math, e.e. TGCh, yswiriant, gwasanaethau proffesiynol, llety
- **yr holl drafodion eraill** – arbedion a gwariant ar bob math o danwydd.

4.16 Bydd canlyniadau'r dadansoddiad yn ymddangos ar ben y ddalen cofnodi data. Bydd manylion y canlyniadau ar ddalen ar wahân sy'n dangos gwahanol rannau'r ôl troed.

Dehongli'r canlyniadau

4.17 Gwelwyd hyd yma fod sensitifrwydd o + / - 15% yng nghanlyniadau'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol. Er bod yr Ôl Troed Ecolegol ar gyfer Datblygiad Un Blaned neu gynnig am Ddatblygiad Un Blaned yn ddangosydd cryno hanfodol bwysig o'i effaith ar yr amgylchedd, nid yw'n fesur absoliwt. Gwelir a fydd cynnig am Ddatblygiad Un Blaned yn dderbyniol drwy ystyried nifer o ffactorau ar y cyd: y graddau y mae'n bodloni'r meini prawf hanfodol ac yn ateb y meini prawf cyfrannol, ei Ôl Troed Ecolegol, a phriodoleddau ac effeithiau amgylcheddol yr elfennau penodol sydd yn y cynnig. Yn yr un modd â phenderfyniadau cynllunio eraill o bob math, mae'n fater o bwyso a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol a ffurfio barn ar ôl ystyried pob un ohonynt gyda'i gilydd. Fodd bynnag, prin yw'r bobl sydd â ffordd gonfensiynol o fyw yn y DU a fyddai'n dod yn agos at yr ôl troed isel sy'n ofynnol yn TAN 6 ar gyfer Datblygiad Un Blaned, felly mae'r Ôl Troed Ecolegol yn ffordd ddefnyddiol iawn o wirio'r math o ddatblygiad a gynnigir.

4.18 Mae angen gwneud amcangyfrif o'r Ôl Troed Ecolegol wrth feddiannu'r datblygiad am y tro cyntaf er mwyn cadarnhau bod camau cyntaf y Datblygiad Un Blaned yr adlewyrchu'r ethos effaith fach. Dylid disgwyl gostyngiad o tua 25% o'r Cyfartaledd Cenedlaethol (3.6 gha) ar y dechrau. Fodd bynnag, wrth sefydlu'r Datblygiad Un Blaned, bydd yr adeiladau ac adeiladweithiau newydd eraill, gwaith ar dir ac eitemau seilwaith at ddibenion domestig yn cael eu cyfrif yn Ôl Traed Ecolegol y preswylwyr. Os yw'r rhain yn effeithiau untro sy'n angenrheidiol ar gyfer y Datblygiad Un Blaned, er y dylid rhoi cyfrif amdanynt, ni ddylid cymryd eu bod yn rhan o ôl troed domestig blynyddol 'nodweddiadol' y preswylwyr yn y datblygiad y mae'r polisi'n berthnasol iddo.

4.19 Mae'r gofyniad i sicrhau Ôl Troed Ecolegol o 2.4 gha ar ôl pum mlynedd yn ymestynnol, ond dylai fod yn bosibl i'r Datblygiad Un Blaned ei gyflawni drwy ei briodoleddau effaith fach. Mae'r ffigur hwn yn 50% o'r Ôl Troed Ecolegol cyfartalog y pen yng Nghymru yn 2004 (pan oedd yn 4.88 gha y pen). Ers hynny, oherwydd y cynnydd mewn gwariant cenedlaethol ynghyd â newidiadau ym model REAP 2, mae'r Ôl Troed Ecolegol y pen yng Nghymru bellach yn fwy na 5 gha. Dylid ystyried newidiadau o'r fath yn y data cenedlaethol wrth asesu Ôl Traed Ecolegol Datblygiadau Un Blaned.

4.20 Yn yr un modd, mae agweddau ar y ffigur ar gyfer yr Ôl Troed Ecolegol cenedlaethol, sy'n rhan o'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol, na ellir disgwyl i

breswylwyr Datblygiadau Un Blaned eu lleihau 50% am eu bod yn weithgareddau ar raddfa fawr sydd y tu hwnt i ddylanwad y preswylwyr hynny. Ymhlith y rhain y mae gwariant gan lywodraeth ar wasanaethau, cynnal a chadw, a phrosiectau newydd sydd y tu hwnt i ddylanwad gweithgareddau Datblygiad Un Blaned ond sydd, er hynny, yn cael eu cynnwys yn y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol (yn yr elfennau Gwasanaethau Cyhoeddus a Buddsoddiadau yn yr offeryn). Mae mwy o wybodaeth am y ffordd y mae'r offeryn Dadansoddi Ôl Troed Ecolegol Datblygiadau Un Blaned yn delio â'r elfennau hyn ym Mlwch 14 isod.

4.21 Yn gyffredinol, ar hyn o bryd, mae'r targed terfynol o 1.88 gha y pen yn anodd ei gyrraedd mewn Datblygiad Un Blaned. Mae angen darparu ar gyfer hyn hefyd – mae'r gallu i fynd yn is na 2.4 gha ymhen amser yn fwy ymarferol, am y tro, na chyrraedd y targed o 1.88 gha.

4.22 Mae'r amcangyfrif o'r Ôl Troed Ecolegol ar ôl pum mlynedd yn ddangosydd pwysig ar adeg cyflwyno'r cais cynllunio am Ddatblygiad Un Blaned. Os yw'n uwch o lawer na'r ffigur o 2.4 gha sy'n ofynnol yn TAN 6, gan gymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, ni all y cynnig gyflawni'r gofyniad pwysig hwn ar gyfer Datblygiad Un Blaned a dylid ei wrthod. Os yw'n is na 2.4 gha bydd y gofyniad wedi'i gyflawni. Os yw'n agos i 2.4 gha (hyd at 2.75 oherwydd y sensitifrwydd o 15%) gallai'r cynnig fod yn dderbyniol hefyd ar ôl ystyried pob agwedd arno. Ym mhob achos, mae'n bwysig edrych yn fanwl ar gynnwys yr ôl troed, gan fod hynny'n fodd i gadarnhau bod yr ôl troed yn ddilys, egluro pam y gallai fod yn dderbyniol er ei fod yn uwch na 2.4 gha, neu ddangos pa welliannau y mae eu hangen yn y cynnig i sicrhau ôl troed derbyniol.

4.23 Yn ogystal â hyn, gall y wybodaeth linell sylfaen fod yn bwysig wrth werthuso'r ôl troed ar ôl pum mlynedd. Os caniateir y cais cynllunio, bydd yn ofynnol gwneud Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol ar ôl tair blynedd ac ar ôl pum mlynedd. Bydd yn ofynnol gwneud Dadansoddiadau Ôl Troed Ecolegol yn rheolaidd wedyn wrth ddilyn y cylch monitro cyffredinol (paragraff 5.4). Bydd sylwadau am newidiadau mewn canlyniadau yn ddefnyddiol iawn wrth eu dehongli a'u gwerthuso.

Ôl traed eraill

4.24 Yn ogystal â hyn, mae'r cyfarwyddyd hwn yn gofyn am ystyriaeth ar wahân i'r effaith o Ddatblygiadau Un Blaned ar ôl traed eraill. Mae cymysgedd yma o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl (gweler Blwch 2).

4.25. Ni ellir mesur yr effaith ar yr ôl traed eraill hyn yn yr un ffordd ag ôl traed domestig preswylwyr Datblygiad Un Blaned, gan nad oes dull profedig o wneud hyn. Y gofyniad yw bod yr holl effeithiau ar ôl traed eraill yn cael eu rhestru a'u hasesu fel effeithiau ychwanegol o'r Datblygiad Un Blaned, gan eu bod yn ystyriaethau perthnasol o hyd ar gyfer penderfyniadau cynllunio. Ni ddylid rhoi llawer o bwys ar effeithiau bach neu ansicr – y peth pwysig yw ystyried unrhyw effeithiau sylweddol, rhai cadarnhaol a negyddol, yn yr asesiad cyffredinol o effeithiau ar yr amgylchedd.

Cyfrifo Buddsoddiadau Cyfalaf a Gwasanaethau Cyhoeddus yn yr Ôl Troed Ecollegol

Mae dwy elfen yn yr offeryn REAP 2 safonol a ddefnyddir yng Nghymru – cyfraniadau o Fuddsoddiadau Cyfalaf a Gwasanaethau Cyhoeddus – nad yw preswylwyr mewn Datblygiad Un Blaned yn gallu dylanwadu arnynt. Felly yn yr offeryn Dadansoddi Ôl Troed Ecollegol mae'r elfennau hyn wedi'u gostwng 50% am y rhesymau canlynol:

1. Cafwyd y ffigur o 2.44 gha (yn TAN 6) drwy rannu'r ôl troed o 4.88 ar gyfer Cymru ar y pryd â 2, gan ragdybio y byddai preswylwyr Datblygiad Un Blaned yn gallu haneru'r ôl troed cyfartalog yng Nghymru.
2. Fodd bynnag, nid oes dim y gall preswylwyr Datblygiad Un Blaned ei wneud i haneru'r cyfraniad gan Fuddsoddiadau Cyfalaf a Gwasanaethau Cyhoeddus i'w hôl traed ecollegol gan eu bod yn dod i'w rhan dim ond am eu bod yn byw yng Nghymru.
3. Am y rheswm hwn, mae'r cyfrifiannell yn haneru'n awtomatig y cyfraniadau gan Fuddsoddiadau Cyfalaf a Gwasanaethau Cyhoeddus i'w hôl traed ecollegol (ond gweler 5 isod).
4. **Heb** wneud hyn, mae'r ffigur ar gyfer hectarau byd-eang y byddai'n rhaid i breswylwyr Datblygiad Un Blaned ei gyflawni, ar ôl lleihau'r elfen honno yn eu hôl troed y **mae** ganddynt ddylanwad drosto o 50%, mewn gwirionedd yn 2.44 llai 0.92 (y ffigur o 100% yn ôl troed Cymru ar gyfer Buddsoddiadau Cyfalaf a Gwasanaethau Cyhoeddus) = 1.52. Gan fod y ffigur o 2.4 gha yn anodd iawn ei gyflawni a 1.88 yn amhosibl bron ar hyn o bryd, mae'r ffigur gwirioneddol o 1.52 ar ôl pum mlynedd (neu, yn wir, ar ôl tair blynedd) yn ymestynnol dros ben.
5. Felly, er mwyn rhoi canlyniad union, mae'r cyfrifiannell yn gwneud dau beth: (a) mae'n tynnu'r eitemau hynny o'r categori Buddsoddiadau Cyfalaf nad ydynt yn berthnasol i breswylwyr Datblygiad Un Blaned – h.y. maent yn codi eu tŷ eu hunain; a (b) mae'n lleihau'r swm sy'n weddill o 50% gan roi cyfanswm ar gyfer y categorïau Buddsoddiadau Cyfalaf a Gwasanaethau Cyhoeddus o 0.38.
6. Gan ddefnyddio'r ffigur hwn, mae preswyllydd Datblygiad Un Blaned yn gallu dylanwadu ar 2.44 llai $0.38 = 2.06$ sy'n ymestynnol iawn o hyd ar gyfer y blynyddoedd cyntaf o fyw mewn Datblygiad Un Blaned ond yn fwy tebygol o gael ei gyflawni na'r ffigur o 1.52.

Yr unig ôl troed yn y cyfrifiannell sy'n caniatáu cyfraniad o 100% gan Fuddsoddiadau Cyfalaf a Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gyfrifo'r ôl troed yw ôl troed yr ymgeisydd **cyn** dechrau byw mewn Datblygiad Un Blaned, sy'n rhan ddewisol. Hynny yw, mae'r gostyngiad o 50% yn berthnasol wrth gyfrifo unrhyw Ôl Troed Ecollegol sydd gan breswyllydd Datblygiad Un Blaned ar unrhyw adeg.

Mae'r fethodoleg hon yn darparu ar gyfer newidiadau yn yr Ôl Troed Ecollegol cyfartalog ar gyfer dinasyddion Cymru yn y dyfodol. Wrth i'r Ôl Troed Ecollegol cyfartalog newid dros amser, felly hefyd y bydd y cyfraniad iddo gan Fuddsoddiadau Cyfalaf a Gwasanaethau Cyhoeddus. Wedyn gellir cymhwyso'r gostyngiad rhagdybiedig o 50% at yr Ôl Troed Ecollegol cyfartalog ar gyfer dinasyddion Cymru ar ôl ei newid.

5. CYFNODAU, MONITRO A STRATEGAETH YMADAEL

Datblygu cynigion fesul cyfnod

5.1 Rhaid cynnwys rhaglen yn y cynllun rheoli sy'n dangos cyfnodau cyflawni'r cynigion yn ystod y pum mlynedd cyntaf wrth ddatblygu'r safle. Drwy gynnwys rhaglen o'r fath bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gallu deall pa bryd y bydd gwahanol agweddau ar y cynigion yn cael eu cyflawni. Yr agweddau hanfodol i'w cynnwys yn y rhaglen yw:

- pa bryd y dechreuir rheoli'r safle
- pa bryd y bydd yr aelwyd(ydd) yn dechrau byw ar y safle
- mewn cysylltiad â'r uchod, unrhyw angen am lety dros dro a sut y caiff ei ddarparu
- y rhaglen adeiladu ar gyfer cartrefi'r aelwydydd
- y rhaglen adeiladu ar gyfer adeiladau atodol fel ysguboriau ac ar gyfer cyfleusterau cymunedol a rennir yn achos cymunedau a gynlluniwyd
- dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyflawni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored (paragraff 2.7).

Monitro

5.2 Mae datganiad am drefniadau monitro ac adolygu yn rhan annatod o'r cynllun rheoli. Bydd y cynigion cychwynnol yn egluro 'addewid' y Datblygiad Un Blaned. Rhaid cadw'r addewid hwn a'i wirio drwy drefniadau monitro (paragraff 2.21).

5.3 Y gofynion am fonitro fesul cyfnod fydd:

- adroddiad monitro blynyddol sy'n cofnodi'r canlyniadau ar ôl monitro meini prawf (yn unol â Phennod 3);
- sylwadau byr yn yr adroddiad monitro blynyddol am newidiadau a gafwyd ers y flwyddyn flaenorol sy'n debygol o gynyddu neu leihau Ôl Troed Ecolegol aelwyd(ydd) y Datblygiad Un Blaned ac ôl traed eraill (Pennod 4), ar ffurf adroddiad cynnydd byr ar y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol.
- ailgynnal y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol dair blynedd (36 mis) ar ôl dechrau meddiannu'r safle er mwyn asesu a fydd Ôl Troed Ecolegol y safle'n cyrraedd y targed penodedig o 2.4 hectar byd-eang (gha) y pen bum mlynedd ar ôl meddiannu'r safle am y tro cyntaf.
- ailgyflwyno'r Cynllun Rheoli bum mlynedd ar ôl meddiannu'r safle am y tro cyntaf ynghyd â Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol ar wahân sy'n dangos a gyrhaeddwyd y targed o 2.4 gha.

5.4 Dylid dilyn yr un drefn ar ôl hynny drwy gyflwyno (a) adroddiad monitro blynyddol ynghyd ag adroddiad cynnydd ar y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol; (b) Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol dair blynedd (36 mis) ar ôl y cynllun rheoli diwethaf; ac (c) cynllun rheoli diwygiedig ynghyd â Dadansoddiad Ôl Troed

Ecolegol bum mlynedd (60 mis) ar ôl cyflwyno'r cynllun rheoli diwethaf. Ym mhob achos dylai'r Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol ddangos bod yr Ôl Troed Ecolegol yn llai na 2.4 hectar byd-eang y pen.

5.5 Dylid cynnwys ymrwymiad yn y Cynllun Rheoli cyntaf y bydd y dogfennau uchod yn cael eu cyflwyno.

Adroddiad monitro blynyddol

5.6 Mae prif elfennau'r cynllun rheoli, ym Mhennod 3, yn cynnig dull safonol o fonitro meini prawf allweddol ar sail targedau allweddol sydd wedi'u gosod ar gyfer Datblygiadau Un Blaned. Dylid cofnodi cynnydd ar gyrraedd y targedau hyn mewn Adroddiad Monitro Blynyddol.

5.7 Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol:

- yn dangos y cynnydd ar gyrraedd y targedau a bennwyd gan gynnwys perfformiad carbon adeiladau a'r defnydd ohonynt (gweler y Tabl isod).
- yn cynnwys adroddiad cynnydd byr ar y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol ynghylch newidiadau posibl yn y dadansoddiad (gweler paragraff 5.3). Cyflwynir Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol llawn gyda'r adroddiad hwn ar ôl tair a phum mlynedd.
- yn nodi unrhyw broblemau sy'n codi (h.y. methu cyrraedd targedau neu gynnydd yn yr Ôl Troed Ecolegol) a mesurau i'w datrys.
- yn rhoi tystiolaeth glir i ddangos bod cysylltiad pendant o hyd rhwng y defnydd preswyl a rheoli'r tir.

5.8 Dylid cyflwyno'r adroddiad monitro blynyddol cyntaf 12 mis ar ôl meddiannu'r safle am y tro cyntaf, a phob blwyddyn wedyn ar yr un dyddiad.

Targed	Dangosydd
GWEITHGARWCH AR Y TIR: MONITRO MEINI PRAWF HANFODOL	
Bod anghenion sylfaenol (o leiaf 65%) yr holl feddianwyr o ran bwyd yn cael eu diwallu gan gynnyrch sydd wedi'i dyfu a'i fagu ar y safle neu wedi'i brynu ag incwm sy'n deillio o gynhyrchion eraill sydd wedi'u tyfu a'u magu ar y safle	(a) Adroddiad blynyddol am y cynnyrch bwyd a ddefnyddiwyd fesul aelwyd. (b) Adroddiad blynyddol am y gwariant ar fwyd arall.
Bod anghenion sylfaenol yr holl feddianwyr o ran incwm yn cael eu diwallu o incwm a gafwyd o weithgareddau ar y tir ar y safle.	(a) Adroddiad blynyddol am incwm a chostau aelwydydd.
Bod incwm a geir o fentrau eraill ar dir fel cyrsiau hyfforddiant ac addysg, neu wasanaethau ymgynghori, yn parhau'n ategol i'r prif weithgarwch o dyfu a magu cynnyrch.	(a) Adroddiad blynyddol am gyfanswm gwerth y cynnyrch sydd wedi'i dyfu a'i fagu ar y safle o'i gymharu ag incwm a gafwyd o fentrau eraill ar dir.
Bod perthynas uniongyrchol rhwng nifer y meddianwyr a gallu'r safle i ddarparu ar gyfer eu hanghenion sylfaenol o ran bwyd ac incwm a nifer y bobl y mae eu nangen i redeg y safle'n effeithiol.	(a) Adroddiad blynyddol am nifer y meddianwyr fesul aelwyd ac yn ôl eu rolau ar y safle.
GWEITHGARWCH AR Y TIR: MONITRO MEINI PRAWF CYFRANNOL	
Bod y fenter tir yn darparu bwyd a chynhyrchion i farchnadoedd lleol, gan leihau eu hól traed ecolegol	(a) Adroddiad blynyddol am faint y gwerthiant a meysydd marchnad gan

Targed	Dangosydd
Ileol.	bob menter ar y safle.
Bod cyfleusterau ar gyfer prosesu cynnyrch yn rhai sydd ar gael i gynhyrchwyr lleol eraill.	(a) Adroddiad blynyddol am y defnydd o gyfleusterau prosesu gan gynhyrchwyr eraill.
Bod darparwyr hyfforddiant / cyrsiau / gwasanaethau ymgynghori, sy'n gydrannau yn y fenter tir, yn rhannu'r arferion gorau mewn gweithgareddau cynaliadwy ar y tir â'r gymuned ehangach.	(a) Adroddiad blynyddol am weithgareddau hyfforddi ac ymgynghori.
RHEOLI TIR: MONITRO MEINI PRAWF HANFODOL	
Bod yr holl gynefinoedd lled-naturiol presennol mewn cyflwr ffafriol.	(a) Ystod y rhywogaethau sy'n nodweddiadol o'r cynefin hwnnw ar sail llinell sylfaen sefydledig. (b) Dirywiad y rhywogaethau annodweddiadol / amaethyddol masnachol ym mhob cynefin (gofynnwch am gyngor gan yr Ymddiriedolaeth Natur).
Bod yr holl nodweddion treftadaeth diwylliannol a nodwyd yn cael eu cadw mewn cyflwr da.	(a) Dim tir wedi'i drin na phridd wedi'i erydu dros safleoedd archeolegol claddedig a gwrthgloddiau hanesyddol. (b) Prysgwydd a choed dros safleoedd archeolegol claddedig a gwrthgloddiau hanesyddol wedi'u tynnu. (c) Nodweddion hanesyddol / diwylliannol uwchben y ddaear wedi'u sefydlogi a choed / prysgwydd wedi'u tynnu.
Bod nodweddion sy'n nodweddiadol o'r dirwedd hanesyddol yn fwy o ran nifer a / neu arwynebedd neu hyd a bod pob un ohonynt yn cael ei rheoli drwy ddulliau traddodiadol priodol.	(a) Cynnydd yn nifer / arwynebedd / hyd nodwedd tirwedd x. (b) Cynnydd yn nifer / arwynebedd / hyd nodwedd tirwedd y.
RHEOLI TIR: MONITRO MEINI PRAWF CYFRANNOL	
Bod cynefin(oedd) lled-naturiol (a enwir) wedi'u heangu / creu.	(a) Arwynebedd y cynefin newydd. (b) Ystod y rhywogaethau nodweddiadol yn y cynefin hwnnw.
Bod poblogaeth yr adar ffermdir ar y safle yn cynyddu.	(a) Nifer yr adar ffermdir sy'n nythu ar y safle ar sail llinell sylfaen sefydledig.
Bod poblogaeth y gwenyn mêl yn cynyddu.	(a) Nifer y cychod gwenyn gweithredol ar y safle.
YNNI A DŴR: MONITRO MEINI PRAWF HANFODOL	
Bod yr holl anghenion am ynni yn cael eu diwallu o ffynonellau ynni adnewyddadwy ar y safle.	a) Adroddiad blynyddol am y defnydd o ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd ar y safle (canran o'r anghenion am ynni). b) Adroddiad blynyddol am y defnydd o danwyddau na ellir eu hadnewyddu o bob math (gan gynnwys trydan o'r grid), sy'n cofnodi pwrpas eu defnyddio a'r maint a ddefnyddiwyd. c) Adroddiad blynyddol am faint y trydan a allforiwyd i'r grid ac a fewnforiwyd o'r grid.

Targed	Dangosydd
Bod yr holl anghenion am ddŵr yn cael eu diwallu o ddŵr sydd ar gael ar y safle (oni bai fod dewis arall sy'n fwy cynaliadwy).	a) Adroddiad blynyddol am y defnydd o ffynonellau dŵr (y maint a ddefnyddiwyd o bob ffynhonnell), gan gynnwys dŵr a dynnwyd o gyrff dŵr (dŵr wyneb a dŵr daear). b) Adroddiad blynyddol am lefelau dŵr daear a dŵr wyneb (cofnodion misol).
GWASTRAFF: MONITRO MEINI PRAWF HANFODOL	
Y bydd yr holl wastraff bioddiraddadwy a gynhyrchir ar y safle yn cael ei gymhathu ar y safle mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy o ran yr amgylchedd.	a) Adroddiad blynyddol am faint yr holl wastraff a gynhyrchwyd yn ôl y math o wastraff a ffynhonnell – domestig ac eraill (penodedig).
Yr unig eithriad i hyn fydd meintiau bach o eitemau gwastraff nad ydynt yn fioddiraddadwy y ceir gwared â nhw'n achlysurol y tu allan i'r safle am na ellir eu cymhathu ar y safle ac sy'n deillio o bethau a ddefnyddir ar y safle sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes neu y mae'n amhosibl eu trwsio.	b) Adroddiad blynyddol am faint y gwastraff sydd wedi'i gymhathu ar y safle a maint y gwastraff y cafwyd gwared arno y tu allan i'r safle.
Bod rhaid cydymffurfio â chanllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd wrth drin a chymhathu pob math o wastraff ar y safle.	a) Datganiad blynyddol am gydymffurfiaeth â chanllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd.
GWASTRAFF: MONITRO MEINI PRAWF CYFRANNOL	
Bod yr ail ddefnydd o wastraff organig ar y safle'n cynyddu ffrwythlondeb a chynhyrchiant cyffredinol y safle ar yr amod na fydd hyn ar draul cynefinoedd lled-naturiol pwysig sy'n dibynnu ar bridd isel ei ffrwythlondeb.	a) Wedi'i gynnwys yn yr adroddiad blynyddol am gymhathu gwastraff ar y safle (gweler uchod).
ADEILADAU DI-GARBON: MONITRO MEINI PRAWF HANFODOL	
Bod adeiladau domestig ac atodol yn bodloni'r safon 'ddi-garbon' ar gyfer adeiladu a defnyddio.	a) Sicrhau asesiad 'di-garbon' o ran adeiladu ar gyfer yr holl adeiladau y mae angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar eu cyfer yn unol â'r disgrifiad yn y cyfarwyddyd hwn. b) Sicrhau asesiad 'di-garbon' o ran defnyddio ar gyfer yr holl adeiladau y mae angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar eu cyfer yn unol â'r disgrifiad yn y cyfarwyddyd hwn.
Bod adeiladweithiau y mae angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar eu cyfer yn cael y gymeradwyaeth honno.	a) Bod yr holl adeiladweithiau y mae angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar eu cyfer wedi'u nodi yn y cynigion b) Bod y gymeradwyaeth hon wedi'i sicrhau cyn neu yn ystod y gwaith adeiladu.
Bod yr holl adeiladweithiau sydd wedi'u henwi fel rhai i'w symud yn y Strategaeth Ymadael yn rhai y gellir eu symud gan beri effeithiau bach ar yr amgylchedd.	a) Manyleb ynghylch sut y gellir symud pob adeiladwaith sydd wedi'i enwi yn y Strategaeth Ymadael fel un sydd i'w symud gan beri effeithiau bach ar yr amgylchedd.
ADEILADAU DI-GARBON: MONITRO MEINI PRAWF CYFRANNOL	
Bod cymaint â phosibl o ddeunyddiau eildro yn cael	a) Crynodeb manwl o'r defnydd o

Targed	Dangosydd
eu defnyddio wrth godi adeiladweithiau ar yr amod na fydd hyn yn effeithio ar eu gallu i fodloni'r meini prawf hanfodol.	ddeunyddiau eildro wrth godi adeiladweithiau.
Bod adeiladau presennol yn cael eu hailddefnyddio os byddai hyn yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd yn gyffredinol nag adeiladau newydd, neu os oes gwerth neilltuol ynddynt yng nghyd-destun y dirwedd neu dreftadaeth, ar yr amod nad ydynt yn ddiolwg neu'n negyddol eu heffaith ar y dirwedd o'u cwrpas.	a) Datganiad esboniadol am aildddefnyddio unrhyw adeiladau presennol.
ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL: MONITRO MEINI PRAWF HANFODOL	
Bod effeithiau ar y gymuned wedi'u hasesu'n drwyadl a bod mesurau ar waith i liniaru unrhyw effeithiau negyddol.	a) Monitro effeithiau ar y gymuned yn flynyddol. b) Rhoi mesurau lliniaru ar waith i ddelio ag unrhyw effeithiau negyddol.
ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL: MONITRO MEINI PRAWF CYFRANNOL	
Bod yr holl effeithiau cadarnhaol ar y gymuned yn cael eu hybu a'u cofnodi.	a) Bod yr holl effeithiau cadarnhaol ar y gymuned wedi'u hybu a'u cofnodi.
ASESIAD TRAFNIDIAETH A CHYNLLUN TEITHIO: MONITRO MEINI PRAWF HANFODOL	
Bod gostyngiad sylweddol yn yr effeithiau trafnidiaeth o'r holl weithgareddau ar y safle o'i gymharu â lefelau 'nodweddiadol' ar gyfer nifer y meddianwyr a'r gweithgareddau ar y safle.	a) Monitro blynyddol o'r holl deithiau i mewn ac allan o'r safle yn ôl eu diben, pellter, modd trafnidiaeth, ac unrhyw gynllun i rannu trafnidiaeth. b) Asesiad blynyddol o effeithiau trafnidiaeth y safle ar sail Strategaeth yr Asesiad Trafnidiaeth a'r Cynllun Teithio.
ASESIAD TRAFNIDIAETH A CHYNLLUN TEITHIO: MONITRO MEINI PRAWF CYFRANNOL	
Bod y defnydd mwyaf posibl o foddau trafnidiaeth carbon isel a di-garbon.	a) Monitro blynyddol o'r defnydd o foddau trafnidiaeth carbon isel a di-garbon (rhan o'r monitro blynyddol o'r holl deithiau).
Bod gostyngiad yn nifer y cerbydau ar y safle drwy ddefnyddio cronfeydd cerbydau.	a) Monitro blynyddol o nifer y cerbydau a'r defnydd o gronfeydd cerbydau.
Bod y defnydd mwyaf posibl o gyflenwyr a chwsmeriaid lleol yn hytrach na rhai sy'n bellach i ffwrdd.	a) Monitro blynyddol o gyflenwyr a chwsmeriaid lleol.
Bod teithiau ymwelwyr yn cael eu rheoli'n rhagweithiol.	a) Monitro blynyddol o deithiau ymwelwyr.

Ymateb i broblemau sy'n codi – cardiau coch a melyn

5.9 Ni fydd y rhan fwyaf o'r problemau a nodir yn dyngedfennol i ddyfodol y safle a bydd angen eu datrys erbyn cyflwyno'r adroddiad monitro nesaf. Fodd bynnag, fe fydd rhai sy'n dyngedfennol, er enghraifft, y rheini sy'n peryglu'r gallu i fodloni meini prawf hanfodol ar gyfer Datblygiadau Un Blaned neu'n tanseilio Ôl Troed Ecolegol o 2.4 gha neu lai. Bydd angen rhoi sylw i'r rhain o fewn cyfnod byrrach, penodedig.

5.10 Dim ond nifer bach o broblemau tyngedfennol y dylid eu goddef ar y safle ar unrhyw adeg, er y byddai'n dderbyniol cael mwy o broblemau nad ydynt yn dyngedfennol. Gellir disgrifio'r problemau hyn drwy ddefnyddio system o gardiau melyn ■ a chardiau coch ■ – bydd gormod o gardiau melyn yn troi'n gerdyn coch. Dylid nodi yn y cynllun rheoli beth a ystyrir yn fethiannau tyngedfennol (cardiau coch) a pha mor gyflym y byddant yn cael eu trafod.

Strategaeth Ymadael

5.11 Bydd angen nodi yn y cynllun rheoli beth a ystyrir yn fethiant y safle cyfan. Byddai hyn yn fethiant i gyflawni un neu ragor o nodweddion hanfodol Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored (paragraff 1.9) dros gyfnod o ddwy flynedd heb gymryd mesurau clir ac effeithiol i ddelio â'r problemau a nodwyd.

5.12 Dylid cynnwys 'Strategaeth Ymadael' ym mhob cynllun rheoli ar gyfer cynigion am Ddatblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored, rhag ofn y bydd y safle cyfan yn methu. Bydd y Strategaeth Ymadael hon yn dangos sut byddai'r datblygiad a'r newidiadau cysylltiedig o ran defnydd tir yn cael eu symud fel y bydd y safle'n cael ei adfer i'w ddefnydd blaenorol (neu ddefnydd arall a gytunir) ac yn cael ei adael yn yr un cyflwr neu mewn cyflwr gwell nag yr oedd cyn y datblygiad.

5.13 Gallai rhai agweddau ar y datblygiad fod yn fanteisiol iawn a dylai'r Strategaeth Ymadael eu cadw. Rhai manteision posibl yw plannu a thirweddu, adfer a chreu cynefinoedd a rheoli nodweddion sydd o ddiddordeb o ran treftadaeth ddiwylliannol er mwyn eu hadfer. Yn ogystal â hyn, gallai adeiladau a thraciau amaethyddol newydd fod yn fanteisiol os caiff y tir ei adfer i'w ddefnydd blaenorol ac felly gallai fod yn briodol eu cadw (gofynnwch am gyngor gan yr awdurdod cynllunio ar y mater hwn).

5.14 Fodd bynnag, yr agweddau ar y datblygiad y byddai disgwyl iddynt gael eu symud yw:

- Pob math o ddefnydd preswyl ac adeiladau cysylltiedig.
- Pob elfen arall yn y datblygiad a fyddai'n peri niwed fel arall neu'n dadfeilio pe byddai'n aros.

5.15 Yn gyffredinol, dylid barnu a yw'r Strategaeth Ymadael yn ddigonol ar y sail ganlynol:

- A fyddai'n peri i'r safle gael ei adael yn yr un cyflwr neu mewn cyflwr gwell nag yr oedd cyn y datblygiad.
- Pa mor ddichonol yw'r gweithrediadau angenrheidiol – dylai fod yn bosibl eu cyflawni'n gymharol gyflym a heb fynd i gostau mawr. Os nad yw hyn yn bosibl, mae lle i gredu nad yw'n Ddatblygiad Un Blaned.

5.16 Mae'n dilyn, felly, y bydd yn rhaid cymryd y gofynion hyn i ystyriaeth wrth ddylunio Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored. Beth bynnag, dylai'r dyluniad fod yn gyson â natur 'effaith fach' y Datblygiad Un Blaned.

Gorfodi

5.17 Yn y pen draw, os na fydd methiant i gyflawni'r cynllun rheoli yn cael ei unioni yn unol â'r darpariaethau sydd yn y cynllun rheoli, gellir delio â hyn drwy fesurau gorfodi cynllunio. Os defnyddiwyd cytundeb adran 106, hon fydd y ffordd fwyaf effeithiol o ddelio â methiant i gyflawni'r cynllun rheoli, ac i gychwyn y Strategaeth Ymadael os bydd angen. Os defnyddiwyd amodau yn hytrach na chytundeb adran 106, dylent fod wedi'u geirio fel eu bod yn caniatáu cymryd camau o'r fath os torrwyd yr amodau hynny.

Adolygu'r cynllun rheoli bob pum mlynedd

5.18 Oherwydd eu natur, mae Datblygiadau Un Blaned yn debygol o ddilyn eu cwrs eu hunain. Mae'n synhwyrol, felly, fod y cynllun rheoli i gael ei adolygu bob pum mlynedd (TAN 6 4.26.1). Wrth adolygu'r cynllun rheoli bydd cyfle i sicrhau gwelliant pellach ym mherfformiad amgylcheddol y safle drwy ddysgu (o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol a'r Dadansoddiadau Ôl Troed Ecolegol) beth sydd wedi gweithio'n dda, beth sydd heb weithio cystal, a chyflwyno syniadau newydd o leoedd eraill (paragraffau 2.23– 2.24), yn ogystal ag ymateb i newid mewn amgylchiadau.

5.19 Bydd y Cynllun Rheoli diwygiedig yn nodi eto sut bydd y meini prawf cymhwyso a gofynion y Dadansoddiad Ôl Troed Ecolegol yn cael eu bodloni. Rhaid llunio cynllun rheoli diwygiedig bob pum mlynedd.

6. Y BROSES GYNLLUNIO

6.1 Mae'r adran hon yn cynnwys disgrifiad byr o'r broses gynllunio ar gyfer Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ymwneud yn bennaf â'r ffordd o lunio'r cynllun rheoli a sicrhau'ch bod wedi bodloni'r meini prawf cymhwyso (paragraff 2.7) ar gyfer gwerthuso Datblygiadau Un Blaned yng nghefn gwlad agored.

6.2 Mae'n debygol y bydd y trafodaethau cyn ymgeisio â'r awdurdod cynllunio lleol yn bwysig o ran mireinio'ch cynigion (paragraff 1.14). Mae **Ffigur 3** isod yn dangos mai hon yw rhan gyntaf y broses gynllunio.

6.3 Wedi i chi gwblhau'ch cynigion, gallwch gyflwyno cais cynllunio – ail ran y broses yw hon. Wrth ddod i benderfyniad ar y cais, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn ymgynghori â chyrff o bob math gan gynnwys y Cyngor Cymuned, yr Awdurdod Prifffyrdd, sefydliadau sy'n ymwneud â thirwedd a chadwraeth ac eraill, yn ogystal â'r cymdogion agosaf i'r safle. Caiff y cynigion eu hysbysebu hefyd mewn papur newydd lleol a thrwy osod hysbysiad ar y safle, fel bod pobl eraill (trydydd partion) yn cael cyfle hefyd i ddatgan eu barn am y cynnig i'r awdurdod cynllunio lleol ar ffurf ymateb i ymgynghoriad.

6.4 Er mwyn gwneud ei benderfyniad bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried:

- polisi cenedlaethol (yn Polisi Cynllunio Cymru a TAN 6)
- polisi lleol (yng nghynllun datblygu'r awdurdod lleol)
- y cyfarwyddyd hwn (ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig)
- ymatebion i'w ymgynghoriad
- natur benodol y cynnig.

6.5 Yn gyffredinol, os yw'r cynnig yn bodloni gofynion polisi ac yn bodloni'r meini prawf cymhwyso sydd yn y cyfarwyddyd hwn (paragraff 2.7) dylid ei ganiatáu. Fodd bynnag, gan fod Datblygiad Un Blaned yng nghefn gwlad agored yn fath cymharol gymhleth o ddatblygu, bydd cryn ddadlau'n aml wrth benderfynu ar y cais. Bydd digon o gyfle yn ystod y broses ymgeisio i drafod a mireinio / diwygio'r cynigion. Disgwylir y bydd y ddwy 'ochr' yn dal i drafod er mwyn ceisio cael ateb sy'n dderbyniol i'r naill a'r llall.

6.5 Bydd penderfyniad terfynol yr awdurdod cynllunio lleol yn cael ei ddirprwyo (i'r swyddog cynllunio) neu'n cael ei benderfynu gan bwyllgor. Mae gan bob awdurdod cynllunio lleol ei reolau ei hun ar hyn.

6.6 Os cymeradwyir y cais, gellir symud ymlaen â'r cynigion, er y bydd amodau i'w cyflawni fel arfer, a chytundeb cyfreithiol i'w lofnodi o bosibl. Bydd angen bodloni gofynion eraill hefyd, fel cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar gyfer rhai adeiladweithiau.

6.7 Os caiff cais ei wrthod gall yr ymgeisydd apelio. Mewn apêl bydd y broses benderfynu'n cael ei hailadrodd i bob pwrpas gan Arolygydd Cynllunio. Bydd y ddwy 'ochr' yn cyflwyno eu hachos ynghylch a ddylai'r apêl gael ei gwrthod (yr

awdurdod cynllunio lleol) neu ei chaniatáu (yr ymgeisydd). Os gwrthodir yr apêl, mae'r ffyrdd sydd ar gael i fynd â'r cynnig ymhellach yn gyfyngedig.

6.8 Bydd yr awdurdod cynllunio lleol a'r Arolygydd yn cofnodi'r rhesymau dros wrthod y cynnig yn glir. Mae'n bosibl y gellid adolygu'r cynnig er mwyn datrys hyn.

Ffigur 6.1: Y Broses Gynllunio

